

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith Dafydd Gorlech

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Geraint H. Jenkins, BA, PHD, DLITT

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Cymrodyr Ymchwil*

M. Paul Bryant-Quinn, STB, BA

R. Iestyn Daniel, BA, PHD

Dylan Foster Evans, BA

Rhiannon Ifans, BA, PHD

*Golygyddion Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws J.E. Caerwyn Williams,

MA, BD, DLITT, DLITT CELT, FSA, MRIA, FBA

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Dafydd H. Evans, BA, DPHIL

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

*Swyddog Golygyddol*

Glenys Howells, MA, ALA

# GWAITH DAFYDD GORLECH

golygwyd gan

ERWAIN H. RHEINALLT



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU  
1997

© Prifysgol Cymru ©, 1997.  
Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 0 947531 54 8

Diolchir i'r Academi Brydeinig, Ymddiriedolaeth Leverhulme ac Ymddiriedolaeth L.J. Skaggs a Mary C. Skaggs am bob cymorth i'r prosiect hwn.

Cysodwyd gan staff Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

## *Dull y golygu*

Crëwyd testunau cyfansawdd o'r cywyddau, gan ddangos y darlleniadau amrywiol (ond nid rhai orgraffyddol pur) yn yr 'Amrywiadau' ar waelod y testun. Os yw darlleniad amrywiol yn digwydd mewn grŵp o llawysgrifau, cofnodir ef yn orgraff y llawysgrif hynaf yn y grŵp hwnnw. Lle y bo cromfachau am air neu eiriau yn nhestun y llawysgrif, dynodir hynny â '\ \'. Os oes gair neu ran o linell yn eisiau mewn llawysgrif, nodir hynny drwy roi'r gair neu'r geiriau (yn orgraff y testun golygedig) mewn bachau petryal. Fodd bynnag, os yw'r gair neu'r geiriau'n annarllenadwy neu wedi cael eu dileu oherwydd staen, twll, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag. Pan fo llinellau ar goll mewn llawysgrif, dynodir hynny drwy nodi llythyren y llawysgrif mewn bachau petryal yn yr amrywiadau, ond lle y bo llinell(au) ar goll *ac* amrywio yn nhrefn y llinellau, dodir rhifau'r llinellau coll mewn bachau petryal yn yr adran 'Trefn llinellau' ar ddiwedd yr 'Amrywiadau' yn unig.

Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu a'i atalnodi. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod y gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG<sup>3</sup> xlvi); er enghraifft, diweddarwyd *-aw-*, *-aw* yn *o* pan oedd angen (oni bai fod yr odl yn hawlio cadw'r *aw*) ac *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd geiriau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *no(g)*, *gwedy*, *uddun* (sef 'iddynt'), *ymy*, *yty* (sef 'imi', 'iti'), *wyd* (sef 'wyt'), *carud*, *cery*, &c.

Gwaith anodd fu aralleirio gwaith Dafydd Gorlech oherwydd amwysedd aml y testun, ac ni ellir gorbwysleisio mai un dehongliad yn unig a gynigir yn yr aralleiriadau isod.

Yn y Mynegai ar ddiwedd y gwaith rhestrir y geiriau a drafodir yn y nodiadau (nodir hynny ag 'n'), yn ogystal â geiriau dieithr neu eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r arfer. Ceir hefyd fynegeion i'r termau a'r motiffau brudiol sy'n digwydd yn y testun.

## *Diolchiadau*

Paratowyd y gwaith hwn yn wreiddiol fel traethawd ymchwil a gyflwynwyd am radd M.A. Prifysgol Cymru [Bangor], 1994 (drwy gyfrwng arholiad a thraethawd). Cydnabyddir yn ddiolchgar oruchwyliath yr Athro Gruffydd Aled Williams, hyfforddiant yr Athro Gwyn Thomas a Mr Dafydd Glyn Jones a nawdd ariannol Ysgoloriaeth John Gwilym Jones.

Diolchir hefyd i'r canlynol am gymorth wrth baratoi'r gyfrol: Golygydd a staff Geiriadur Prifysgol Cymru; staff Adran y Llawysgrifau a'r Cofysgrifau yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth; Mr Tomos Roberts, Archifydd Prifysgol Cymru Bangor a Mr Daniel Huws.

Erwain H. Rheinallt

# Cynnwys

	<i>Td.</i>
DULL Y GOLYGU .....	v
DIOLCHIADAU .....	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol .....	ix
Termau a geiriau .....	xiv
GWAITH DAFYDD GORLECH	
RHAGYMDRODD .....	1
TESTUN AC ARALLEIRIAD	
1.    Cywydd brud .....	13
2.    I ofyn march gan Rosier Fychan .....	20
3.    Cywydd brud .....	25
4.    Cywydd brud .....	30
5.    Cywydd brud .....	38
6.    Ymddiddan rhwng y bardd a'r Wyddfa .....	44
7.    Cywydd y gigfran .....	53
NODIADAU .....	61
MYNEGAI .....	95
ENWAU PERSONAU .....	97
ENWAU LLEOEDD .....	98
MYNEGAI I DERMAU BRUD .....	99
LLAWYSGRIFAU .....	101
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF .....	105





# Byrfoddau

## Llyfryddol

AH	<i>Astudiaethau ar yr Hengerdd</i> , gol. R. Bromwich ac R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978)
B	<i>Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd</i> , 1921–93
Bangor	Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor
Bangor (Mos)	Llawysgrif yng nghasgliad Mostyn, Prifysgol Cymru Bangor
P.C. Bartrum: WG1	<i>Welsh Genealogies AD 300–1400</i> (Cardiff, 1974)
BD	<i>Brut Dingestow</i> , gol. H. Lewis (Caerdydd, 1942)
BL Add	Llawysgrif Ychwanegol yng nghasgliad y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
Bodley	Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen
ByCy	<i>Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940</i> (Llundain, 1953)
CAMBM	<i>Catalogue of Additions to the Manuscripts in the British Museum</i>
Card	Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
CLIG	<i>Ceinion Llenyddiaeth Gymreig</i> , gol. O. Jones (Llundain, 1876)
CLIH	<i>Canu Llywarch Hen</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1935)
CM	Llawysgrif yng nghasgliad Cwrtmawr, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
CT	<i>Canu Taliesin</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1960)
ChT	Ifor Williams, <i>Chwedl Taliesin</i> (Caerdydd, 1957)

- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- R. Wallis Evans: Dar R. Wallis Evans, 'Y daroganau Cymraeg hyd at amser y Tuduriaid gan roi sylw arbennig i'r cywyddau brud' (M.A., Cymru [Caerdydd], 1935)
- EVW M.E. Griffiths, *Early Vaccination in Welsh with English Parallels* (Cardiff, 1937)
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDG<sup>3</sup> *Gwaith Dafydd ap Gwilym*, gol. Thomas Parry (trydydd arg., Caerdydd, 1979)
- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- GGI<sup>2</sup> *Gwaith Guto'r Glyn*, gol. J. Llywelyn Williams ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1961)
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLIF *Gwaith Llywelyn Fardd I ac Eraill o Feirdd y Ddeuddegfed Ganrif*, gol. K.A. Bramley *et al.* (Caerdydd, 1994)

- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–)
- GSC *Gwaith Siôn Ceri*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1996)
- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisierdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GWL ii A.O.H. Jarman & Gwilym Rees Hughes, *A Guide to Welsh Literature*, ii (Swansea, 1979)
- Gwyn Llawysgrif yng nghasgliad Gwyneddon yn Llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor
- HMNLW *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1943–)
- HSt *Harlech Studies*, ed. B.B. Thomas (Cardiff, 1938)
- IGE<sup>2</sup> *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. H. Lewis, T. Roberts ac I. Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- A.O.H. Jarman: ChM A.O.H. Jarman, 'Chwedl Myrddin yn y canu cynnar' (M.A., Cymru [Bangor], 1936)
- J Llawysgrif yng nghasgliad Coleg Iesu, Rhydychen
- LGC *The Poetical Works of Lewis Glyn Cothi*, ed. Tegid and Gwallter Mechain (Oxford, 1837–9)
- LGCD *Lewys Glyn Cothi (Detholiad)*, gol. E.D. Jones (Caerdydd, 1984)
- LM *Vita Merlini: Life of Merlin*, ed. Basil Clarke (Cardiff, 1973)
- LICy *Llên Cymru*, 1950–
- LIDC *Llyfr Du Caerfyrddin*, gol. A.O.H. Jarman (Caerdydd, 1982)
- LIGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> J.E. Lloyd, *A History of Wales* (third ed., London, 1939)

Llst	Llawysgrif yng nghasgliad Llanstephan, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Mont Coll	<i>Collections Historical &amp; Archaeological relating to Montgomeryshire, issued by the Powysland Club, 1868–</i>
J. Morris-Jones: CD	John Morris-Jones, <i>Cerdd Dafod</i> (Rhydychen, 1925)
MT	Llawysgrif Merthyr Tudful, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
OED	<i>The Oxford English Dictionary</i> (Oxford, 1933)
Pant	Llawysgrif yng nghasgliad Panton, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
Pen	Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
PKM	<i>Pedeir Keinc y Mabinogi</i> , gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
R	<i>The Poetry in the Red Book of Hergest</i> , ed. J. Gwenogvryn Evans (Llanbedrog, 1911)
RWM	<i>Report on Manuscripts in the Welsh Language</i> , ed. J. Gwenogvryn Evans (London, 1898–1910)
SC	<i>Studia Celtica</i> , 1966–
J.B. Smith: LlaG	J. Beverley Smith, <i>Llywelyn ap Gruffudd: Tywysog Cymru</i> (Caerdydd, 1986)
Stowe	Llawysgrif yng nghasgliad Stowe, yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
THSC	<i>The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion</i> , 1892/3–
Traeth	<i>Y Traethodydd</i> , 1845–
TYP <sup>2</sup>	<i>Trioedd Ynys Prydein</i> , ed. Rachel Bromwich (second ed., Cardiff, 1978)
WATU	Melville Richards, <i>Welsh Administrative and Territorial Units</i> (Cardiff, 1969)
W Surnames	T.J. Morgan and Prys Morgan, <i>Welsh Surnames</i> (Cardiff, 1985)

Wy

Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay, yn  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth

*Termau a geiriau*

a.	ansoddair, -eiriol	gol.	golygydd, golygyd
a.	<i>ante</i>		gan
adf.	adferf	grb.	gorberffaith
amhff.	amherffaith	grch.	gorchmynnol
amhrs.	amheronol	grff.	gorffennol
anh.	anhysbys	gthg.	gwrthgyferbynier, -iol
ardd.	arddodiad, -iaid	gw.	gweler
arg.	argraffiad	Gwydd.	Gwyddeleg
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	H.	Hen
b.	benywaidd	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
ba.	berf anghyflawn	<i>id.</i>	<i>idem</i>
be.	berfenw	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
bf. (f.)	berf, -au	ll.	lluosog; llinell
c.	<i>circa</i>	Llad.	Lladin
c. (g.)	canrif	llau.	llinellau
C.	Canol	llsgr.	llawysgrif
cf.	cymharer	llsgrau.	llawysgrifau
Clt.	Celteg, Celtaidd	m.	mewnol
Cym.	Cymraeg	myn.	mynegol
cys.	cysylltair, cysylltiad	n.	nodyn
d.g.	dan y gair	neg.	negydd, -ol
dib.	dibynnol	<i>ob.</i>	<i>obiit</i>
dyf.	dyfodol	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
e.	enw	pres.	presennol
eb.	enw benywaidd	prff.	perffaith
e.c.	enw cyffredin	prs.	person, -ol
ed.	<i>edited by, edition</i>	pth.	perthynol
e.e.	er enghraifft	r	<i>recto</i>
eg.	enw gwrywaidd	rh.	rhagenw, -ol
e.p.	enw priod	S.	Saesneg
<i>ex inf.</i>	<i>ex informatione</i>	sc.	<i>scilicet</i>
f.	ffolio	<i>s.n.</i>	<i>sub nomine</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	td.	tudalen
ff.	ffolios	un.	unigol
g.	(c.) canrif	v	<i>verso</i>
g.	gwrywaidd	vols.	<i>volumes</i>
gn.	geiryn		

# Rhagymadrodd

## Bywyd y bardd

Ni chadwyd nemor ddim gwybodaeth am Ddafydd Gorlech ar wahân i'r hyn y gellir ei gasglu o'i gerddi. Y mae ei enw yn awgrymu bod iddo gysylltiad ag Abergorlech, plwyf gynt yng nghwmwd Cao, Cantref Mawr, Ystrad Tywi,<sup>1</sup> ac ategir hyn gan y cofnod *Dafydd Gorlech Caermden* yn llawysgrif Peniarth 49, 167<sup>v</sup>. Cyfeiria R. Wallis Evans at y ffurfiau amrywiol canlynol ar ei enw, *Gorlech*, *Gwrlech* a *Gorllech*,<sup>2</sup> ac y mae'r olaf yn un o'r ffurfiau mwyaf poblogaidd.<sup>3</sup> Gellir ychwanegu at y rhain y ffurfiau *gorlych*, *gorlywch*, *gorlach* a *Gorddlech*.<sup>4</sup> Y mae'r unig dystiolaeth arall a ganfuwyd yn y llawysgrifau yn dystiolaeth negyddol. Digwydd enw Dafydd Gorlech mewn rhestr gan Thomas Wiliems o feirdd a'u manau claddu, ond ni nodir man ei gladdu ef yno.<sup>5</sup>

Y mae'n sicr i Ddafydd dderbyn hyfforddiant ffurfiol fel bardd ac y mae'r gyfeiriadaeth yn ei waith yn awgrymu i raddau ystod a chwmpas yr addysg honno. Y mae'n amlwg yn gyfarwydd â 'Thrioedd Ynys Prydain' (5.7) ac yn arddangos gwybodaeth fanwl ac uniongyrchol o 'Ffrut' Sieffre ac o lu o broffwydoliaethau eraill, rhai ohonynt yn broffwydoliaethau a gadwyd ar glawr (cerdd 5). Cyfeiria at y cerddi darogan a dadogwyd ar Fyrddin a Thaliesin a cheir awgrym ei fod yn gyfarwydd ag 'Armes Prydain', â 'Chân yr Henwr', â gwaith Gildas neu'r traddodiadau a ddeilliai ohono, â gwaith y Bardd Glas ac â cherddi ei gyfoeswr Dafydd Llwyd o Fathafarn. Ceir ganddo hefyd gyfeiriadau at y cymeriadau Beiblaidd Daniel (4.77) ac Eliás (4.33) ac at chwedl Tŵr Babel (6.12).

### *Ei noddwyr a'i ddyddiadau*

Y mae'r *Bywgraffiadur Cymreig* yn awgrymu'n betrus 1410–1490 fel dyddiadau ar gyfer Dafydd Gorlech.<sup>6</sup> Cynigir dyddiad o fewn chwarter olaf

<sup>1</sup> Gw. WATU 3.

<sup>2</sup> R. Wallis Evans: Dar 153.

<sup>3</sup> Gw., e.e., LIGC 3077B, 44, LIGC 4710B, 429, LIGC 6499B, 475, 493, LIGC 13167B, 267, Bodley Welsh e 6, 92, Llist 136, 88, LIGC 6209E, 353.

<sup>4</sup> Gw. BL Add 31057, 118<sup>v</sup>; St 959, 42<sup>v</sup>; Pen 78, 84 a Llist 133, 70.

<sup>5</sup> Gw. BL Add 31055, 48<sup>v</sup>; ymhellach ar y rhestr hon, gw. 'Beddau y Beirdd (o Ysgriflyfr yn y Gywreinfâ Brydeinig)', *Y Brython*, iii (1860), 137.

<sup>6</sup> Gw. ByCy 93.

y bymthegfed ganrif ar gyfer ei ganu gan rai o gopiŵyr y llawysgrifau<sup>7</sup> ac ategir hynny i raddau helaeth gan dystiolaeth y cerddi.

Enwir noddwyr Dafydd mewn dau gywydd yn unig, sef y ddwy gerdd gyntaf a olygir isod. Cerdd yn gofyn am ych gan Syr Morys, Hywel ap Rhys, Tomas Dafi a Wiliam Hywel yw'r gyntaf, a chrybwyllir ynddi drefgordd Mathrafal ym mhlwyf Llangynyw, cantref Caereinion ym Mhowys Wenwynwyn.<sup>8</sup> Ni chanfuwyd gŵr o'r enw Morys yn byw yng nghyffiniau Mathrafal yn y cyfnod hwn, ond ceir esiamplau niferus o'r enwau eraill yng ngweithiau Bartrum a Lewys Dwnn er na fu modd barnu pwy yn union yw gwrthrychau'r cywydd. Y mae'n bur debyg fod y weithred o hau a ddisgrifir yn fath o drosiad estynedig am fraenaru'r tir neu baratoi ar gyfer ymgyrch filwrol megis dyfodiad Harri Tudur. Ategir hyn gan y cyfeiriadau at y *wadd* (1.84) a *gwennol* (1.86) yn ogystal â'r cyfeiriadau Sibylaidd at Harri VI, Edward IV a Rhisiart III (1.25–6, 29–30). Y mae'n debygol, felly, fod y cywydd hwn yn perthyn i gyfnod teyrnasiad Rhisiart III, sef 1483–5.

Canwyd yr ail gywydd i Syr Rhosier Fychan, o Dretŵr, Ystrad Yw, plwyf Llanfihangel Cwm Du, Brycheiniog,<sup>9</sup> i ofyn march ar ran Morys Fychan. Iorciad o gryn argyhoeddiad oedd Rhosier ac yr oedd ei ddylanwad gwleidyddol yn helaeth. Bu'n weithgar iawn yn ymgyrchu ar ran ei blaid yng Nghymru ac fe'i gwobrwyyd â nifer o swyddi dylanwadol.<sup>10</sup> Cyfeiria'r bardd hefyd at Farged (2.72), ail wraig Rhosier, sef merch James Touchet, Arglwydd Audley.<sup>11</sup> Bu hi'n briod â Rhosier yn ystod y cyfnod rhwng marwolaeth ei gŵr cyntaf ar 17 Rhagfyr 1466 a 1471 pan gafodd Rhosier ei ddiennyddio gan Siasbar Tudur yng nghastell Cas-gwent,<sup>12</sup> a dichon mai i'r cyfnod hwn y perthyn y cywydd. Ceir awgrym yn 2.15–16 y gall fod y gerdd yn perthyn i'r cyfnod rhwng 3 Hydref 1470 ac 11 Ebrill 1471 pan adferwyd Harri VI i'r orsedd.

Ychydig gyfeiriadau cyfoes a geir yn y drydedd gerdd. Cyfeirir at Syr John Lovell ac at Richard Neville, Iarll Warwig (*ob.* 1471) (3.21–2) ac awgrymir bod y bardd yn disgwyl am Siasbar Tudur (3.61–2). Serch hynny, y mae'r cyfeiriad tebygol at Rys ap Tomas fel *Syr* (3.6) yn awgrymu i'r

<sup>7</sup> LIGC 668C, 51 '1480', Llist 30, 4 'flor: An: 1500', LIGC 6499B, 475, 493 '1500', Bodley Welsh e 6, 92 'Flor. 1500'; cf. hefyd y dyddiad 1500 a roddir gan John Davies, Mallwyd, yn ei restr o feirdd ar ddiwedd D.

<sup>8</sup> Gw. WATU 154.

<sup>9</sup> Gw. ByCy 940.

<sup>10</sup> Gw. *ib.* ac isod 2.8n.

<sup>11</sup> Gw. ByCy 940, 'Ei ail wraig oedd Margaret, Arglwyddes Powys, merch James, arglwydd Audley, o'i ail wraig, Eleanor ferch ordderch Edmwnd, iarll Kent. (Buasai ei gŵr cyntaf, Syr Richard Grey, arglwydd Powys, farw 17 Rhagfyr 1466 ... yr oedd hi'n arglwyddes Powys cyn priodi Syr Rhosier Fychan; yr oedd hi wedi marw cyn 2 Chwefror 1480/1.)'

<sup>12</sup> Gw. GGI<sup>2</sup> 342 a ByCy 940 lle y nodir 'Ar ôl brwydr Tewkesbury, 1471, dywedir i'r brenin Edward orchymyn iddo ymlid Siaspar Tudur, iarll Penfro, ond efe ei hun a syrthiodd i'r fagl a'i ddiennyddio gan yr iarll yng nghastell Casgwent'.



gerdd gael ei chanu wedi i'r gŵr hwnnw gael ei urddo'n farchog yn dilyn Brwydr Bosworth yn 1485, onid yw'r darlleniad yn annilys.<sup>13</sup>

Ceir yn y bedwaredd gerdd foliant i wrthrych anhysbys, sef *Wil fal dug Elfael dir* (4.4). Ymddengys ei fod ef a'r bardd ar herw yn ardal y Graig Lwyd sef Craig Llanymynaich ar y ffin rhwng Powys a swydd Amwythig. Cyfeirir at Harri Tudur (4.65) ac at Rys ap Tomas (4.72). Y mae'n debygol, felly, fod y cywydd hwn yn perthyn i gyfnod teyrnasiad Rhisiart III.

Ymddengys fod y bumed gerdd wedi ei chyfansoddi ar ôl marwolaeth y brudiwr Dafydd Llwyd o Fathafarn,<sup>14</sup> ond ceir yma hefyd gyfeiriadau posibl at Siasbar Tudur (5.48), Gwilym ap Gruffudd o'r Penrhyn (5.52), Rhisiart III (5.63) a Harri Tudur (5.66). Gwyddys i Ddafydd Llwyd ganu cywydd i Harri VII yn dilyn ei fuddugoliaeth ar Faes Bosworth,<sup>15</sup> felly y mae'n bosibl fod Dafydd Gorlech wedi canu'r cywydd beth amser wedi'r fuddugoliaeth ac yn cyfeirio yn ôl at ddigwyddiadau yn y gorffennol. Awgryma hyn fod apêl i'r cywyddau ar wahân i'r ysgogiadau gwleidyddol amlwg.

Ceir cyfeiriadau tebygol pellach at Rys ap Tomas yn y chweched gerdd (6.53–6, 65), ac at Harri Tudur (6.57–8, 65). Felly awgrymir i'r cywydd hwn gael ei ganu yn bur agos at amser Brwydr Bosworth.

Y mae'r seithfed gerdd isod yn llawn o arwyddion brudiol traddodiadol ac ni chredir bod yno unrhyw gyfeiriad a allai fod o gymorth inni i'w dyddio.

O ystyried tystiolaeth y cerddi hyn, felly, awgrymir i Ddafydd Gorlech ganu yn ystod ail hanner y bymthegfed ganrif, c. 1466/70 hyd at c. 1490.

### *Ei waith*

#### *Y testun*

Gwaith anodd fu sefydlu testun o gywyddau Dafydd Gorlech am nifer o resymau. Y mae'r mynegeion i farddoniaeth y llawysgrifau yn rhestru cerddi yn ôl eu llinellau cyntaf a golyga hyn fod darnau anghyflawn o gywyddau yn cael eu cofnodi fel cywyddau annibynnol. Oherwydd ffurf a natur trosglwyddiad y cywyddau brud, cadwyd nifer o ddarnau o'r fath.

<sup>13</sup> Gw. ymellach y nodyn cefndir i gerdd 3. Cf. hefyd GDLI 25 (1.9) *Bid Syr Rhys a bod sy raid o* 'Cywydd moliant i Harri Iarll Ritsmwnt ab Edmwnt, Iarll Ritsmwnt, cyn ei ddyfod o Frytaen Fechan (Ffrainc) i ymladd â Rhisiart y Trydydd'.

<sup>14</sup> 5.15–18 *Dafydd aeth o Lan Dyfi / Diwedd ei oes i'm dydd i, / Proffwyd pêr, hen aderyn, / Pregethawdd, ni bu hawdd hyn.*

<sup>15</sup> Gw. GDLI 14, 'Y mae'n ddiamau hefyd fod Dafydd Llwyd yn fyw yn 1485, yn adeg Maes Bosworth, oherwydd ceir ganddo gywyddau i Harri VII ar ôl ei ddyrchafu'n frenin, e.e.: 'Hel a gaiff drwy heli ag onn,' a'r cywydd i Arthur mab Harri VII, 'Arthur benadur ydoedd.' Ganwyd Arthur ym mis Medi, 1486. Gallwn fod yn sicr felly fod Dafydd Llwyd yn canu rhwng 1447 a 1486. Os cywir yw tystiolaeth arall yr oedd yn fyw ac yn canu hefyd yn 1497, oherwydd canodd farwnad i Ddafydd Llwyd fab Syr Gruffudd Fychan yn y flwyddyn honno ... Yr oedd cyfnod canu Dafydd Llwyd, yn ôl y dystiolaeth hon, yn faith, o 1447 hyd 1497'.

Anhawster arall sy'n codi ynglŷn â'r dull hwn o restru cerddi yw'r ffaith fod cywyddau ac iddynt fersiynau amrywiol ar y llinell gyntaf—boed y gwahan-iaeth yn amser y ferf, dyweder, neu'n wahaniaeth orgraffyddol pur – eto'n cael eu rhestru ar wahân.

Am y rhesymau hyn penderfynwyd ei bod yn hanfodol cwblhau'r proses o gopïo'r holl destunau o'r cerddi a chodi'r amrywiadau o'r llawysgrifau, er mwyn sicrhau bod dosbarthiad y cerddi yn gywir, cyn dechrau ar y golygu.

Wrth benderfynu ynglŷn â dilysrwydd cywyddau, gweithiwyd yn ôl cyf-uniad o ddwy egwyddor sylfaenol, sef bod modd barnu mai cywydd o eiddo Dafydd Gorlech ydyw cerdd pan yw'r mwyafrif o'r llawysgrifau yn priodoli'r gwaith iddo ef a phan nad ydyw'r llawysgrifau cynharaf hefyd yn priodoli'r cywydd i fardd arall. Un anhawster arbennig sy'n codi yw fod rhai o'r copi-wyr yn uniaethu Dafydd Gorlech â Dafydd Llwyd: er enghraifft mewn rhestr o awduron y cerddi yn LIGC 6681B, 16, y mae John Jones Gellilyfdy yn enwi *Dd Gorlech alias Dd Llwyd*.<sup>16</sup> Am fod Dafydd Llwyd yn un o'r enwocaf o'r brudwyr y mae'n anorod i beth o waith beirdd eraill, yn enwedig beirdd o'r enw *Dafydd*, gael eu camdodgi arno, yn arbennig felly yn y llawysgrifau diweddaraf.

Wrth geisio sefydlu testun o waith Dafydd Gorlech canfuwyd nifer o broblemau sy'n gyffredin iawn yn y canu brud yn gyffredinol: ceir yn aml gryn amrywio mewn darlenniadau ac mewn trefn llinellau, llinellau ychwanegol mewn rhai o'r llawysgrifau, a hefyd weithiau wahanol fersiynau ar yr un llinell yn digwydd o fewn yr un testun. Y mae'r elfennau hyn i gyd yn awgrymu bod y cerddi wedi eu trosglwyddo ar lafar i raddau helaeth,<sup>17</sup> a cheir digon o dystiolaeth i awgrymu bod cerddi brud yn cael eu datgan i ddibenion gwleidyddol mewn cynulliadau awyr agored.<sup>18</sup>

Anarferol hefyd yw gweld cynifer o amrywiadau ar gyfer cywyddau sydd â chyn lleied o ffynonellau llawysgrifol ac y mae hyn yn cymhlethu'r gwaith o sefydlu testun boddhaol. Ceir amrywio mewn arddodiaid, newid amser a pherson berfau, dadleoli berfau â berfau eraill sy'n swnio'n debyg, a

<sup>16</sup> Ceir enghreifftiau pellach o hyn mewn nodiadau ar Ddafydd Gorlech yn R. Wallis Evans: Dar 153.

<sup>17</sup> Gw. yn arbennig gerddi 4 a 6 lle y gwelir dylanwad y traddodi llafar ar waith y bardd hwn yn egluraf.

<sup>18</sup> Gw. Ifor Williams, 'Hen Chwedlau', THSC, 1946–7, 28, sy'n rhoi dyfyniad o *A Catalogue of the Manuscripts relating to Wales in the British Museum*, i, 72, o lsg. BL Lansdowne 111, f. 10, c. 1600, 'Upon the Sondaies and hollidaies the multitude of all sortes of men woomen and childerne of everie parishe doe use to meete in sondrie places either one some hill or one the side of some mountaine where their harpers and crowthers singe them songs of the doeings of their auncestors, namelie, of their warrs againste the kings of this realme and the English nacion, and then doe they ripp upp their petigres at lenght howe eche of them is descended from those their ould prins. Here alsoe doe they spende their time in hearinge some part of the lives of Thalaassyn [?Taliessin], Marlin Beno Pybbye [Merddyn pen beirdd], Jerru [? Iorwerth], and suche other the intended prophetts and saints of that cuntrie'. Mae Ifor Williams, *ib.* n2, yn cywiro rhai o'i ddarlenniadau: 'mae *Thalaassyn, Marlin, Beno a Kybbye* yn glir a diamwys ... Darllenaf [y pumed enw] fel Jerm~~ſ~~'; felly Taliessin, Myrddin, Beuno, Cybi a Garmon.

chyfnewid geiriau â geiriau sy'n cytseinio. Er y gallai hyn ddeillio i ryw raddau o natur dywyll y sylwedd brudiol yn gyffredinol a'r ffaith fod y cyfeiriadau yn y cywyddau yn anhysbys i rai o'r copïwyr,<sup>19</sup> y mae'n amlwg, o ystod eang yr amrywiadau, nad gwallau copïo yn unig a fu'n gyfrifol am yr hynodrwydd hwn.

Elfen arall sy'n awgrymu traddodiad llafar yw'r ffaith fod y personau a fu'n copïo neu'n cofnodi yn asio rhannau o wahanol gywyddau ynghyd. Y mae fersiwn llawysgrifau A ac C o gerdd 7 isod, er enghraifft, yn gyfuniad o 'Y gigfran syfrdan ei sŵn' gan Ddafydd Gorlech ac 'Y gigfran a gân fal gŵydd' gan Ddafydd Llwyd.<sup>20</sup> Y mae fersiwn llawysgrif I o gywydd 5 yn cynnwys wyth llinell o'r cywydd 'Brawd llid urddas llwyd urddol'.

### *Sylwedd y cerddi*

Bu paratoi golygiad o waith Dafydd Gorlech yn orchwyl pleserus, er yn llafurus, oherwydd yr amrywiaeth diddorol o ddeunydd a gadwyd. Y mae'r cywyddau oll yn cynnwys elfen o frud. Ceir ganddo ddau gywydd gofyn, sef cerdd 1, lle y mae'r bardd yn ceisio ych gan Domas Dafi, a cherdd 2 lle y mae Dafydd yn chwennych march gan Rosier Fychan o Dretŵr ar ran Morys Fychan. Y mae ychydig mwy na hanner llinellau y gerdd gyntaf a thua chwarter llinellau'r ail gerdd yn cynnwys elfen o frud.

Er bod agoriad cerdd 3 yn ddigon aneglur a thywyll, y mae'n debygol mai gweddillion brud o fewn ffrâm y cywydd serch ydyw.<sup>21</sup> Y mae deuparth y cywydd hwn yn frud, ond efallai fod rhai o'r llinellau agoriadol wedi mynd ar goll. Tueddai'r stori neu'r dyfalu i ddod yn elfen eilradd mewn cywyddau o'r fath gan adlewyrchu diddordeb yr oes.<sup>22</sup> Yn yr un modd y mae'r cefndir hefyd yn dywyll yng ngherdd 4: egyr fel cywydd moliant i herwr cyn ymroi i frud pur, ac awgrymir yn gryf i'r bardd yntau gyfranogi o'r bywyd peryglus hwn. Unwaith eto y brud ydyw'r elfen lywodraethol yn y cywydd hwn.

Yng ngherdd 5 anerchir y llyfr brud gan y bardd sy'n cwyno am annilyswydd brudiau'r gorffennol mewn dull sy'n gyffredin yn y cywyddau brud ar ffurf ymgom rhwng y bardd a'r gwrthrych.<sup>23</sup> Yn ôl y disgwyl y mae'r llinellau sy'n dilyn yn llawn symbolau a motiffau brudiol traddodiadol, ond yn nhraean olaf y gerdd ceir cyfeiriadau at ddigwyddiadau cyfoes Rhyfel-oedd y Rhosynau.

<sup>19</sup> Gw., e.e., rai o'r darlenniadau amrywiol ar *Forfryn*, 4.26.

<sup>20</sup> GDLI 87–9 (cerdd 36).

<sup>21</sup> Trafodir y math hwn ar ganu gan W. Leslie Richards yn 'Cywyddau Brud Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn', LICy ii (1952–3), 251.

<sup>22</sup> Gw. *ib.* 253.

<sup>23</sup> Trafodwyd y math hwn o gywydd, sy'n awgrymu bod y beirdd yn astudio brudiau a daroganau a gedwid ar glawr, gan Henry Lewis yn 'Rhai Cywyddau Brud', B i (1921–3), 247.

Gellir gosod cerddi 6 a 7 ymhlith y dosbarth o gywyddau brud 'hawl ac ateb' sydd ar ffurf ymgom rhwng y bardd a gwrthrychau arbennig.<sup>24</sup> Egyr cerdd 6, lle y ceir ymgom rhwng y bardd a'r Wyddfa, yn drawiadol gyda'r bardd yn dyfalu'r mynydd yn ddawnus gan bwysleisio ei alluoedd amddiffynnol a'i harddwch drwy gyfrwng trosiadau a phersonoli. Ond y mae tri chwarter olaf y gerdd, i'r gwrthwyneb, yn llawn o frud sy'n gymysgedd o arwyddion traddodiadol, o broffwydoliaethau adnabyddus ac o gyfeiriadau brudiol at gymeriadau hanesyddol tua therfyn Rhyfeloedd y Rhosynnau. Unwaith eto, y mae Dafydd Gorlech yn cael hwyl ar y dyfalu yng ngherdd 7, lle y mae'n cyfarch y gigfran. Fel Dafydd Llwyd<sup>25</sup> a Maredudd ap Rhys,<sup>26</sup> dewisodd yntau lunio brud ar ffurf ymddiddan rhyngddo a'r gigfran oherwydd bod yr aderyn hwn yn rhan anhepgor o ddelweddaeth maes y gad er cyfnod yr Hengerdd. Y mae i'r tri chywydd debygrwydd o ran yr agwedd ddisgrifiadol, ond cofier mai fel rhagymadrodd yn unig yr ystyriai'r beirdd yr adran hon; rhyw ffurfioldeb angenrheidiol cyn ymroi i frudio.

Yn Llst 55, 116 (1579), yn llaw'r gramadegydd Siôn Dafydd Rhys, digwydd y geiriau canlynol dan y pennawd 'dd gorlwech', *Torch evraid y gaid i godi / morrhyd . / . a narrow place of the sea / dan y tonn ar gwelth dwfr bedydh / tir habhog : lhywydh dilis . / . pantire / or dhiwenydh*. Digwydd yr uchod ymhlith cyfres o ddarnau amrywiol eu hyd, gan nifer o feirdd gwahanol; ceir rhai llinellau unigol a chymalau anghyswllt ac y mae'r darnau'n frith o esboniadau geiriol a glosau.<sup>27</sup> Ymddengys y gall fod y llinell gyntaf uchod yn ddechrau toddaid, ond ni ellir canfod cysylltiad rhwng y darn hwn a gweddill y dyfyniad. Y mae'r darn o ddiddordeb arbennig oherwydd mai cywyddau yw'r cyfan o'r cerddi o waith Dafydd Gorlech a orosodd.

Dyfynnir ymhellach linell seithsill o gerdd goll o eiddo'r bardd yng Ngeirfa Wiliam Llŷn, sef *a mvr a llaid mawr ai llvdd*.<sup>28</sup>

Ceir nifer o arwyddion brud traddodiadol yng ngherddi Dafydd Gorlech a cheir rhestr o'r rhain ar ddiwedd y gyfrol hon. Yn ychwanegol at y rhain, ceir yn ei waith elfennau eraill a oedd yn rhan o gynhysgaeth y beirdd brudiol. Er enghraifft, ceir cyfeiriadau sy'n awgrymu ei fod yn gyfarwydd â'r traddodiadau ynglŷn â Myrddin a'r chwedl amdano: er enghraifft y *ddau Fyrddin* (2.40), *Dyn wyf yn myned yn wýdd / Oll i'm hoedl yn llamhidydd* (3.1-2), *Forfryn hen a'i farf yn hir* (4.36), *arddwr i Fyrddin* (4.78), *Taliesin na Myrddin mwy* (5.8), *Mae dewin ym a'i dywad?* (5.12), *Lleian* (5.14), a *cerdd Merddin* (7.76). Y mae'n amlwg hefyd i'r bardd ymgyfarwyddo â

<sup>24</sup> Gw. W. Leslie Richards, *art.cit.* 253.

<sup>25</sup> Gw. GDL1 87-9 (cerdd 36).

<sup>26</sup> Gw. 'Y gigfran oergan arwgau', Llst 173, 37.

<sup>27</sup> Gw. RWM ii, 550.

<sup>28</sup> Gw. Geirfa Wiliam Llŷn yn Roy Stephens, 'Gwaith Wiliam Llŷn' (Ph.D. Cymru [Aberystwyth], 1983), d.g. *llvdd*.

phroffwydoliaethau a briodolid yn gam neu'n gymwys i feirdd eraill,<sup>29</sup> fel yr awgrymir gan y cyfeiriadau canlynol: *y ddau Fyrddin a ddyfawd* (2.40), *Arwydd glaw y Bardd Glas* (4.22), *nid coeladwy / Taliesin na Myrddin mwy* (5.8), *Dafydd aeth o Lan Dyfi / Diwedd ei oes i'm dydd i / Proffwyd pêr hen aderyn / Pregethawdd, ni bu hawdd hyn* (5.15–18).

Un nodwedd ddi-ddorol ar y gwaith ydyw'r defnydd helaeth a wna Dafydd Gorlech, mewn manau, o 'Broffwydoliaethau Myrddin' ym 'Mrut y Brenhinedd' Sieffre o Fynwy. Y mae'r gwaith hwn, wrth gwrs, wedi dylanwadu ar ddelweddaeth ac arddull y cywyddau. Ceir ganddo hefyd y cyfeiriadau arferol at broffwydoliaeth y dreigiau: *draig wen heb garennnydd* (2.25) ac *A draig wen yn dirio gwŷr* (5.31); proffwydoliaeth yr angel, o bosibl, *Angel wrth grwth a thelyn* (3.59); chwedl darddiad Dardan fab Zeus, *Drwy dân a haul Dardan hir* (4.60); a'r hanfod tybiedig o hil Idwal Iwrch fab Cadwaladr Fendigaid, *Tair neidr, tēyrn o Idwal* (2.22). Dengys y gerdd gyntaf, yn arbennig, ddibyniaeth glòs iawn ar rannau o'r testun. Ceir hefyd yn y gerdd gyntaf ddyfyniad uniongyrchol o'r 'Brut',<sup>30</sup> ac y mae hyn, yn ogystal â'r gyfeiriadaeth yn 1.11–24, yn awgrymu bod y bardd yn uniongyrchol gyfarwydd â thestun o'r 'Brut'. Credir mai dyma'r allwedd i nifer o'r manau tywyll sy'n peri trafferth i'r sawl a geisia ddehongli rhai o'r cywyddau brud, sef bod yno gyfeirio helaeth a manwl at broffwydoliaethau sydd bellach ar goll. O gael testun cynhwysfawr o'r holl gywyddau brud, siawns na ellid adffurfio peth ar yr wybodaeth goll a datrys rhai o'r dirgelion.

Ceir mân gyfeiriadau a chyfeiriadau helaethach at broffwydoliaethau penodol yma a thraw yn y cywyddau,<sup>31</sup> e.e. *Oen ... / Â thafod aur* (1.87–8) sef un o'r anifeiliaid a enwir yn 'Y Broffwydoliaeth Fer'; *Y wiber hir o chai barhau / A wna reswm o'r asau* (3.32), sef cyfeiriad at ddarogan o'r un math â 'Phroffwydoliaeth y Disiau'; *Y Wadd ... / O enau Duw* (6.42–6) sydd eto'n dangos dylanwad 'Y Broffwydoliaeth Fer' a *tir y lleuad* (5.39), enw a grybwyllir ym 'Mhroffwydoliaeth y Lili'. Gweler hefyd 3.39–48 lle y mae'r bardd yn mydryddu 'Proffwydoliaeth y Wennol' a 6.79–90 sy'n dangos dylanwad 'Proffwydoliaeth y Chwe Brenin i ddilyn y Brenin John'.

Math arall o ddylanwad a welir ar y cywyddau brud hyn ydyw effaith y canu darogan cynharach.<sup>32</sup> Gwelir hyn mewn motiffau megis y syniad ynglŷn â'r mab darogan yn dyfod dros y môr; yn enwau'r brwydrau, er enghraifft Mochno (6.61, 7.43), Cymunod (6.64, 7.46); ac yn rhai o'r enwau ar y mab darogan megis Owain (6.63, 7.43) a *hen w'n dau hanner* (4.26) sy'n deillio o'r enw cynnar 'macwy dau hanner' a ddigwydd yng 'Nghyfoesi Myrddin a Gwenddydd ei Chwaer'.

<sup>29</sup> Gw. HSt 151.

<sup>30</sup> Gw. 1.23–4n isod.

<sup>31</sup> Gw. HSt 152.

<sup>32</sup> Gw. *ib.* 155.

Y mae modd hefyd ddarganfod y dylanwad mewn cyfeiriadau penodol, er enghraifft at ‘broffwydoliaeth yr haf hirlfelyn’ a hefyd yn y sôn am bla yn dod i Fôn, y cyfeirir atynt gan Rys Fardd.<sup>33</sup>

### *Cerddi annilys*

#### *Amau y beirdd mae y byd*

Tri chopi o bymtheg sy'n priodoli'r cywydd i Ddafydd Gorlech, sef Bangor 1267, 7<sup>v</sup>, BL Add 31082, 191<sup>v</sup> a LIGC 659A, 6, ac y mae'r rheini ymhlith y copïau diweddaraf. Tadogir un copi ar ddeg ar Ddafydd Llwyd ac un, sef Mos 144, 65, ar Harri Hian [?Oraihian]. Argraffwyd y cywydd yn GDLI 25–6 (cerdd 1).

#### *Breuddwydion beirdd a oedwyd [ourdwyd]*

Y mae pedwar copi ar ddeg o'r naw copi ar hugain yn priodoli'r cywydd i Ddafydd Gorlech, sef Bangor 1267, 13<sup>r</sup>, BL Add 31057, 143<sup>r</sup>, BL Add 31082, 189<sup>r</sup>, Bodley Welsh e 6, 74 (v Dafydd Llwyd), Brog 4, 258, Llst 41, 156, Llst 118, 340 (v Dafydd Llwyd), Llst 136, 90, LIGC 3047C, 63, LIGC 4710B, 429, LIGC 13167B, 267. Priodola gweddill y llawysgrifau'r gerdd i Ddafydd Llwyd ac y mae dau gopi yn ddiennw. Argraffwyd y cywydd yn GDL1 29–31 (cerdd 4). Gw. hefyd *Llynges gwiber ac eryr* isod.

#### *Brynerch a geidw'r brenin = darn o Mawr yw'r ofyn am ryfel*

Y mae'r ddau gopi yn tadogi'r cywydd ar Ddafydd Gorlech: BL Add 31082, 187<sup>r</sup> a Llst 122, 445.

#### *Byd afrifed dros [i'r g]wledydd*

Ceir dau ar bymtheg ar hugain o gopïau o'r gerdd ac y mae un ar ddeg ohonynt yn tadogi'r cywydd ar Ddafydd Gorlech, sef Bangor (Mos) 10, 11<sup>r</sup> (v Daf Ll/Robin Ddu/Llywelyn ap Maredudd), BL Add 14886, 18<sup>r</sup>, Card 5.44, 78<sup>r</sup>, Iolo Aneirin Williams 4, 127, Llst 133, 221<sup>r</sup> (v Gruffydd ab dd Fychan/Dafydd ap Maredudd ab Ednyfed), Llst 134, 109, MT 136, LIGC 13063B, 21<sup>v</sup>, LIGC 13069B, 24 (v Daf Llwyd/Llywelyn ap Maredudd ab Ednyfed/Robin Ddu), LIGC 13167B, 304 (v Llywelyn ab Ednyfed/Dafydd Llwyd), LIGC 13691C, 9<sup>v</sup> (v Dafydd Llwyd/Llywelyn ap Maredudd ab Ednyfed/Robin Ddu).

#### *Byd [Dyd] yn gall [anghall] pes [pei] deallwn*

Ceir deugain copi o'r cywydd a phriodolir tri ohonynt i Ddafydd Gorlech, sef Bodley Welsh e 6, 119 (v Robin Ddu), Llst 135, 123, LIGC 6209E, 380. Y mae 75% o'r copïau yn priodoli'r cywydd i Robin Ddu. Fe'i hargraffwyd yn CLIG i, 215–16.

<sup>33</sup> Gw. 4.42n a 6.32n.

*Deall yr wyf dall [dull] i rai*

Y mae saith llawysgrif o'r pedair llawysgrif ar bymtheg yn tadogi'r cywydd ar Ddafydd Gorlech, sef Bangor 1267, 25<sup>v</sup> (v Dafydd Llwyd), Bangor (Mos) 10, 4<sup>r</sup>, Bodley Welsh e 6, 236 (v Dafydd Llwyd), Llŷst 41, 155, LIGC 659A, 88, LIGC 4710B, 426, LIGC 13167B, 264. Priodola mwyafrif y llawysgrifau'r gerdd i Ddafydd Llwyd.

*Dydd da i'r wylan leian lwyd*

Chwe llawysgrif yn unig o blith pedair llawysgrif ar ddeg ar hugain sy'n tadogi'r cywydd ar Ddafydd Gorlech, sef CM 467, 12, LIGC 669D, 128 (v Dafydd Llwyd), LIGC 672D, 117 (v Dafydd Llwyd v Dienw), LIGC 2633C, 37, Pen 124, 111, Pen 242, 28. Y mae'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau yn priodoli'r cywydd i Ddafydd Llwyd ac fe'i hargraffwyd yn GDLI 50–2 (cerdd 15).

*Enynnu [Enynnwyd] tân yn ein [y] tir*

Dwy lawysgrif yn unig o blith pedair llawysgrif ar bymtheg sy'n tadogi'r cywydd ar Ddafydd Gorlech, sef BL Add 31057, 7<sup>r</sup> a BL Add 31082, 181<sup>v</sup>. Priodola wyth llawysgrif y gerdd i Ddafydd Llwyd ac fe'i hargraffwyd yn GDLI 52–4 (cerdd 16).

*Gwae di yn aros noswaith*

Digwydd y fersiwn hwn mewn dwy lawysgrif, sef BL Add 14892, 90<sup>r</sup> a BL Add 14994, 44<sup>v</sup>. Argraffwyd y fersiwn yn CLIG i, 214–15. Digwydd 22 llinell ohoni fel llinellau 23–30, 41–4, 47–50, 53–4, 63–6 cerdd 6 isod, a 12 llinell ohoni fel llinellau 13–14, 25–6, 33–4, 41–6 o *Rho Duw'r tŵr rhaid it aros* (gw. CLIG i, 212–13).

*Gwynedd cafas[cafodd / canys] dy genedl*

Un llawysgrif yn unig o blith wyth sy'n priodoli'r cywydd hwn i Ddafydd Gorlech, sef LIGC 6209E, 354. Cynhwyswyd y gerdd gan Abraham Jenkins yn 'The works of Tudur Penllyn and Ieuan Brydydd Hir Hynaf' (M.A., Cymru [Aberystwyth], 1921), 105.

*Hir yw'r oes ar herw yr wyf*

Digwydd pum copi yn unig o'r fersiwn hwn a briodolir i Ddafydd Gorlech, sef Bodley Welsh e 6, 321, Brog 4, 256, Llŷst 133, 233, Llŷst 136, 88, LIGC 3077B, 231. Digwydd llinellau 41–2, 59–64, 65–8, 69, 71–4, 77–8, 79–80 ohono yn *Y seren y sy[dd] arwydd* isod fel yr argraffwyd ef yn CLIG i, 216.

*Llem yw'r floedd llyma'r flwyddyn*

Priodolir y gerdd i Ddafydd Gorlech mewn chwe chopi o'r chwech ar hugain sy'n bodoli, sef BL Add 14887, 86<sup>r</sup>, Bodley Welsh e 6, 126 (v

Dafydd Llwyd), Llst 133, 241 (v Dafydd Llwyd), Llst 173, 28, LIGC 3077B, 176, LIGC 6209E, 375. Y mae pob copi ond pedwar yn enwi Dafydd Llwyd fel awdur. Argraffwyd y gerdd yn GDLI 67–9 (cerdd 24).

*Llynges gwiber ac eryr [llynges gwiler a gerir]*

Darn ydyw o *Breuddwydion beirdd a oedwyd*, uchod, gw. GDLI 30–1 (4.47–60, 67–8, 71–2). Un copi yn unig o'r darn hwn a geir, sef BL Add 14892, 91<sup>r</sup>.

*Mae haul [hael] ac[w] mal [fel, wel] dyma hi*

Priodolir dau gopi o blith yr un ar ddeg a gadwyd i Ddafydd Gorlech, sef Card 64, 497 a Mos 144, 72. Y mae mwy na hanner y llawysgrifau yn tadogi'r gerdd ar Faredudd ap Rhys.

*Mawr yw'r [bu] ofyn [arofyn, ymofyn] am ryfel*

Gweler hefyd *Brynnherch a geidw'r brenin* uchod sy'n seiliedig ar ddau gopi ychwanegol o ran o'r gerdd a briodolir i Ddafydd Gorlech. Digwydd y cywydd mewn chwech ar hugain o lawysgrifau. Y mae un ar ddeg ohonynt yn priodoli'r gerdd i Ddafydd Gorlech, sef Bangor 401, 21, BL Add 14986, 42<sup>v</sup>, BL Add 31057, 139<sup>r</sup>, BL Add 31058, 110<sup>v</sup>, BL Add 31082, 179<sup>v</sup>, Bodley Welsh e 6, 310, Llst 54,14, Llst 120, 239, LIGC 668C, 44, LIGC 6499B, 380, LIGC 6681B, 125. Erys amheuaeth ynglŷn ag awduraeth y cywydd oherwydd priodolir y gerdd neu rannau ohoni i Robin Ddu a *Robin Hwd* (sef ffugenw ar Robin Ddu yn ôl pob tebyg) mewn tair llawysgrif ar ddeg, gan gynnwys Pen 53 a gopiwyd ar ôl 1484, Pen 84 sy'n perthyn i ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg, B 48 sy'n perthyn i chwarter olaf yr unfed ganrif ar bymtheg a Llst 41, Llst 54 a Llst 120 sy'n perthyn i draean cyntaf yr ail ganrif ar bymtheg. Y mae mwyafrif y llawysgrifau sy'n priodoli'r gerdd i Ddafydd Gorlech yn rhai diweddarach na hyn. Priodolir y gerdd i Ddafydd Llwyd mewn dwy lawysgrif.

*Merddin a wyddiad mawrddysg*

Priodolir y gerdd i Ddafydd Gorlech mewn un copi o'r un ar ddeg a oroesodd, sef Llst 181, 23. Y mae wyth o'r llawysgrifau yn priodoli'r gerdd i Robin Ddu.

*Och na wn na chawn ennyd [O chawn / Ochwn achwyn / O chawn ennyd]*

O'r ddau gopi ar hugain a oroesodd y mae saith yn priodoli'r gerdd i Ddafydd Gorlech, sef BL Add 14986, 50<sup>r</sup>, Brog 3, 580, J 15, 371, Llst 53, 526, Llst 124, 425 (v Ieuan ap Gruffudd Leiaf a Robin Ddu), LIGC 668C, 48, LIGC 6499B, 375. Priodola mwyafrif y llawysgrifau'r cywydd i Syr Huw Pennant.



*Paham na [fo] ddarfu'r amod? + darn, sef Aro ennyd i Ronwen*

Cf. hefyd *Rho Duw'r brud ynyfyd annoeth* sef fersiwn o'r un cywydd ond fod hanner cyntaf y cywydd a'r ail hanner wedi cyfnewid eu safle. Ystyrir y dystiolaeth llawysgrifol oll ynghyd. Canfuwyd y cywydd neu ddarnau ohono mewn dwy llawysgrif ar hugain. Priodolir y gerdd i Ddafydd Gorlech mewn dwy o'r llawysgrifau hynny, sef BL Add 31057, 74<sup>r</sup> a BL Add 31082, 171<sup>r</sup>.

*Tir a fyn y tarw o Fôn*

Dyma ddarn o *Cleddau wnâi asau ysig*, sef cywydd a gyhoeddwyd yn GDLI 31–3 (cerdd 5). Fe'i priodolir i Ddafydd Gorlech yn Gwyn 7, 110.

*Y seren y sy[dd] arwydd* (gweler hefyd *Hir yw'r oes ar herw /a herwr/ yr wyf*)

Digwydd y gerdd mewn deg llawysgrif ar hugain. Y mae pump ohonynt yn priodoli'r cywydd i Ddafydd Gorlech, sef LIGC 4710B, 431, LIGC 5268D, 38, LIGC 13063B, 38<sup>v</sup>, LIGC 13167B, 270, LIGC 20574A, 354. Y mae'r mwyafrif o ddigon o'r llawysgrifau, sef pedair ar hugain, yn priodoli'r cywydd i Robin Ddu. Argraffwyd un ffurf arni yn CLIG i, 216.

*Yn amser hydd [y] bydd [y] byd*

Digwydd y cywydd hwn mewn saith llawysgrif, sef BL Add 14894, 85<sup>r</sup> (Dafydd Llwyd), Bangor 401, 122, BL Add 14948, 53<sup>v</sup> (Dafydd Llwyd), CM 14, 54(3) (priodoliad yn unig, i Robin Ddu), LIGC 408D, 37, Pen 94, 165 (Robin Ddu), Pen 196, 163, Llist 119, 141. Argraffwyd ef yn GDLI 100–1 (cerdd 43).

### *Cerddi dilys*

*Am eryr braich môr a bryn* (cerdd 2)

Fe'i priodolir i Ddafydd Gorlech yn yr holl llawysgrifau.

*Deallwn nad â wellwell* (cerdd 1)

Fe'i tadogir ar Ddafydd Gorlech yn yr holl llawysgrifau.

*Draw o'i dilyn dri dialedd [dioladd]* = darn o *Y Wyddfawr noddfa nawddfawr*

Digwydd yr unig gopi yn Pen 327, iii, 393. Dyma'r ail ran o gopi Pen 326, v, 61.

*Dyn wyf yn myned yn [i] wýdd* (cerdd 3)

Priodolir y cywydd i Ddafydd Gorlech yn yr holl llawysgrifau.

*Er gweled rhyf yng ngwlad traw* = darn o *Y brud hen wyt yn bratáu*.

*Gwae a ddewis gweddiaw* = darn o *Nid êl ei gorff ar elawr*.

*Llywyrrio llu o Warwig* = darn o *Y brud hen wyt yn bratáu*.

*Mi a brydaf o'm brodir* = *Nid êl ei gorff ar elawr* ond bod y cwpled cyntaf ar goll.

*Mi a ddwg cwyn maddau cad* = darn o *Y brud hen wyt yn bratáu*.

*Nid êl ei gorff ar elawr* (cerdd 4)

Priodolir y gerdd i Ddafydd Llwyd yn LIGC 13069B, 34<sup>v</sup>.

*Y brud hen wyt yn bratáu* (cerdd 5)

Priodolir y cywydd i Ddafydd Gorlech yn unig. (Gw. hefyd *Er gweled rhyf yng ngwlad traw*, *Llywyrrio llu o Warwig*, a *Mi a ddwg cwyn maddau cad*, sef darnau anghyflawn o'r gerdd.)

*Y gigfran syfrdan ei swân* (cerdd 7)

Priodolir y gerdd i Ddafydd Gorlech mewn naw o'r llawysgrifau. Y mae LIGC 659A, 80 yn enwi Dafydd Llwyd fel awdur. Yn BL Add 14892, 105<sup>v</sup> a BL Add 14994, 40<sup>r</sup> ceir fersiwn o linellau 35–6, 41–4, 57–8, 67–70, 73–4 o'r cywydd hwn, yna digwydd llinellau 21–5, 27–8, 37–8, 43–4, 49–50, 53–4, o'r cywydd *Y gigfran a gân fal gŵydd* a argraffwyd yn GDLI 87–9 (cerdd 36).

*Y Wyddfa noddfa nawddfawr* (cerdd 6)

Priodolir y cywydd yn BL Add 14889, 40<sup>v</sup>, 38<sup>r</sup>, 38<sup>v</sup> a LIGC 668C, 9 i Richard Hughes, Cefn Llanfair, bardd o'r 17g. a ganai ar y mesurau rhydd; priodolir ef yn LIGC 6499B, 327 a LIGC 6967B, 185 i Robin Ddu. Mynegir ansicrwydd ai Dafydd Gorlech ynteu Robin Ddu yw'r awdur yn LIGC 672D, 24 ac yn ôl LIGC 11222B, 3 Rhys Goch Eryri neu Rys Goch ap Dafydd a'i cyfansoddodd. (Gw. hefyd *Draw o'i dilyn dri dialedd* [dioladd].)

1  
*Cywydd brud*

Deallwn nad â wellwell  
Swyddau ieirll, hau y sydd well.  
Tawed glaw tra y tawyf,  
4 Tawed gwynt, tawedog wyf!  
Llawn yw cwyn llwynog gennyf  
A'i gariad wen o Gaerdýf:  
Un a wisg yn ei wasgawd  
8 Y cym a friw croen ei frawd;  
Ewin arth yn ei werthyd  
A phen baedd hoffa'n y byd;  
Nadredd yn niwedd y nant  
12 Uwch ei ben a chwibanant.  
E wna morwyn, em arab,  
Wylo'r Mai o alar mab:  
Rhiain a wisg rhawn o wyn  
16 O goed ir, ac aderyn.  
Dir i adar y drudwen  
Llygru'r ýd yn holl Loegr wen:  
Eu hergyd hwy rhag y tes  
20 Yw glyn gwlybr glan Galabes.  
Y dderwen a'r tri chenau  
A'r un a ddwg ran y ddau.  
Y gaer fawr gau ar fore,  
24 Daear a'th lwnc, dŵr i'th le!  
Gwedi'r H y gedir I,  
Gŵr y god, ac R gwedi.  
Mai a ddaw am wedd ewyn,  
28 Mawr drwch hir—Mair, edrych hyn!  
E dirion aed i orwedd  
Ac R fain i gwr ei fedd.  
Tymestl ar lin Locrinus,  
32 Cawod a wna'r coed yn us.  
Cyrchwn gelliau ceuon  
Rhag y tes a'r gawod hon.

- 36 Gwnawn gyngor y fôr-forwyn:  
 Heddychu, llechu 'mhob llwyn.  
 Lloer ym mynwes llyngesan  
 Ddu ar lif a ddaw i'r lan.  
 Da fwriad yw fy arwydd,  
 40 Domas, hocys, hyd y mae swydd.  
 Hau a welaf Fathrafal,  
 Heuwn ar faes hwy no'r Fâl:  
 Agori, gwn, y graig ir –  
 44 Ag aradr yr agorir.  
 Mae dau ben nis margennwn,  
 March ac ych marchog a wn.  
 Syr Morys rym ei arwydd,  
 48 Sirion ei flas er yn flwydd.  
 O waed Dafydd y tyfir  
 Ac o ddail Haf Gwyddel hir.  
 Erchi i hwnnw erchwiniog:  
 52 Ych â gwe lawn uwch ei glog,  
 Eidion a'i war dan y wedd  
 Dan wreang du'n ei orwedd.  
 E ddichon, dda ei achau,  
 56 Hywel ap Rhys help i'r iau.  
 Gweddi fawr gref gwyddfa'r Grog,  
 Gŵr yn medi grwn Madog,  
 Ac o'r da y gŵyr dewis  
 60 Eidion â'i ffrâm dan we ffris,  
 Ych heb adu cau'r buarth,  
 Elain â gwisg lin neu garth.  
 Ond cyfarch Tomas rasol  
 64 Dafï, ni ad fy iau'n ôl!  
 Adeilodd ef (da le i ddyn)  
 Blas a dâl Bowls a Dulyn,  
 Ych nêr fan uwch no'r Fenis  
 68 Yma a ry brawd mawr ei bris.  
 Ysgafn fydd coedydd y Cân  
 Yn ei lwyth, neu Lywethan.  
 Ni wn help yn iawn i hau  
 72 Eithr enwi f'ewythr innau.  
 Iarll mud-falch, er llymed fai,  
 Help Wiliam Hoel a'i pylai.  
 E roddes ar ei weddi  
 76 Ei aur a'i feirch erof i.  
 Ych naf, ucha' anifail,  
 Eidion a roes dyn yw'r ail.

- 80 Ych a welais, iach olud,  
Asen gref Iesu'n ei grud,  
Asen fu yn y cenol,  
Asen hwyr y sy'n eu hôl.  
'Y nghred, er addfwyned fo,
- 84 Y daw'r wadd i'w diwreiddio.  
Gŵyl Lug, o'i gwely eigion,  
Gwennol hir a gân gnul hon.  
Oen a gyfyd o'n gefyn
- 88 Â thafod aur a thwf dyn.  
Gwedi darfod y nodau,  
Gwanwyn hir, gwyn hen i'w hau!

*Ffynonellau*

A—BL Add 14887, 7<sup>v</sup> B—BL Add 31057, 90<sup>r</sup> (llau. 1–52) C—Bodley Welsh e 6, 169 D—LIGC 3077B, 110 E—Llst 133, 68<sup>v</sup> F—Llst 136, 89<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

2 *F* swydd; *AF* hav sydd. 3 *DF* gloywf; *BD* [y]. 5 *B* llawen. 6 *B* o gariad gwen o gaer ddyf. 8 *E* cynr aur yw croen ei wawd. 9 *E* yw ei. 13 *AC* wen arab (*em* yn *C*). 14 *D* i lawer mab. 18 *ABF* lygry; *BE* [r]; *D* yn nhir lloegr. 19 *F* ai. 20 *D* y glyn; *AC* glyn gwbl (lyb *uwch* bl yn *C*); *B* gwlyb glan, *E* gwlyb glain (gwili glan). 21 *F* ai tri. 22 *ACE* Yr un, *F* [A'r] vn. 24 *D* davar ai llwnk dwr yw lle; *F* dwr oth le. 25 *E* Gwedir e (a); *F* gwedi *M*: i gedir *E*, *D* gwedi r an i gedir *A*; *B* y gedir e, *C* y gedir. 26 *A* gwr y gad. 30 *C* i gwr (eirio *uwch* r); *ABDF* gwr i. 33 *A* gelliav'r afon kevon, *C* gelliau (k *uwch* g), *D* y celliav, *E* i'r cellau, *F* y kelliaw. 36 *E* Heddychu (chwenychu). 37 *F* ymonwes; *B* llynges fan. 38 *A* ar li. 39 *AC* dy arwydd (f *uwch* d yn *C*); *F* fwriad ym fu arwydd; *D* ym fy. 40 *B* domas holh hyd; *C* Domas ho k ys (ct *uwch* k), *E* Thomas oll hyd (abl *uwch* oll), *F* Thomas oll hyd, *D* Tomas oll hyd. 41 *D* welwn fathrafal. 42 *AC* heron (u *uwch* ro yn *C*). 43 *AC* ygori gown; *D* yr graig. 44 *A* ar aradyr; *B* i hegorir. 45 *B* devben. 46 *B* marchoc ac ych marchoc. 47 *D* kyn i orwydd, *F* kyn i arwydd. 48 *C* sirian; *E* Uniawn (sur iawn); *F* sirion ar flas er; *A* flas ir yn. 49 *B* waed dd fwia y; *D* dafydd i. 50 *E* haf (had); *F* haf Wyddel, *D* haf gwyddyl. 51 *C* y erchwynog, *E* archwinog. 52 *A* ycha gwr; *C* gwr lawn vwch ei glog (ae *uwch* r ac y *uwch* ei). 53 *AC* dan i wedd. 54 *A* wyran dv ni, *C* wrang dv ni (yn *uwch* yr v), *D* a'i wrang du'n, *E* \Dan y wrang\ du ni, *F* ai wrang du ni. 55 *F* Ei; *AC* ef a ddichon; *A* dda iachav. 56 *D* help i rai. 57 *E* Gwedd fawr; *AC* gwydd ar (fa'r *uwch* ar yn *C*), *E* a gwyddfa'r. 58 *A* grwm Madag; *E* grwyn Madog. 59–64 [*AC*]. 59 *F* ac ar da i. 60 *DF* eidionnav ffram; *E* (a'i ffràn dan weffris). 62 *DF* elain ai wisg; *F* hin ni warth, *D* lin ne warth. 64 *D* da fi ni, *E* Daf wr ni (Dafi). 65 *DEF* le da i ddyn. 66 *A* [ ]las a dal, *C* plas a dal; *AE* Powls. 67 *C*

ner o'r fan. 68 *A* [ ]a rhydd, *C* yma rrydd, *E* Yma Rhys, *F* Yma ry, *D* yma ra. 69 *E* coedydd \o can\. 73 *E* Iarch; *C* i'r llymed vav (i *uwch yr ail v*), *E* er llymed fai (tai). 74 *E* hoel (holl); *DF* William oll ai; *C* pylav (a *uwch y ac* i *uwch v*). 75 *AC* ef a roddes, *F* er roddes; *E* ar y weddi. 77 *DEF* ych nef; *E* uwch af. 79 *ACE* iach i olud. 81 *F* yn i kynol; *D* fo yn ei cenol. 82 *D* assen hwnt; *F* a sy yn i hol; *AC* yni hol. 83 *A* yr addwyned; *C* yr addfwyned (e *uwch y yn yr*). 84 *D* o daw'r wedd. 85 *A* o gwely evgion; *DF* i gweli eigion. 86 *C* a gan y gwyl hon (y gwyl *wedi ei ddileu a hwyl hon mewn glos*). 89 *AC* i nodav (yn *uwch* i *yn C*). 90 *C* gwyn hen i hav (? ini a gann iawn *uwchben* gwyn hen i).

*Cywydd brud*

- Deallwn nad â swyddogaethau ieirll  
 Ar eu gwell, y mae'n well hau.  
 Boed i'r glaw dewi tra byddwyf i'n tewi,  
 4 Boed i'r gwynt dewi, yr wyf yn dawedog!  
 Hyglyw yw fy nghwynfan am lwynog  
 A'i gariad hardd o Gaerdydd:  
 [Yr] un sy'n dwyn yn ei fantell  
 8 Y cyrn a glwyfa groen ei frawd;  
 Ewin arth [sydd] yn ei droell law  
 A phen [y] baedd enwocaf yn y byd;  
 Nadroedd yn nherfyn y nant  
 12 Uwch ei ben sy'n chwibanu.  
 Fe wna morwyn, trysor tirion,  
 Wylo fis Mai oherwydd galar am wŷr ifanc:  
 [Y] ferch ifanc sy'n gwisgo [hugan] rawn wen  
 16 O goed ir, ac aderyn.  
 Y mae'n rhaid i'r drudwyod  
 Ddifetha'r yd yn Lloegr hardd i gyd:  
 Eu nod hwy rhag gwres y dydd  
 20 Yw dyffryn llaith glan Galabes.  
 Y dderwen a'r tri anifail ifanc  
 A'r un a gymer ran y ddau.  
 Y gaer fawr wag yn y bore,  
 24 Bydd daear yn dy lyncu, bydd dŵr [yno] yn dy le!  
 Wedi'r H y gadewir I,  
 [Fel] gŵr y god, ac R wedyn.  
 Mai a oddiwedda un o wedd ewyn  
 28 [Gyda] dinistr mawr hir—Mair, edrych [di] ar hyn!  
 Boed i E dirion fynd i orwedd  
 Ac R fain i lan ei fedd.  
 [Bydd] storm ar hil Locrinus,  
 32 Cawod a dry'r coed yn us.  
 Gadewch i ni gyrchu llwyni gweigion  
 Rhag y tes a'r gawod hon.  
 Cyflawnwn gyngor y fôr-forwyn:  
 36 Ymdawelu [a] chuddio ym mhob llwyn.  
 Lloer ar fron llynges fechan  
 Ddu ar lanw a ddaw i'r lan.  
 Amcan da yw fy narogan,  
 40 Tomas, sef hocys, mor bell ag y mae [fy] swyddogaeth.  
 Hau Mathrafal a welaf,

- Heuwn ar dir ehangach na'r Dyffryn Aur:  
 Aredig, gwn, y graig [sydd er hynny'n] ir—  
 44 Ag aradr yr erddir.  
 Y mae dau ben na fyddem yn eu cyfnewid,  
 [Sef] march a [phen] ych [y] marchog yr wyf yn ei adnabod.  
 Syr Morys grymus ei argoel,  
 48 [Fel] ceirios [o ran] ei flas er [pan oedd] yn flwydd.  
 O linach Dafydd y terddir  
 Ac o ddail Haf Gwyddel hir.  
 Ceisio gan hwnnw gymar:  
 52 Ych â manwellt llawn dros ei glogyn [o groen],  
 Eidion a'i war dan yr iau  
 Dan fonheddwr ifanc du yn ei orwedd.  
 Fe all, da yw ei achau,  
 56 Hywel ap Rhys [roi] cymorth dan yr iau.  
 [Un â] gweddi fawr gref [megis honno a gyflwynir yng]  
     nghladdfa'r Wir Groes,  
 Gŵr yn medi cwysi Madog,  
 Ac o'r gwartheg y gŵyr [ef] ddewis  
 60 Eidion sydd â'i wneuthuriad dan wead o ffris,  
 Ych heb ganiatáu i [glwyd] y buarth gael ei chau,  
 Elain â gwisg o lin neu frethyn garw.  
 Ond [imi] gyfarch Tomas rasol  
 64 Dafî, ni chaniatâ ef i'm hiau i fod ar ôl [y lleill]!  
 Adeiladodd ef (lle addas ar gyfer gŵr)  
 Blas sydd cystal ag [Eglwys Sant] Pawl ac [Eglwys Sant Padrig]  
     Dulyn,  
 Man wch na Fenis i arglwydd [megis] ych  
 68 A rydd y cyfaill gwerthfawr yma.  
 Bydd [holl] goedydd y Cân yn ysgafn  
 O ran llwyth iddo, neu Lefiathan.  
 Ni wn am gymorth addas i hau  
 72 Ond [drwy] alw ar fy ewythr innau.  
 Iarll mud a balch, mor llym fyddai,  
 Byddai cymorth Wiliam Hywel yn pylu [ei fin].  
 Rhoddodd ef gyda'i fendith  
 76 Ei aur a'i feirch er fy mwyn i.  
 Ych arglwydd, yr anifail rhagoraf,  
 Eidion a roddodd [y] dyn ydyw'r ail [rodd].  
 Gwelais ych, cyfoeth llesol,  
 80 Asyn cryf Iesu yn ei grud,  
 Asyn a fu yn y canol,  
 Asyn sy'n hwyr yn eu herlid.



- 84 Fy nghred, er addfwyned ydyw,  
[Yw] y daw'r wadd i'w symud o'i lle.  
[Ar ddydd] Gŵyl Lug, o'i gwely [ar y] môr,  
Gwennol hir a gân ei chnul.
- 88 Cyfyd oen o'n cadwyn  
Â thafod aur a ffurf ddynol.  
Wedi darfod yr arwyddion,  
[Daw] gwanwyn hir [a daw] un oedrannus [â gwallt] gwyn i'w  
hau!

*I ofyn march gan Rosier Fychan*

Am eryr braich môr a bryn,  
 Am gyw eurwalch, mab gorwyn,  
 Rhosier, aeth eich hyder chwi  
 4 O Landaf i Lwyn Dyfi,  
 Clôr Fychan, a ariannwyd,  
 Cleirwy, a llaw yn cloi'r ieirll wyd.  
 Dy dad, a thi'n dy gadair,  
 8 Ar wartha' Gwent aeth â'r gair.  
 Llaw Rosier a bryderynt,  
 Llew ac R goch yn Lloegr gynt.  
 Bw ydoedd, heb ei wadu,  
 12 Heb enwi'i fath, yn ben fu.  
 O biliwyd o'i fabolaeth,  
 Er naw dŵr i'r ward nid aeth.  
 Aros awr o ras Harri  
 16 I euro'i fab yr wyf i.  
 Caf i'm oes ddwyn cof am ŵr,  
 Cywain mawl cywion milwr.  
 Mawr yw'r braint am euro'r brig,  
 20 Mwy arwyddion Moreiddig.  
 Tarian a fyn, tir neu fâl,  
 Tair neidr, tēyrn o Idwal.  
 Pan ddêl y rhyfel ar hynt,  
 24 Yr haelaf biau'r helynt,  
 A draig wen heb garennnydd  
 A Manaw'n dân mewn un dydd.  
 Terfysgwr o'r dŵr y daw  
 28 Trwy'r North a'r traean wrthaw,  
 A phan ddêl ffin Wyddelig  
 A phen brân hoff yn y brig,  
 Rhosier, eich baner uwchben,  
 32 Â rhif aliwns rhyfelen'.  
 I'th iau flaen yr arf i'th law  
 Ar fin dur a fyn daraw  
 Y wadd a fagwyd ar win  
 36 A'i phryder ar gyffredin.  
 A dygyfor dros fôr fydd  
 Di-gêl o wlad i'i gilydd,

- 40 A'r llew melyn i'r bryn brad:  
 Y ddau Fyrddin a ddywad.  
 Rhosier, mae'r amser ar ôl  
 I ddwy riain ddiroiol;  
 44 Yn Syr Rhosier wrth Ferwig  
 Y tyf yr aur hyd dy frig.
- Minnau eich bardd main uwch bedd  
 Yn aros man i orwedd.  
 48 Morys Fychan, heb annerch,  
 I'm crwm wyf, ni'm câr merch,  
 Ac awdur hen gwedi'r rhwyf,  
 Er tri dadl, gŵr traed ydwyf,  
 52 Gŵr uwch eirw yn garcharor,  
 Weithian y Fâl aeth yn fôr.  
 Nid hawdd y gaeaf hyd hydd  
 Fyned dros yr afonydd:  
 56 Pob aber a'm pryderawdd,  
 Pob rhyd yn enbyd ar nawdd,  
 Pob gweirglodd yn anoddyn,  
 Pob twyn llif, pob pant yn llyn,  
 60 Pob cornant yn dwyn gantaw,  
 Pob rhych a'm gwlych wedi'r glaw.  
 Dy win, Rosier, a gerais,  
 Dwg oes hir er digio Sais.  
 64 Echwyno nid wy'n chwennych,  
 Fy meistr i a'm ystôr ych,  
 Gofyn rhodd rhag fy moddi,  
 Ar dy ford yr ydwyf i:  
 68 Maint hobi drwy'r weilgi draw,  
 O henaint i'm dihunaw.  
 Arglwyddes wen, merch pennaeth  
 (Ar erchwyn yw) i'ch rhan aeth.  
 Fy neges a fynegir,  
 72 Fawrgrair, at hon, Fargred hir.  
 Erchais i chwi yn ddiwyd  
 Iechyd ac oes, eich dau i gyd:  
 76 Uchel yw tes uwchlaw ton,  
 Uwch mau obaith o'ch meibion.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14887, 13<sup>r</sup> B—Llst 133, 377<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

2 *B* A mur walch y mab. 4 *B* Lan Dyfi. 5 *A* vychant [a] arianwyd. 6 *B* ar llaw y cloir. 8 *B* a aeth. 10 *A* llaw. 12 *A* enwi i fyth. 14 *B* i ward. 18 *B* cone milwr. 19 *A* curo brig. 20 *B* Moruddig. 23 *A* ddel er hespel ar. 28 *A* trwy North ar tarian. 30 *A* yn i brig. 31 *B* ych becher uwch. 32 *A* aliwns R. felen. 33 *B* Ithlau flaen yr arfo'th law. 35 *B* a fachwyd. 36 *A* a ffryder. 38 *B* o'r wlad i'w gilydd. 40 *A* feirddin a ddyfad, *B* Fryddin a'i dywad. 41 *B* Groeser (Rh-g). 42 *B* ddiereol. 44 *B* tyr. 45 *A* man ywch bedd, *B* main uwch ben. 49 *A* wedi'r hwyf, *B* wedyr wyf. 53 *B* hyd dydd. 62 *B* er dig i Sais. 63 *A* wyf yn chwenych; *B* Echwynaf nid wyf chwenych. 67 *B* hobi dewr. 70 *B* [yw]; *B* rhan a aeth. 72 *B* Eurgrair yw hon. 74 *B* dau 'nghyd. 76 *B* Uwch (Iwch) mae obaith.

*I ofyn march gan Rosier Fychan*

- Ar gyfrif arglwydd [yr] esgair [rhwng] môr a bryn,  
 Ar gyfrif disgynnydd [y] gwron urddasol, [y] mab disglair,  
 Rhosier, aeth [y sôn am] eich dewrder chwi  
 4 O Landaf i Goedwig Dyfi,  
 Anwyllyn [teulu] Fychan Cleirwy a ddyrchafwyd,  
 Ac awdurdod [cadarn] yn perffeithio'r ieirll wyt.  
 Dy dad, a thithau yn dy safle awdurdodol,  
 8 Uwchlaw [holl] Went a ddug y clod.  
 Llaw Rhosier a achosai bryder iddynt,  
 Llew ac R goch yn Lloegr gynt.  
 Dychryn oedd, heb [fod modd] ei wadu,  
 12 [A] heb [fod modd] enwi ei debyg, pennaeth fu.  
 Os ducpwyd cyhuddiadau cyfreithiol yn ei erbyn o'i febyd,  
 Er gwaethaf naw llifeiriant [o gyhuddiadau], nid aeth i'r carchar.  
 Disgwyl am adeg o raslonrwydd [gan] Harri [Frenin]  
 16 I ddyrchafu ei fab ag aur yr wyf i.  
 Caf yn fy oes ddwyn coffadwriaeth i wŵr,  
 [Sef] dwyn ynghyd fawl i ddisgynyddion milwr.  
 Mawr yw'r fraint oherwydd dyrchafu'r penteulu,  
 20 Mwy yw symbolau uchafiaeth [llwyth] Moreiddig.  
 Y mae'n mynnu tarian, tir neu dreth,  
 Tair neidr, [y] pennaeth [sy'n] disgyn] o Idwal.  
 Pan ddêl y rhyfel yn ei dro,  
 24 Yr un mwyaf bonheddig biau'r llwybr [rhwyddaf],  
 A [bydd y d]draig wen heb gynghreiriaid  
 A [bydd] Manaw ar dân o fewn yr un dydd.  
 Daw'r terfysgwr o'r dŵr  
 28 Trwy Ogledd [Lloegr] a thraean [y bobl] gydag ef,  
 A phan ddêl [y] taliad Gwyddelig  
 A phen [y] frân ganmoledig yn y brig,  
 [Sef] Rhosier, eich baner chwi['n cyhwfan] fry,  
 32 Â mintai estroniaid y brwydrent.  
 Yn dy iau flaen yr arf yn dy law  
 Fydd yn mynnu taro ar ymyl [llafn] dur  
 Y wadd a fagwyd ar win  
 36 A'i harswyd ar [y] bobl gyffredin.  
 A bydd ymfyddino dros fôr  
 Yn amlwg o'r naill wlad i'r llall,  
 A [daw]'r llew melyn i fryn y brad:  
 40 Dywedodd y ddau Fyrddin [hyn].

- Rhosier, hwyr yw'r amser  
 I ddwy ferch isel eu tras [ddyfod];  
 Yn Syr Rhosier gerllaw Berwig  
 44 Y tyf yr aur ar hyd dy frig.
- Yr wyf innau eich bardd tenau [yn aros] uwchben bedd  
 Yn disgwyl am fan i orwedd.  
 [Myfi yw] Morys Fychan, heb [neb yn] ymddiddan [â mi],  
 48 Yr wyf yn fy nghwman, nid oes merch yn fy ngharu,  
 A hen awdur ar ôl y cynnwrf,  
 Er gwaethaf tair brwydr, gŵr yn mynd ar droed ydwyf,  
 Gŵr uwchlaw[’r] ewyn yn garcharor,  
 52 Erbyn hyn aeth y Dyffryn Aur yn fôr.  
 Nid hawdd yn ystod gaeaf [sydd] yr un hyd ag oes hydd  
 Yw mynd ar draws yr afonydd:  
 Y mae pob aber wedi peri pryder imi,  
 56 Y mae pob rhyd yn beryglus i nofio drosti,  
 Y mae pob gweirglodd yn bwll,  
 Y mae pob twyn yn llifeiriant, y mae pob pant yn llyn,  
 Y mae pob cornant yn cludo [pethau ymaith] gyda hi,  
 60 Y mae pob rych [hyd yn oed] yn fy ngwlychu wedi’r glaw.  
 Dy win, Rhosier, a gerais,  
 Cymer oes hir er peri dicter i Sais.  
 Nid wyf yn dymuno benthg [gennyf],  
 64 Chwi yw fy meistr a’ m hystorfa,  
 Gofyn am rodd rhag imi foddi,  
 Wrth dy fwrdd yr wyf i:  
 [Rhodd] yr un faint â cheffyl bychan [i’ m cludo] drwy’r  
 llifeiriant draw,  
 68 I’ m cyffroi o [syrthni fy] henaint.  
 Y mae arglwyddes hardd, merch i bennaeth  
 (Ar [eich] erchwyn y mae) wedi dod i’ ch rhan.  
 Cyflwynir fy neges  
 72 I hon, [y] trysor mawr, Margred dal.  
 Erchais ichwi yn ddiffuant  
 Iechyd a [hir] oes, eich dau gyda’ ch gilydd:  
 Uchel yw[’r] tes uwchlaw[’r] don,  
 76 Uwch yw fy ngobaith innau yn eich meibion.

*Cywydd brud*

Dyn wyf yn myned yn wŷdd  
 Oll i'm hoedl yn llamhidydd.  
 O ddyn wen a wyddwn i,  
 4 Mawr oeddwn gyfar iddi;  
 Ofn a wyddiad fy nyddu,  
 Ofn Syr Rhys ar f'ynys fu.  
 Rhyfedd iawn, rhyw ufudd walch,  
 8 Gymryd ofn, Gymro difalch.  
 Mae arna'i bwnc ym mron bedd:  
 Ofn fy Nuw yn fy niwedd.  
 Mae gofal am a gefais,  
 12 Mae'n gul fwrdd mynyglau f'ais.  
 Mi a wn fodd am wen fu,  
 Mae un eiddig i'm nyddu.  
 Penyd oedd ef (pand oedd ddwl?)  
 16 I mi addef fy meddwl.  
 Margred, cymer bryd seren,  
 Mynaswn na'th welswn, wen!  
 Ef a wŷl hen ofal hir,  
 20 A fo ifanc a feiir;  
 Un ci ifanc yn cyfarth  
 A ffon rag a phen yr arth;  
 Ag un rheol gan riain  
 24 Y gwnair rhol i gwyno'r rhain.  
 Ni bu erioed yn y brwyn  
 Hybu anap heb wenwyn.  
 Cylchynu, cymynu, y caf  
 28 Yr un trwch, yr enw trechaf;  
 Lleuad ym mhlu'r dylluan,  
 Blaidd, o bai raid, blwydd, a brân.  
 Y wiber hir, o châi barhau,  
 32 A wnâi reswm o'r asau,  
 A llew gwyn iawn lliw ei gnu,  
 Hwn a ddichon heddychu.  
 Clymu, cyn cyrchu y'i caid,  
 36 Dan oror, adain euraid.  
 Rhyfel ar y bugelydd  
 Ennyd awr a wna un dydd.

- 40 Aros cwysel chwe gelyn,  
Gŵydd a chranc a ddechrau hyn.  
Gweled gwaith dirgeledig  
O eiriau brân aur ei brig.
- 44 Hir fwriad drwy fawrnad fydd  
A bair âb â byr rybudd.  
Anfon perl a wna merliwn  
I wennol hir yn ôl hwn.  
Gwaith anniben amdeni,
- 48 Y gath hen, llyna'i gwaith hi.  
Rhoi golau a wna'r lleuad  
I drwyn glyn dwyrain, a'i gwlad.  
Amod gwiber ac eryr,
- 52 Llawn gwaed, tylluan a'i gyr.  
Wrth ei gerdded a'i hedeg  
E fling tir fal angau teg.  
Ef a yrr drwy ei fwriad,
- 56 Glain trwy lwyn, galawnt o'r wlad.  
Mae bâr hir y mab ar hed  
Yn Llundain, yn Llwyn Daned.  
Angel wrth grwth a thelyn
- 60 A dry wyth llais i draeth llyn.  
Aros yr ych wers yr wyf  
Ac aredig yr ydwyf.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14887, 9<sup>v</sup> B<sup>1</sup>—BL Add 31057, 34<sup>v</sup> B<sup>2</sup>—BL Add 31057, 120<sup>v</sup>  
C—BL Add 31082, 177<sup>r</sup> D—Bodley Welsh e 6, 173 E—LIGC 668C, 45  
F—LIGC 3077B, 70 G—LIGC 6499B, 488 H—Llst 133, 375<sup>v</sup>

*Amrywiadau*

1 *AD* i wydd, *C* y dydd. 2 *ADF* ymhedol, *EG* am hoedl; *AD*—*G* [yn], *H* ym. 3 *B<sup>1</sup>B<sup>2</sup>CH* y ddyn; *F* [wen]; *E* weddwn. 5 *AD* o fvn (a *uwch* v yn *D*); *B<sup>2</sup>* ofyn na, *CH* Ofn na; *A* awyddiaid. 6 *C* fy Rhys, *F* Sr Rees; *AD* or fenys (a *uwch* o, y *uwch* e a v), *E* ai f'ynys. 7 *H* rhy. 8 *B<sup>1</sup>B<sup>2</sup>CH* kymrvd ofn kymro; *F* ofn ryw gymro. 9 *AB<sup>2</sup>C*—*G* arna[<sup>'</sup>i], *B<sup>1</sup>* arnaf; *DF* lwnck. 10 *D* ofn fyntw (u *uwch* t), *E* ofn y nwy. 12 *F* [gul]; *B<sup>2</sup>CH* fyrdd; *E* fwrdd mae'n gul f'ais, *G* fwrdd mae/n/gla fais. 13 *ADH* fod; *ACD* wen a fv. 14 *ADF* mae i wyn; *B* mae wyn eiddic. *B<sup>2</sup>* mi nyddv; *C* yn Nyddu. 15 *B<sup>1</sup>B<sup>2</sup>CH* pynydiodd ef; *A* pan oedd, *B<sup>2</sup>* pan ad oedd, *C* pan nad oedd. 17 *B<sup>2</sup>CH* megî; *EG* marged. 18 *B<sup>1</sup>B<sup>2</sup>CH* mynwn na welswn dy wen. 20 *D* a feir (ni); *F* ivanc ef i ir. 21 *B<sup>1</sup>B<sup>2</sup>CH* ki a fydd yn, *F* ki vfydd yn, *D* ifangk (ufud). 22 *B<sup>2</sup>C* [A]; *G* rhag (rhwng), *E* rhwng. 23 *AD* real (o *uwch* a yn *D*). 24 *C* y gwnai y rhol, *E* I gwnai'n help,



*F* igwneir rot, *G* gwnai/r/help;  $B^2$  yrrol;  $B^1$  yr rol gwyno yrrain; *ACD* i gwyno rhain,  $B^2$  i gwyno yrrain. 26  $B^2C$  ni bv anap, *F* boy bv anap. 27  $B^1$  kylymv,  $B^2$  kylmv, *C* Clymru, *E* Curhyw (*a'r C yn ansicr*), *H* Cylchymu;  $B^1B^2CH$  Cymru i kaf, *EFG* kynnu i caf (*gellid darllen kymru yn F*), *G* (amgylch ../a chyne../fal ta...). 28  $B^1$  trwch ir,  $B^2CH$  twrch ir, *D* trwch yr (i *uwch* yr). 29  $B^2C$  ym hylvr. 30 *E* o ba raid; *F* llwyd a bran. 31  $B^2C$  a gwiber; *F* [hir]; *AD* o bai (c *uwch* b yn *D*),  $B^1$  a gad,  $B^2C$  a gae, *E* o rhai, *H* gae;  $AB^1DH$  byrhav (a *uwch* y yn *D*),  $B^2$  byrav. 32  $AB^1H$  wna resswm, *F* wnai r resswm; *G* reswnn; *E* o rasau. 33 *AD* [A]; *H* jawn liw; *E* iawnlliw gnu;  $B^2C$  lliw i gynv. 35 *E* [y]. 36 *A* dan y mor ar; *D* dan y mor ar adain (oror *uwch* y mor ar). 37  $B^2$  ar ryfer, *C* A rhyfel;  $B^2C$  bigeilydd. 38 *H* Onid awr, *F* ennyd awys; *A* wna'n vn, *D* wna yn vn. 39 *C* Dros cwnsel; *E* Cwnsel rhwd. 42 *C* mawr ei; *H* [ei] (gan ar y *uwchlaw* aur); *F* aûr ibig. 43 *H* Hir fowriad;  $B^2CH$  drwy farwnad fydd; *G* fyd. 44 *H* A bai'r ab; *F* byrr ry budd. 45 *H* wna'r merliwn;  $B^2C$  ymerliwn. 46  $B^2CH$  y wenol;  $B^1B^2C$  i nol hwn. 47 *AD* a gwaith;  $B^1B^2CH$  Aros diben; *AD* amgen (nnib *uwch* mg yn *D*);  $AB^2CD$  am dani. 48 *ADEG* llyma i. 49 *H* A rhoi;  $B^2C$  wna y llevad, *F* wnai r llevad. 50 *ACDH* dwyrain gwlad,  $B^1$  dwyrain A gwlad, *F* dwy ran oi gwlad. 51 *A* am gwiber. 52 *AD* ai gwyr; *E* au gyr, *F* a gyrr. 53 *EG* gwaith i gerdded;  $B^1$  ar i gerdded ai hedec,  $B^2C$  ai gerdded ai i hedec, *H* A'i gerdded ac ehedeg. 54  $B^1B^2CEGH$  a fling;  $B^2C$  y tir. 55 *DEFG* ef a yrir;  $B^1B^2CH$  ef a oirir o fwriad. 56  $B^1B^2CGH$  kelain, *D* gelain;  $B^1$  kalawnt ir wlad,  $B^2$  kalawnt gwlad, *C* Calawnt y wlad; *AD* ir wlad (o *uwch* i yn *D*), *F* o'r gwlad. 57 *A* barr ir mab; *DEG* hir ir mab. 60  $AB^2C$  lais i draeth lyn. 61  $B^1$  Aros ir ych; *F* wres.

### *Trefn llinellau*

*ADEFG* 1–42, 45–6, 43–4, 47–62;  $B^1$  1–32, 37–8, 33–4, 39–42, 35–6, 43–62.

*Cywydd brud*

- Yr wyf yn ddyn sy'n mynd yn wyllt  
 Yn gyfan gwbl yn f'oes yn llamhidydd.  
 Yr un ferch hardd yr oeddwn i'n ei hadnabod,  
 4 Cymar agos oeddwn iddi;  
 Medrai ofn fy nirdynnu,  
 Ofn rhag Syr Rhys ar fy nheyrnas a fu.  
 [Peth] rhyfedd iawn, [un o] natur gwron ufudd,  
 8 Fod Cymro gwylaidd yn cymryd ofn.  
 Yr wyf yn canu cân ar lan bedd:  
 [Y mae arnaf] ofn fy Nuw ar ddiwedd f'oes.  
 Yr wyf yn pryderu am yr hyn a ddaeth i'm rhan,  
 12 Y mae gwrymiau f'ochr yn gest gul.  
 Y mae arnaf bwl o deimlad am ferch lân a fu,  
 Y mae un eiddig yn fy nghorddeddu.  
 Penyd ydoedd (onid oedd yn ddwl?)  
 16 I mi gyfaddef [yr hyn a oedd yn] fy meddwl.  
 Margred, cymer ffurf seren,  
 Mynaswn na'th welswn, yr un hardd!  
 Fe wêl [yr un] hen ofid mawr,  
 20 Y mae'r sawl sy'n ifanc yn cael ei feio;  
 [Bydd] un ci ifanc yn cyfarth  
 A [bydd] ffon arw a phen yr arth;  
 Gydag un ddeddf gan [y] ferch  
 24 Y llunnir dogfen i gwynfan am y rhain.  
 Ni bu erioed yn y brwyn  
 Annog anap heb eiddigedd.  
 Cylchynu, taro, fe gaf  
 28 Yr un trist [gyda]'r enw mwyaf gorchfygol;  
 [Bydd] lleuad ym mhlu'r dylluan  
 [A] blaidd blwydd oed, pe byddai angen, a brân.  
 Y wiber fawr, os câi hi aros,  
 32 A wnâi synnwyr o'r asau,  
 A llew gwyn iawn [o ran] lliw ei flew,  
 Fe all hwn beri heddwch.  
 Caethiwo, cyn ymosod y'i cafwyd,  
 36 Dan ffin, euraid [ei] adain.  
 Rhyfel yn erbyn y bugeiliaid  
 Am ennyd awr a wna ryw ddiwrnod.  
 Disgwyl cyngor chwe gelyn,  
 40 Bydd gŵydd a chranc yn dechrau hyn.  
 Gweld brwydr ddirgel

- Oherwydd geiriau brân gyda chrest aur.  
 Yr hyn a fu yn yr arfaeth ers amser maith gyda nadu mawr  
 44 A ddwg yr epa i ben gydag ychydig rybudd.  
 Bydd y merliwn yn anfon perl  
 At wennol hir wedi hyn.  
 Gorchwyl didrefn o'i herwydd,  
 48 Y gath hen, dyna yw ei swyddogaeth hi.  
 Bydd y lleuad yn darparu goleuni  
 I fin dyffryn yn y dwyrain, a'i thiriogaeth.  
 Cyfarfyddiad gwiber ac eryr,  
 52 [Un] gwaedlyd iawn, bydd tylluan yn ei achosi.  
 Fel canlyniad i'w deithio [ar dir] a'i ehedeg  
 Fe fydd yn ysbeilio tir fel angau hardd.  
 Fe fydd yn gyrru yn ôl ei fwriad,  
 56 [Yr un] mawrfrydig o'r wlad, glain trwy lwyn.  
 Y mae dicter mawr y mab sydd yn ehedeg  
 Yn Llundain, yn llwyn Thanet.  
 Angel gyda chrwth a thelyn  
 60 Sy'n cyfeirio wyth llais at lan llyn.  
 Yr wyf yn disgwyl yr ych am gyfnod  
 Ac yr wyf yn aredig.

*Cywydd brud*

Nid êl ei gorff ar elawr  
 A gano mwy i gnyw mawr.  
 Mi a brydaf o'm brodir  
 4 I Wil fal dug Elfael dir.  
 Gwayw, bywiog yw, a bwa,  
 Â phen dur, o gyffion da.  
 Yn ei chwarae ni chweiriwyd  
 8 Mwy na chlêr rhwng min a chlwyd;  
 Ni cheisiodd ond ei chyswyn,  
 Na merch deg na march i'w dwyn;  
 Ni roes wad yn anwadal,  
 12 Ni wnaeth ef na iawn na thâl.  
 Ni a luniem lawenydd  
 O chaem des a chw m y dydd  
 (Neuadd Adda oedd ddiddos!)  
 16 A gwisg niwl i gysgu nos.  
 Allan fyth ni allwn fod,  
 I dŷ, ofer yw'n dyfod.  
 Ni wyddwn, hynny a wyddiant,  
 20 Na dirwyn twysg neu drin tant.  
 Dyn neu angel ni'm gwelas  
 Heb arwydd glaw y Bardd Glas.  
 Gwae a ddewis gweddïaw  
 24 A fwrw y wlad fawr o'i law,  
 Gŵr ni wisg na'i groen na'i wêr  
 Ond ei hen wŵn dau hanner  
 Hyd y du dân rhag annwyd  
 28 Ac eira a glaw o'r Graig Lwyd.  
 Mae ym dŷ fry fal y frân  
 Asgellog a gwsg allan;  
 Nid dibryder i herwr,  
 32 Nid da bod un tŷ heb wŵr.  
 Hŷn wyf i nag Eliās  
 O gof glaw y gaeaf glas.  
 Mab diddawn y'm bedyddir,  
 36 Forfryn hen a'i farf yn hir;  
 Gwae a welas gwialen,  
 Byd nos gŵyl, bedw yn oes gwen.

- 40 Aros, er nas dangoswyf,  
 Gwers yr âb a'i gwrs yr wyf.  
 Gaea' gwynnog a gwanwyn,  
 Haf da brwd hefyd a brwyn.  
 Y forwyn deg o farn dyn  
 44 A ry Galais i'r gelyn;  
 Y bwch danas neu'r asen  
 Â rhag pryf i frig y pren  
 Ac yn ddeuddarn gan ddiddawr  
 48 Wedi'r loes y daw ar lawr.  
 Ewin llew a wna llias,  
 A neidr a'i chylch yn dorch las,  
 Am ddinas ymddywynnig  
 52 O wybren ddu obry'n ddig  
 Ac yn uchel yr helynt  
 Ucha' ei gwaith uwch y gwynt.  
 Mae tri ban natur y bi  
 56 Yn syrthio yn nesa' wrthi  
 A'i phlaid a ffy i Lydaw  
 O Loegr drom i ôl gwŷr draw;  
 Eu hwyliau hwy a welir  
 60 Drwy dân a haul Dardan hir.  
 Morwyn a lef am arall  
 O'r Llwyn Llwyd a'r llaw'n y llall,  
 A chreu tân o'i chariad hi  
 64 A wna'r mwnd i Normandi.  
 Mae un a'r ing am nai'r ych,  
 Mae neidr drwy'r maen yn edrych;  
 Arwydd yw a roddai wan  
 68 A ryw le eira Wyl Ieuan,  
 Argoel yw ar a glywais,  
 Glaw nos Iau gelyn y Sais.  
 Rhoi pig drwy'r menig â min  
 72 A wnâ brân yn y brenin;  
 Am war ffwyn y mae'r ffunen  
 A'i law'n cloi hug Lincol hen.  
 D ac U am neidr deg wen  
 76 Y sy euraid, a seren.  
 Daniel wyf dan we o lin  
 A fu arddwr i Fyrddin.  
 A genais ac a gwynwn  
 80 A ddaw'n wir i ddyn a wn.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14887, 10<sup>v</sup> B—BL Add 31057, 117<sup>r</sup> C—BL Add 31082, 174<sup>r</sup>  
 D—Bodley Welsh e 6, 176 E—LIGC 668C, 49 F—LIGC 3077B, 44 G—  
 LIGC 4710B, 427 H—LIGC 6499B, 472 I—LIGC 13069B, 34<sup>v</sup> J—LIGC  
 13167B, 265 K—Llŷt 30, 1 L—Llŷt 41, 124 M—Llŷt 133, 377<sup>r</sup> N—Pen  
 78, 81 O<sup>1</sup>—Stowe 959, 38<sup>v</sup> O<sup>2</sup>—Stowe 959, 42<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

1 *EH* Nad el i, *M* Ni ddêl ei, *NO*<sup>2</sup> Ni del i gorf; *GJ* y corph. 2 *GJ* o Gnwy  
 Mawr, *N* i gnv. 3 *BC* un a; *G* Bradaf, *J* Brudaf, *N* brida; *ABCFGJ* am, *D* om  
 (y *uwch* o), *HIKMO*<sup>2</sup> ym; *FJ* brodyr. 4 *EH* a wel, *G* A wyl, *I* i wr; *EFK* fel, *L*  
 wel; *E* drwg, *FL* deg, *GJ* Dîg; *AN* Elfair, *CEGHJKLO*<sup>2</sup> Elvel, *D* elfair  
 (Elfael); *G* Dîr. 5 *O*<sup>2</sup> gwr; *ABM* bowiog, *FLO*<sup>2</sup> bwyog, *I* byw; *ABCM* [yw];  
*GJ* [a]; *N* o bva, *O*<sup>2</sup> ar bwa. 6 *L* affen dyro; *GJ* Gofion. 7 *C* I ni, *EFGHJKM*  
 Yn y, *I* yny, *N* Jn i; *L* [ei]; *J* charey; *D* ni chweiriwyd (ur *uwch* weiri),  
*EHIO*<sup>2</sup> nichyrwyd, *GJ* Ni cherwyd. 8 *GJ* Mwyn; *D* chler (y *uwch* e), *EHIO*<sup>2</sup>  
 chlyr; *L* rhyng min; *EHIO*<sup>2</sup> maen; *G* Bwnc Mewn clwyd, *J* Rwing Myn a  
 clwyd; *BO*<sup>2</sup> achlwyd. 9 *AD* ynd (o *uwch* y yn *D*); *F* i chywyn. 10 *O*<sup>2</sup> y dwyn.  
 11 *F* roes wyd, *L* roes gwad; *M* un anwadal. 12 *G* Ni wnâf, *J* Ni A wnaif; *GJ*  
 [ef]; *FGJ* na gwad. 13 *B* a leniwn, *C* a luniwn, *F* all einion, *GJL* a lynien; *I*  
 ynglanne jng lawenydd; *BC* ar lywenydd, *F* yn llawenydd; *J* llawenydd. 14  
*BM* o chem, *C* Ochein, *F* o chen ni, *G* o chayn, *I* na cham, *N* o chawn; *BCF*  
 a chwyn, *I* na chwim, *K* a chwam, *MO*<sup>2</sup> achwn; *HO*<sup>2</sup> a dydd, *I* na dydd. 15 *I*  
 ynte ny ddaw yn ddiddos; *F* negadd; *ADO*<sup>2</sup> addaf, *C* a ddafoedd, *EH*  
 addwyn, *F* dda, *G* Addas, *L* addas, *M* addef (Addaf, *gyda* 'r a *uwchlaw* ef);  
*EHO*<sup>2</sup> ynn ddiddos. 16 *A* gwsg, *N* gwisce; *L* gwisk erwywl y; *ABFGJL*  
 gysgu'r nos. 17 *G* A llann; *ADN* fydd (t *uwch* dd yn *D*); *GJ* Nid. 18 *K* day, *N*  
 ddy; *A* rwyn, *D* rwy yn (y *uwch* rwy); *BCFGIJLMO*<sup>1</sup>*O*<sup>2</sup> [n]; *J* Dwfod. 19  
*D* wyddwn (iem *uwchben* wn), *EHO*<sup>2</sup> wyddem, *GJ* a wyddon, *N* weiddvn;  
*EHIO*<sup>2</sup> hynn a, *F* hyn o; *L* [a]; *B* wyddynt, *EGHIJL* wyddant. 20 *N* dywyn;  
*ABCM* twys, *EH* twyll, *F* trwyst; *E* neu da in, *FGJ* na thrin, *I* na trin, *K* i  
 drin, *O*<sup>2</sup> na drin. 21 *ILO*<sup>1</sup>*O*<sup>2</sup> dyn nag; *GJ* Ni am Gwelais; *M* gweles (a  
*uwchben* e). 22 *L* glan; *N* i bardd, *O*<sup>1</sup> n bardd; *FLM* baedd glas. 23 *I*  
 addewis; *E* gweddiau. 24 *E* fwrw wlad, *H* fyro i wlad, *I* vyrio wlad, *O*<sup>2</sup> vyro  
 ywlad. 25 *GJ* Gwr Nâ; *ABDN* Ai groin ai wer, *C* ei groen ai wer, *FL* nay  
 gwen nay wêr, *GJK* ai gwen ai wêr. 26 *AD* ond hen wn, *B* ont ni a henwn, *C*  
 Ont ni henwn; *F* ond ai henw yn ddaû, *K* ond i henw/n/ddav, *L* ond ay henw  
 yn do, *N* ond i henw yn ddai; *G* Hên onn Day, *J* Hên own Day. 27 *A* hyd dy  
 dan, *BC* hyd dy dy ath dan, *D* Hyd dy dan (ei'r y *uwch* Hyd dy), *E* Yn y  
 dydan, *F* hyd y don, *G* Hud Dy Dân, *H* yn ydydan, *I* ef a hedvan; *J* Hyd Dy  
 Dan, *L* hyd y dan, *N* hid i didan; *GJ* Rhêd Rhag; *L* mawr annwyd. 28 *EH*  
 rhag eira, *I* rhag eiry; *GJ* Ag oeri Glaw; *C* ar y graig, *D* or graig (a *uwch* o),  
*EH* ar graig, *GJ* A Gwraig, *I* ir graig. 29 *F* nag yn, *I* mae yn, *N* Mai jm; *O*<sup>1</sup>  
 [dÿ]; *F* dy frâd, *I* dy vryd, *N* dvy fry; *A* fal fran, *F* fel jrfran, *GJN* val ir fran,

*K* fel ir fran. 30 *A* ysgeflog; *O*<sup>1</sup> yscyllog n gwsg, *O*<sup>2</sup> yssgylllog y gwsc. 31 *EH* di brvddder; *F* nid debre dyry herwr; *G* Ei Herwr, *IL* rag herwr. 32 *AD* byth y ty, *BCKM* bod y tŷ, *F* bod [un] tŷ, *G* Bôd Ei dû, *J* Bod I Du, *N* bod i tv, *O*<sup>1</sup> bod n ty. 33 *M* Hyn wddi finog; *G* wy Fe; *N* hEliás. 34 *C* Heb arwydd glaw, *I* o ogof glaw; *AD* y glaw; *M* glaw a; *N* glaw i gaia. 35 *A-DM* diddawr (yn *uwch* wr yn *D*), *EH* diddan, *F* diddaw; *A* im bedyddir, *C* ni'm bedyddir, *I* a ymbyddir, *O*<sup>1</sup> y bedyddir. 36 *A* morfryn, *D* Morfryn (morwyn), *EH* Ferfain, *FKL* forwyn, *GJ* A Fo Ar Frunn; *I* ai vin hên; *FL* ay farw yn hir, *G* Ar Farfan Hir, *J* Ai Farf an Hir. 37 *I* a gwae welas, *O*<sup>1</sup> gway n welás, *ADKN* welais, *G* welai; *BC* weles os gwialen. 38 *GJ* [Byd]; *AD* byd oes gwyl, *EHIO*<sup>1</sup>*O*<sup>2</sup> byd nas gwyl, *F* bûd nas gwel, *K* byd yn oes gwr, *L* bid nas gwel; *FL* byw yn, *GJ* A Bedw yn; *N* oies. 39 *E* Arosar nas; *N* dangosviy. 40 *D* gwers yr (au *uwch* gwers), *EHIO*<sup>1</sup>*O*<sup>2</sup> gwerssayz, *FGJM* Gwres yr; *N* gwers rab; *E-K* ap; *GJ* Ar Gŵrs, *K* vn gwrs, *N* ai gvyr; *N* i roy. 41 *F* gwnelo, *GJ* Gwinog, *L* gwnoes. 43 *N* i forwyn, *O*<sup>1</sup> n vorwyn; *GIJ* A Farn. 44 *ABCKM* a rydd, *F* ar yr, *I* a rhy, *N* a ryr, *O*<sup>1</sup> n ry; *BC* y gales, *O*<sup>1</sup> galis; *D* ir gelyn (e *uwchben* yr i), *I* er gelyn. 45 *FL* a bwch, *IY* bŵg, *N* i bwch, *O*<sup>1</sup> n bwch; *EH* daenas, *K* dynas; *A-DKMO*<sup>1</sup>*O*<sup>2</sup> ar assenn. 46 *DEH* ef a rrag, *F* ai ragod, *I* o a rag, *L* a ragod, *O*<sup>2</sup> hwy ni rhag; *BCM* y pryf; *O*<sup>1</sup> y brig n prenn; *EFHILO*<sup>2</sup> [y]. 47 *F* ag a'n dda ai ddiddawr, *I* ag yn ddwy ddarn gadarn nyddawr, *L(fersiwn 1)* ag a ay yn ddau ddarn (no more); *L(fersiwn 2)* ag yn dda a gay yn ddiddawr; *EH* [Ac] Yn ddwyddarn, *G* Ag yn Ddauddarn, *K* ddau ddarn gan ddidawr, *N* ddaidarn gan ddidawr, *O*<sup>1</sup> ddwy ddarn ny ddaddawr, *O*<sup>2</sup> ddwy ddarn ni ddiddawr; *EH* byth ni ddiddawr, *D* gan ddiddawr (*ni uwch gan*), *M* gau ddiddawr. 48 *D* wedi'r loes (lef); *F* wedi r oes, *L* wedy loes; *EHIO*<sup>1</sup>*O*<sup>2</sup> llef; *CGJL* y lawr, *D* ar lawr (i *uwch* a *ac* ë *uwch* l), *EHI* i'r llawr, *FO*<sup>1</sup>*O*<sup>2</sup> yr llawr. 49 *G* ei lêw, *J* y llew, *O*<sup>2</sup> llewn; *BC* llais, *FIO*<sup>2</sup> llyas, *GJ* lyas. 50 *F* [A]; *I* y naidr; *ADEHIKNO*<sup>1</sup>*O*<sup>2</sup> ay chlych (chylch yn *D*), *F* a chylch, *G* Ai church (chullch); *C* yn dorchlas, *E* yn drwch las. 51 *L* am y ddinas; *F* ddinas a ddiwnig; *AD* am ddiwnig (yn yn *D*), *B* ein ddewinic, *C* em ddewinig, *GJ* yn Ddiwynig, *IO*<sup>2</sup> mayn ddiwnig, *L* yn ddi wnnig, *M* em ddiwnig, *N* jm ddiwoynic. 52 *D* o wybren (mae *uwch* o), *EO*<sup>2</sup> may wybren, *GJ* Ag wybren, *I* mae wybr; *H* mae wybren llv; *FN* o bry yn. 53 *F* [yn]; *E* ei helynt, *FHI* i helynt, *LO*<sup>1</sup> y helynt. 54 *A* iachav i, *BC* iacha i, *D* iachau i (uâu a *uwch* iachau), *EHI* vcho ai, *FL* y iachay y, *GJ* A chay, *K* i iachaü, *M* iachau y, *N* A chai, *O*<sup>1</sup> yn ucha; *G* yn vwch Na'r; *J* vchach Nar Gwynt; *ADFILO*<sup>1</sup> ywch, *N* vch; *F* [y]; *O*<sup>1</sup> n gwynt. 55 *O*<sup>1</sup> n bi. 56 *O*<sup>1</sup> nes wrthi. 57 *A-FHJM* ['i], *G* Ai Plaid, *IO*<sup>1</sup> a fflaidiay, *O*<sup>2</sup> a fflaidiaid; *EH* ir ant i ffludiaw, *F* yw a ffeidiaw, *G* A Fû yn lludaw, *I* aür a phlydiaw, *J* y Fy yn lludaw, *L* yw y ffeidaw, *N* a fy i lydaw, *O*<sup>1</sup> yn ffo y lydaw, *O*<sup>2</sup> aynt y fflydiaw. 58 *GJ* A lloegr; *M* dron; *E* drwm i nol, *F* drom yn ôl, *GJ* Drwm' ol, *H* drom i nol, *I* drom ôl; *AD* nol y; *FL* gwr draw, *N* gwir draw. 59 *C* Ei hwyliaw, *FL* a hwyliaw, *M* I hwyliaw, *N* i wyliwy; *GJ* Nhwÿ. 60 *GJ* Ir

Dardan, *I* daran. 61 *O*<sup>1</sup> morwyn n lef; *I* a llêf am. 62 *C* llaw yw'r; *F* llaw yn llall; *K* [y]. 63 *B* achrev, *CO*<sup>2</sup> achray; *F* a chrio r tân, *L* a chrio fan, *N* *A* chrew tan; *GJ* *A* chrio Am Ei. 64 *E* a wna'r/mynd i, *F* yna y myn or, *GJ* *A* wneir Mund Ir, *H* a wna'r mynd i, *N* a wna yr wmid i; *O*<sup>1</sup> n nar; *BCIM* mwnt yn, *D* mwnd i (gyda *yn* uwch *i*), *K* mwnd or, *LO*<sup>1</sup>*O*<sup>2</sup> mwnd o. 65 *A* May [ ] i'r ing, *D* May ir ing (un ar *uwch* ir); *E* Mae un am ing; *O*<sup>1</sup> may vn yn ingnamayr ych; *BC* air ingk, *FIL* ar Jnk, *GJKMN* ai rynk; *E* em neu'r ych, *F* am nay r ych, *GJ* Am Nâ Vrr yr ¼ch, *I* am ner vch. 66 *A-JMO*<sup>1</sup> mayr; *N* mai yr; *I* drwy[’r] maen, *N* drwy yr main. 67 *D* Arwydd yw ar a (oed *uwchben* yw ar a), *EHIO*<sup>1</sup>(*fersiwn 1*), *O*<sup>1</sup>(*fersiwn 2*), *O*<sup>2</sup> arwydd oedd, *L* arwydd dig; *A* ar a rodde fan, *D* òoddai fan (gyda *i wann* uwch *fan*), *L* ar y dday dan; *F* y dâu dan; *GJ* Ar Ryddhau Dân; *I* i roddai; *O*<sup>1</sup>(*fersiwn 1*) ar rryddyan ann, *O*<sup>2</sup> a rhoddai ann; *BCKNO*<sup>1</sup>(*fersiwn 2*) an. 68 *A* [ ] rvw lef, *C* o ryw le, *D* ar rvw lef (*gydag* y *uwchben* v), *EG-LN* ar rwy le, *O*<sup>1</sup>(*fersiwn 1*) ar ail yw, *O*<sup>1</sup>(*fersiwn 2*) y ryw le; *D* eira wyl Jfan (yr a wiliam), *EH* er a wiliam, *G* yr Aa wyl Ieuan, *I* er arw [ ], *J* Er Aa wyl Ieuan, *O*<sup>1</sup>(*fersiwn 1 a 2*) *O*<sup>2</sup> ar wyl ieyann; *AF* ifan, *B* ievfan, *K* Joan, *N* Ivan. 69 *FGJ* argol iw, *L* argel yw; *N* ar n glywais. 70 *K* glaw nos Awst; *N* nos jast; *BCN* i sais; *O*<sup>1</sup> n sais. 71 *M* *I* roi pig (Rhoi); *GJ* Drwy[’r] Menig, *N* drwey yr menib; *BCFKLMN* ar min, *J* Ai Min. 72 *N* yn i brenin. 73 *BC* war yfyn, *EH* warr vn, *FIN* war foin, *GJ* wâr fwyn, *L* war ffwyan; *E* un mae'r; *GJ* May r Fwyeren, *L* maer ffynon, *N* i mai ir fynen; *BC* Fynen. 74 *GJ* llaw yn; *F* cloi [bwlch] lincol; *GK* hœd, *LJ* hyd; *I* hic nicol; *GJKLM* Lincoln. 75 *C* Dy ag U, *E* D ag A; *F* dyg am; *G* Dag u, *H* di ag a, *J* Dag y; *L* di g yw am; *M* Y ac U, *N* di ag y; *J* y Nidr Dag. 76 *ACM* S.y., *BD* S/y/s, *E* A Si, *G* Y sÛs, *H* a si, *I* a/s[ ] (?a'r *llythyren olaf yn anghyflawn*), *J* Y su, *N* i sy; *CE* am Seren, *GJ* y serenn. 77 *G* (vide An Dafudd); *O*<sup>2</sup> deiniol; *AD* wef; *GJ* wÿ Dan weddol o lîn; *O*<sup>1</sup> dan wialin. 78 *BC* fv ar ddwr, *EH* fv arddel, *F* fÛ addwr, *N* fy arddvr, *O*<sup>1</sup> n vy yrddol, *O*<sup>2</sup> vy arddwy; *G* ei Ferddin; *A-DHKN* ferddin. 79 *O*<sup>1</sup> n genais; *BC* a fynwn, *EFKMN* a ynwn, *GJ* a Ganwn, *H* a vnwn (damvnwn), *O*<sup>1</sup> n ynwnn, *O*<sup>2</sup> y ynwyf. 80 *O*<sup>2</sup> a ddaw n yn wir; *G* wîr Ei Ddûn, *N* waith i ddim; *CM* iddyn a wn; *O*<sup>1</sup> n wnn.

### Trefn llinellau

*A-CGJKN* 1–22, [23–4], 25–54, [55–6], 57–80; *D* (*diwygir trefn y llinellau drwy nodi rhifau'r cwpledi yn yr ymyl; nodir y rhain yn y cromfachau*) (1–11) 1–22, [23–4], (12–13) 25–8, [(14)], (15) 37–38, (16) 29–30, (17) 31–2, (18) 35–6, (19) 33–4, (20) 39–40, (21) 41–2, (22) 43–4, (23) 45–6, (24) 47–8, (25) 57–8, (26) 59–60, (27) 61–2, (28) 63–4, (29) 65–6, (30) 73–4, (31) 49–50, (32) 51–2, (33) 53–4, [(34)], (35) 67–8, (36) 69–70, (37) 71–2, (38) 75–6, (39) 77–8, (40) 79–80; *EHI* 1–22, [25–6], 27–8, 23–4, 37–8, 29–32, 35–6, 33–4, 39–48, 57–66, 73–4, 49–56, 67–70, [71–2], 75–80; *FL* [1–2], 3–22, [23–4], 25–54, [55–6], 57–80; *M* 1–22, [23–8], 29–47, [48], 49–54, [55–6], 57–66, [67–8], 69–80; *O*<sup>1</sup> [1–16], 23–4, [25–8], 37–8, 29–30, 17–18,



[19–20], 21–2, 31–2, 35–6, 33–4, 39–42, 45–8, 43–4, 57–66, 49–50, 53–6, 67 (*fersiwn 1*), 67 (*fersiwn 2*), 68 (*fersiwn 2*), 68 (*fersiwn 1*), 69–70, [71–76], 77–80;  $O^2$  1–24, [25–8], 37–8, 29–30, [31–2], 35–6, 33–4, 39–48, 57–64, 49–52, [53–4], 55–6, 67–70, [71–4], 75–80.

*Cywydd brud*

- Nad elo ei gorff ar elor  
 Y sawl sy'n barddoni mwyach i genau mawr.  
 Yr wyf yn prydyddu o'm cynefin  
 4 I Wil fel [un sy'n] ddug [ar] fro Elfael.  
 Gwaywffon, bywiog ydyw, a bwa,  
 Gyda blaen dur, o fonau canmoladwy.  
 Yn ei chwarae ni thiwniwyd  
 8 Mwy na chlerwyr rhwng ochr a chlwyd;  
 Ni cheisiodd ond ei chaniatâd,  
 Na merch brydweddol na march i'w chipio ymaith;  
 Ni roes wâd yn anghyson,  
 12 Ni wnaeth ef na iawndal na phridwerth.  
 Fe drefnem ni ddedwyddwch  
 Pe caem wres a [lloches] cwm yn ystod y dydd  
 (Nid oedd trigfan Adda yn gollwng dŵr!)  
 16 A gorchudd niwl i gysgu[r] nos.  
 Ni allwn fod allan o hyd,  
 I dŷ, ofer yw ein dyfodiad.  
 Nid oeddwn yn gyfarwydd, hynny o wybodaeth,  
 20 Â dirwyn gwlan neu drin tant.  
 Ni welodd dyn nac angel mohonof i  
 Heb arwydd glaw y Bardd Glas.  
 Gwae'r sawl sy'n dewis gweddïo  
 24 [Ac] sy'n bwrw'r wlad eang o'i reolaeth,  
 Gŵr nad ydyw'n gwisgo na'i groen na'i floneg  
 Ond ei hen ŵn dau hanner  
 [Yn dod] hyd y tân du rhag oerfel  
 28 Ac eira a glaw o'r Graig Lwyd.  
 Y mae imi dŷ fry fel y frân  
 Adeiniog sy'n cysgu allan;  
 Nid [yw hi'n] ddioid i herwr,  
 32 Nid yw'n weddus bod yr un tŷ heb ŵr [yn ddeiliad].  
 Yr wyf i'n hŷn nag Elías  
 Oherwydd cof [am] law y gaeaf gwyrdd.  
 Fe'm bedyddir [yn] fab di-les,  
 36 [Yn] Forfryn hen a'i farf yn hir;  
 Gwae'r sawl a welodd wialen fedw,  
 Byd gwylnos, yn ystod bywyd merch deg.  
 Disgwyl, er na ddangosaf hynny,  
 40 Tro'r âb a'i drefn yr wyf.  
 Gaeaf gwyntog a gwanwyn,

Haf da gwresog hefyd a thrist.  
 Bydd y forwyn brydferth oherwydd barn dyn  
 44 Yn rhoi Calais i'r gelyn;  
 Bydd yr iwrch neu'r asyn  
 Yn mynd rhag pryf i frig y goeden  
 Ac yn ddau ddarn gyda phryder  
 48 Wedi'r boen y daw ar lawr.  
 Gwna [un â] gafael llew laddfa,  
 A neidr a'i chylch yn dorch las,  
 O amgylch dinas yr ymddengys  
 52 O awyr ddu yn llidiog islaw  
 A bydd y stŵr yn groch  
 Yr uchaf ei brwydr uwchlaw [sŵn y] gwynt.  
 Y mae tair rhan natur y biden  
 56 Yn syrthio yn nesaf ati  
 A bydd ei llu yn ffoi i Lydaw  
 O Loegr druenus yn llwybr rhyfelwyr draw;  
 Fe welir eu hwyliau hwy  
 60 Drwy dân a haul Dardan tal.  
 Bydd morwyn o'r Llwyn Llwyd yn wylo am [un] arall  
 A'r llaw yn y llall,  
 A chreu tân oherwydd cariad tuag ati  
 64 A wna'r mynydd i Normandi.  
 Y mae un a'r loes am nai'r ych,  
 Y mae neidr yn edrych drwy'r maen;  
 Arwydd ydyw a roddai un gwan  
 68 Ac yn rhywle bydd eira ar Wyl Ieuan,  
 Argoel yw'r hyn a glywais,  
 Bydd glaw ar nos Iau [yn] elyn i Sais.  
 Rhoi pig drwy'r menig â min  
 72 A wnâ brân yn y brenin;  
 Y mae'r rhwymyn am garn arf  
 A'i law yn clymu clogyn Lincoln hen.  
 'D' a 'U' am neidr wen hardd  
 76 Sy'n euraid, a seren.  
 Daniel wyf dan wisg o lin  
 A fu'n llafurwr i Fyrddin.  
 Bydd yr hyn a genais a'r hyn y cwynwn yn ei gylch  
 80 Yn dod yn wir i ddyn yr wyf yn ei adnabod.

*Cywydd brud*

Y brud hen, wyt yn bratáu  
 Y byd, ni thâl d'wybodau!  
 Dywedwydol nid ydwyd,  
 4 Distaw yn addaw ynn wyd.  
 Disgrïwr llu, dysg rhag llaw,  
 Diau mynych dymunaw;  
 8 Trioedd mad nid coeladwy  
 Taliesin na Myrddin mwy.  
 Dyfal hedd o daw fal hyn,  
 Difoes mae'r beirdd yn d'ofyn.  
 Mae a ddwg cwyn maddau cad,  
 12 Mae dewin ym a'i dywad?  
 Llais main at riain o'r tŵr,  
 Lleian, medd y darllëwr.  
 Dafydd aeth o Lan Dyfi  
 16 Diwedd ei oes i'm dydd i,  
 Proffwyd pêr, hen aderyn,  
 Pregethawdd, ni bu hawdd hyn.  
 Minnau heddiw mewn heddwch,  
 20 'Manaw draw mae un yn drwch.  
 E aned un a wna dig  
 Enynnu'r wlad wenwynig  
 A llewyg ar fin Lloegr faith  
 24 A chrynu o'i chwr unwaith.  
 Gweithio y maent y gwythi,  
 Gwaith y carl, y gath a'r ci.  
 Er gweled rhif ein gwlad draw,  
 28 Argoelion i rai giliaw,  
 Llafurio llu i Ferwig,  
 Llundain a'r brain ar ei brig  
 A draig wen yn dirio gwÿr  
 32 A chi hirwyn uwch herwyr  
 A rhiain hir a rhannu hyn  
 A chyw eryr a chorryn,  
 A rhos ar ownau y rhain  
 36 A rhyfel ar wÿr Rhufain;  
 Dysgu hen cymen y'i caid,  
 Deall y dysg a'i dywaid.

- 40 Darlleais o dir y lleuad  
 Darian lew o'r dwyrain wlad.  
 Llynges eres a yrrir,  
 Llewes hwnt â llawes hir.
- 44 Baner las bun o ryw wlad,  
 Banw a rydd chwibaniad  
 A'r llew a'i hanner yn llwyd  
 A gwynir er a ganwyd.  
 Er dwedyd y bywyd bas
- 48 Aderyn derfyn dewrfras,  
 Edrych yr wyf, drych i rai,  
 I dir arall a'i dyrai.  
 Nodi'r awr ni edir ym,
- 52 Nid hir galw at wŷr Gwilym,  
 Lles fawr, wedi'r lliaws fu,  
 I'r llwynog iôr yn llyfnu.  
 Un llef a ddaw drwy'r trefydd,
- 56 Un llais gan Sais gwn y sydd.  
 Y rhyfel a ddyfelynt,  
 Yr haf a'r gaeaf yn gynt.  
 Gwŷr ymhell a gymhellir,
- 60 Gwyliaid hwnt a gyll y tir.  
 Daroganwyd drwy gyni  
 Draig a wna drwg i ni,  
 Gwadd a rydd dragywydd drin,
- 64 Gafr a llew o'r gorllewin,  
 Gwinwydd o had Gwynedd hen,  
 Gwennol a bair y gynnem.

### *Ffynonellau*

A—BL Add 14887, 48<sup>v</sup> B—BL Add 14892, 101<sup>r</sup> C—BL Add 14994, 45<sup>r</sup>  
 D—Bodley Welsh e 6, 89 E—LIGC 668C, 47 F—LIGC 3077B, 187 G—  
 LIGC 6209E, 352 H—LIGC 6499B, 490 I—Llst 41, 167 J<sup>1</sup>—Llst 133, 69<sup>r</sup>  
 J<sup>2</sup>—Llst 133, 376<sup>v</sup> K—Llst 136, 87 L—Llst 173, 16 M—Pen 94, 183

### *Amrywiadau*

1 *E* [Y]; *I* wyf. 2 *EH* [d']. 3 *J<sup>2</sup>M* dywedawl; *F* dywed p ffwyd yn y dwyd, *K* dowed Proffwyd yn ydwyd, *J<sup>2</sup>* i ni ydwyd, *M* yn a ydwyd. 4 *FK* distaw a ddaw; *K* athraw yn; *F* athraw wyd; *I* yr wyd. 5 *J<sup>2</sup>* Distryw'r, *K* dystreiw'r, *M* dystriwr; *I* llid; *J<sup>2</sup>M* dyst. 6 *I* diai menyth damynaw. 7 *EHM* Trioedh ny ad nyd, *FK* tri oedd nad nid, *J<sup>2</sup>* Trioedd yn adfyd. 8 *F* verddin. 9 *I* dyfaly heddoe; *F* fa. 10 *I* dy foes may byrdd, *M* dyval mae'r beirdd. 11 *DFG* Mi a; *EJ<sup>2</sup>* Mae addaw, *HKM* mae a ddaw, *I* may y ddwc; *J<sup>1</sup>* [cwyn]; *E* meddu, *HJ<sup>2</sup>*

maeddu. 12 *EHIJ<sup>2</sup>M* dewi, *J<sup>1</sup>* drwm; *J<sup>1</sup>* i ni ai, *J<sup>2</sup>* yma'i, *M* yn ai; *I* a dwad. 13 *AG* y rhain, *I* rian. 14 *I* llian; *I* darllenwr. 15 *DJ<sup>1</sup>* aeth i. 16 *J<sup>1</sup>* Diwedd o es; *AD* [ei]; *K* i oet. 17 *J<sup>1</sup>* *P* ydd per. 18 *EHIJ<sup>2</sup>KM* prophwydwdh; *J<sup>2</sup>* im'bu; *E* nid hawdd. 19 *ADFGJ<sup>1</sup>* y maen heddiw. 20 *ADFG* manv, *E* Man in, *H* mann ynn, *IJ<sup>2</sup>K* man, *J<sup>1</sup>* Mannau, *M* y man; *H* mae r/yn drwch. 21 *A* dymvniad vn, *DFJ<sup>1</sup>* damvned vn, *G* Dymuniad u; *I* y wna dic. 22 *EH* i nynn/r/wlad, *I* enynay r wlad, *K* i enynnv yr wlad, *M* i enynnv'r wlad. 23 *J<sup>2</sup>KM* [A]; *A* all ewig, *D* a llewir, *G* Aelee wig, *J<sup>2</sup>* Llwig, *K* Ewig. 24 *ADF* a chymrv, *D* a Chymrv, *G* A chymry, *I* a chyny, *J<sup>1</sup>* A chynnwr, *J<sup>2</sup>* A'i chrynu; *ADFGJ<sup>1</sup>* yw chwr, *E* yn i chwr, *I* oy chyrn; *G* yn waith. 25 *DF* gwythio; *EHKM* gweithio [y] maent, *I* gwitho maint; *J<sup>2</sup>* maent yngwythi; *IM* yn y gwythi, *EHK* yn i gwythi. 26 *ADF* karl gaith ar, *HJ<sup>2</sup>M* carl ar gath, *I* carl y gaeth ar. 27 *AG* yn gwaed, *DF* yn gwad; *I* rif y wlad, *K* rhif y gwlad. 28 *EFH* Argoelion rhai; *ADGJ<sup>1</sup>* rhai yn gwiliaw; *F* y'n gwiliaw, *H* ar giliaw. 29 *BC* llywyrion llv; *EHIJ<sup>2</sup>KLM* A llavûrio; *BC* llv o Warwig, *DJ<sup>1</sup>* llv o Verwig, *EH* llv farwig, *F* llû oferwig, *I* lly af ferwic, *K* llu i Farwic. 30 *J<sup>2</sup>L* A llvndain; *K* [r]; *C* ar eu brig, *I* ar y bric. 31 *EHJ<sup>1</sup>* i dreio gwyr, *IKM* y diriaw gwyr, *J<sup>2</sup>* o dirio gwyr, *L* o diria gwyr. 32 *J<sup>1</sup>* iwch; *F* yw herwyr. 33 *J<sup>1</sup>* [A]; *BCEH* a rhann hyn, *I* o ran hon. 34 *I* erir a choron; *E* a Chorwyn, *H* a chorwyn (korwynt). 35 *E* A rhes, *I* ar ros; *A* ar y nav, *BC* ar ynav, *EHIJ<sup>2</sup>K* ar gyfer, *F* a ownav, *G* ar y naw, *H* ar gyfeir; *F* yr hyn (*a* uwch y yn *hyn*). 36 *J<sup>1</sup>* rhyfel gan wyr; *C* arwyr. 37 *IJ<sup>2</sup>M* dyscv'n hen, *EH* disgyn hen, *F* dysgû hon, *K* dysgu yn hen; *EHK* kynnen, *J<sup>2</sup>* cymer; *AD-HK* i kaid, *J<sup>2</sup>M* y caid. 38 *DF* deall [y] dysc, *EH* deall i dysg, *K* deull yn dysg, *M* deûall ai dysc; *EH* a dywaid, *I* y dwaid. 39 *I* darllenais; *EHIJ<sup>2</sup>KM* o dair lleûad; *J<sup>1</sup>* [y]. 40 *AK* darian lew ar dwyrain (*glos* liw yn *A*); *DFJ<sup>1</sup>* darian glew or dwyrain; *I* drarian glew draian yn gwlad; *G* darian liw ar; *DJ<sup>1</sup>* gwlad, *F* glwad. 41 *J<sup>2</sup>* A llynges; *I* llynes eres y eyrir; *K* ac Eryr. 42 *EHM* ar llawes; *K* hydr. 43 *I* las ben; *EH* bv o. 44 *EH* Y banw; *I* banw y ry, *M* benyw a rydh. 45 *EHIJ<sup>2</sup>KM* y llew; *A* ar haner. 46 *L* or a ganwyd. 47 *EHM* [y]; *AG* y byd bas, *J<sup>2</sup>K* fowyd fav. 48 *E* derfyw, *I* dewryn, *J<sup>2</sup>K* dur frynn, *M* dŵrvryn; *ADEH* dewrfras, *F* dew vas, *I* dewrfras, *J<sup>1</sup>* dewrwas, *J<sup>2</sup>* dewrfrau, *K* dewrfraw, *M* dewr vrann. 49 *DF* wyf yr i; *I* wyf er drych y rai, *J<sup>1</sup>* i rwy a ryri; *J<sup>2</sup>* wyf drwch (drych); *K* drwg i rai. 50 *ADFGIJ<sup>1</sup>* yr dwr arall, *EH* ir dewr arall, *K* i dir eraill; *A* a diriai (yr *a* gyntaf wedi ei dileu o bosibl), *DJ<sup>1</sup>* ar deri, *F* a deri, *G* a dirriai, *I* y dyriai. 51 *AGJ<sup>1</sup>* er nodir, *DF* ir nodir; *E* Nod yr awr, *H* nod/r/awr, *I* nodi yr awr; *AG* avr; *A* nid ir yn, *D* ni edir yn, *E* ni adewir ym, *F* medir yn, *G* nid ir yn, *J<sup>1</sup>* neidir ynn. 52 *AFG* i ryd hir, *J<sup>1</sup>* Rhaid yw; *AG* a galw; *I* galw gwyr; *AJ<sup>1</sup>K* ar, *G* ac; *ADFGJ<sup>1</sup>* wyr kwlyn. 53 *ADF* ir lles fawr (*gyda* vawr *uwchben* yn *D*), *EHIJ<sup>2</sup>K* llys fawr, *GJ<sup>1</sup>* Er lles fawr; *EHIJ<sup>2</sup>KM* llais a vû (*ymdrech* i *ddileu'r s o bosibl* yn *H*), *J<sup>1</sup>* lliawl fu. 54 *G* Er llwynog, *I* y llywiwr, *M* yr llwynog; *AGJ<sup>1</sup>* ar ieirll hyny, *DF* ar ieirll weny, *EH* i orllennv, *J<sup>2</sup>* i orllawnu, *K* i orllyfnu, *M* ei orllawnv. 55 *EH* yn llef; *I* y ddaw, *M* y

daw; *I* trefy. 56 *EHM* yn llais; *EIJ<sup>2</sup>KM* gan y Sais, *J<sup>1</sup>* gan bob Sais; *DEFHJ<sup>1</sup>M* [gwn], *K* [gwn y]; *I* y sy, *J<sup>2</sup>* y fydd. 57 *K* Jr rhyfel; *I* ny chred roled yr helynt. 58 *I* lais yr angel heb gel gynt; *AG* yr haf yn y, *EHJ<sup>2</sup>KM* yr haf a, *J<sup>1</sup>* Yr haf y; *AGJ<sup>1</sup>* gayaf [yn] gynt, *HJ<sup>2</sup>KM* gyrchaf yn gynt. 59 *I* ny chred cywired y carrant; *C* Gwyr ymhele, *J<sup>1</sup>* Gwr ymhell. 60 *I* lais y brawd sais bryd sant; *F* gwiliaid, *J<sup>2</sup>* Gwillid (Gwylliaid); *EHK* hwynt; *BCKM* eù tir. 61 *I* er na chred drais drossi; *F* droganwyd, *K* daroganwy; *D* drwy ddrwg yni, *F* drwy ddig y ni, *J<sup>2</sup>* trwy gynu, *K* drwy oer gyni. 62 *I* lais heb y wae les y ni; *F* drag; *AGJ<sup>1</sup>* naeth y drwg, *DF* wnaeth drwg. 63 *I* pyrdan engil pardwn angall; *A-DFGJ<sup>1</sup>* draig a rydd, *H* gwaedd a rydd; *EH* draw gwÿdd ir drin, *J<sup>2</sup>* draw gwyddyd rîn, *K* draw gwydd y drin, *M* draw gwych y drin. 64 *I* pam na chred sais lais y llall; *EHJ<sup>2</sup>KM* gawr a llew; *EH* y gorllewin. 65 *J<sup>1</sup>* Gwynedd had y; *GJ<sup>2</sup>* a had; *A-DF* o had gwinwydd hen; *G* gwinwydd hên. 66 *DJ<sup>1</sup>* a rydd y, *J<sup>2</sup>* a orffen y; *K* a ar ffo ir gynen; *EHM* a orffo r gynnen.

### *Trefn llinellau*

*AJ<sup>1</sup>* [1–10], 11–16; *BC* [1–28], 29–30, [31–2], 33–6, [37–40], 41–2, [43–58], 59–60, [61–2], 63–6; *DG* [1–10] 11–26, 28, 27, 29–66; *F* 1–11 (*wedi eu hychwanegu mewn glos*), 12–26, 28, 27, 29–66; *I* 1–56, [57–66] *ac wyth ll. o* ‘Brawd llid urddas llwyd urddol’<sup>1</sup>; *L* [1–26], 27–34, [35–44], 45–6, [47–50], 51–2, [53–66].

<sup>1</sup> Gw. R. Wallis Evans, ‘Proffwydoliaeth y Fflwrddelis’, B xxi (1964–6), 331.

*Cywydd brud*

- Y [llyfr] brud hen, yr wyt ti'n twyllo  
 Y byd, ni thycia dy wybodau!  
 Nid wyt yn barablus,  
 4 Yr wyt ti'n [hynod o] ddistaw yn addunedu i ni.  
 Disgrifiwr llu, dysga gyda hyn,  
 Yn sicr mynych [y] deisyf;  
 Nid credadwy yw Trioedd ffodus  
 8 Taliesin na Myrddin bellach.  
 Os daw hedd hir oblegid hyn,  
 Bydd y beirdd yn dy groesholi yn sarrug.  
 Y mae yma rai sy'n cwyno [ar gyfrif] colli'r cyfle i ymladd,  
 12 Ym mha le y mae'r dewin a'i proffwydodd imi?  
 Y mae llais treiddgar at ferch o'r tŵr,  
 Lleian, medd y darllenwr.  
 Fe aeth Dafydd o Lan Dyfi  
 16 Ar ddiwedd ei oes yn ystod fy mywyd i,  
 Proffwyd melys, hen aderyn,  
 Traethodd, ni bu hyn yn hawdd.  
 Yr wyf innau heddiw mewn heddwch,  
 20 [Ym] Manaw draw y mae un yn anffodus.  
 Fe aned un a bair ddigofaint  
 [Sy'n] cyffroi'r wlad lidiog  
 A [pheri bod] gwasgfa ar ddyfod i Loegr gyfan  
 24 A [pheri] iddi grynu drwyddi yn syth.  
 Y maent yn llafurio yn y brwydrau,  
 Ymrafael y taeog, y gath a'r ci.  
 Er gweled nifer ein gwlad acw,  
 28 Arwyddion i rai gilio,  
 Bydd llu yn dygnu arni i Ferwig  
 [A bydd] Llundain a'r brain ar ei phen  
 A draig wen yn gorfodi gwŷr  
 32 A [bydd] ci tal gwyn yn bennaeth ar herwyr  
 A geneth ifanc dal a rhannu hyn  
 A chyw eryr a chorryn,  
 A rhosys ar ynau y rhain  
 36 A rhyfel yn erbyn gwŷr Rhufain;  
 Dysgu'r hen yn ddoeth y'i cafwyd,  
 Dehongli'r dysg sy'n ei ddweud.  
 Darllenais ynglŷn â thir y lleuad  
 40 [Y daw] amddiffynnwr dewr o'r wlad ddwyreiniol.  
 Fe anfonir llynges ryfeddol,



- [A bydd] llewes draw â llawes hir.  
 [Bydd] baner las merch ifanc o ryw wlad  
 44 [A bydd] porchell yn rhoi chwibaniad  
 Ac am y llew a'i hanner yn llwyd  
 Y cwynir er gwaethaf yr hyn a ganwyd.  
 Er i'r bobl [yn llythr. bywyd] arwynebol sôn am  
 48 Ddiflaniad aderyn dewrfras,  
 Edrych yr wyf, golygfa i rai,  
 Tuag at dir arall a'i rhoddaï [i ni].  
 Ni chaniateir imi enwi'r awr  
 52 Nid hir [y] galw ar wŷr Gwilym,  
 Manteisiol, wedi'r lluosowgrwydd a fu,  
 I'r llwynog [fydd] arglwydd yn aredig.  
 Daw un llef drwy'r trefydd,  
 56 Gwn mai un llais sydd gan y Sais.  
 Cynllunient y rhyfel,  
 [Fe ddaw] yr haf a'r gaeaf yn gynt.  
 Gorfodir rhyfelwyr o bell,  
 60 Fe gyll y dihirod draw y tir.  
 Daroganwyd drwy [gyfrwng] cyfyngder  
 [Am] ddraig a bair ddrwg i ni,  
 Fe rydd twrch daear frwydr ddiddiwedd  
 64 [Ynghyd â] gafr a llew o'r gorllewin,  
 Gwinwydd o hiliogaeth Gwynedd hen,  
 Gwennol a fydd yn peri'r ymryson.

*Ymddiddan rhwng y bardd a'r Wyddfa*

Y bardd:

Y Wyddfa noddfa nawddfawr,  
 Hoywfalch ei phen uwch llen llawr,  
 Hen addurn wyd, dëyrn ar dir,  
 4 Orau iawndwf ar randir;  
 Clo Gwynedd rhag tromwedd trin  
 A'r gaer orau i'r gwerin.  
 Gwisgodd erioed gwisg o'r iâ  
 8 Yn glaerwen dan gwl eira.  
 Hon o 'deilad hen dalaith  
 A luniodd Duw, gwiw yw'r gwaith!  
 Cryfa' lle pan seinie sôn  
 12 Wyt i'r bobl hyd Dŵr Bablon;  
 Dewines hanes hynod,  
 Mor glir y mynni di'r glod;  
 Moes ym, forwyn, o'i dwyn, dysg  
 16 Am y torfoedd mae terfysg.

Y Wyddfa:

Myfi sy'n dwyn cynllwyn cas,  
 Fe'm hadwaenir 'mhob dinas,  
 Gwylia hyn er derbyn dysg  
 20 A rod-da', air o addysg.  
 Diau o'r trwm y daw'r tro,  
 Dialedd ar a'i dylo.  
 O waith twyll, amwyll ymwad,  
 24 Ffydd yn gloff, ffaidd yw'n gwlad.  
 Cyntaf y daw seiliaw sias  
 Yn y Nordd mewn anurddas;  
 Yr arth a ddaw draw i'r drin  
 28 A feiddir yn y fyddin;  
 Dialedd Duw byw a'i bwys  
 Maith eglur am waith eglwys.  
 Â'i fin, gerwin yw'r gurfa,  
 32 I Fôn y daw blinaw bla;  
 Llynges goch oer droch ar dro,  
 Byr alaeth, a bair wylo.

- 36 Fe ddaw hin drwy rin a red  
 A daw wythryw dieithred.  
 Y P a ddaw draw i'r drin,  
 A'i dorfoedd a fydd durfin.  
 40 Ei fryd a fydd, cynnydd cwyn,  
 Rhoi i farw rhyw forwyn.  
 Yn ôl hyn, anial hanes,  
 Y wadd a'i lladd er nad lles;  
 Twrch daear anwar ennyd,  
 44 Diwyn beth, yn dwyno byd.  
 Melltgedig ddig ddygyn  
 O enau Duw yn anad un.  
 I fwrw treth oedd feth fwy  
 48 Cynnen a fag uwch Conwy;  
 Honno a wna, croywa' cri,  
 Fod yr arwydd fudo i'r Yri.  
 Yno terir, hir yw'r ha',  
 52 Fyr fwriad, heb fawr fara  
 Oni ddêl brân 'gân fal gŵydd  
 Lais hygref luosowgrwydd.  
 Hon a ddaw â'i braw gerbron  
 56 A'i sias i ladd y Saeson.  
 Tarw a diria, aur darian,  
 Fynyw wlad i fin y lan.  
 Gwna gadau o'r Deau dir  
 60 Yn gyfion, gwn, a gofir,  
 I Fochno drwy ruo o Rôn  
 A ludd einioes ei elynion,  
 Ac Owain, glain a fyn glod  
 64 Cymynu Gwaith Cymunod.  
 Tarw a'r frân yn taro'n frau  
 —Och werin Lloegr o'r chwarae!—  
 A gyrru 'nôl gu ran hedd;  
 68 Draw dilyn dri dialedd:  
 Rhyfel, newyn, llin yn lladd  
 Marwolaeth mwy i'r eilwadd.  
 A hyn a'u gyr o hen gas  
 72 (Oer dro arnyn'!) o'r derynas,  
 A rhannu eu tir hwy a'u tai  
 Yn deilwng i'r a'i dylai,  
 A rhoi Cymry, mor hy hawl,  
 76 Yn eu tiroedd naturiawl,  
 A Brytain Fawr, gwawr a gân',  
 O'u hynt twyllir hwynt allan.

- 80 Owain a dynn i'r un daith  
I Gaersalem gwrs eilwaith  
I ddwyn Croes Duw, hoywliw hynt,  
Yn hylwydd i'r un helynt.  
Hon yw'r Groes lle bu'r Oeswr
- 84 A'i gred yw gweithred y gŵr.  
I Gwlen drwy fawr gilwg  
Oddi arnyn' mab y dyn a'i dwg;  
Yno y'i cleddir, seinir sant,
- 88 Yn y trysor rhwng trisant,  
A'i enaid, blaid blodeufawr,  
Ar nwyf yr â i'r nef yn awr.

*Ffynonellau*

A—Bangor 1267, 55<sup>v</sup> B—BL Add 14889, 40<sup>v</sup>, 38<sup>r</sup>, 38<sup>v</sup> C—BL Add 14892, 90<sup>r</sup> D—BL Add 14979, 94<sup>r</sup> E—BL Add 14994, 44<sup>v</sup> F—BL Add 31060, 146<sup>r</sup> G—BL Add 31082, 167<sup>r</sup> H—LIGC 668C, 9 I—LIGC 669D, 127 J—LIGC 672D, 24 K—LIGC 1578B, 446 L—LIGC 3077B, 208 M—LIGC 6499B, 327 N—LIGC 6967B, 185 O—LIGC 11990A, 7 P—LIGC 19222B, 3 Q—Pen 124, 71 R—Pen 326, v, 61 S—Pen 327, iii, 393 T—Wy 6, 183

*Amrywiadau*

1 *IR* [Y]; *I* Gwyddfa; *G* Widdfa yn i noddfa; *L* naddfa naddfawr; *ABDG—KMP* nevaddfawr, *N* newaddfawr, *O* neyoedd fawr, *QRT* neddfawr. 2 *ABDFGKLOQRT* i threm; *K* lem lawr, *O* ben llawr. 3 *A* hen anneddin, *RT* hon addurn; *B* addvrh [wyd] drwm ar, *K* addvrndy dv ar; *P* degŵrn ar. 4 *A* ar o iowndwf, *B* oyr iawndw, *K* ai rowndwal, *P* ar fro iowndeg, *QT* Orau iawndwys, *R* enau iawndwyf; *A* or rhandir, *B* ar fariandir; *KQRT* o rauandir, *P* iowndeg fariandir. 5 *KP* rho; *D* Rhac howedd, *L* rhac y trymwedd; *F* trym[ ], *G* trowedd, *H—JMN* trymwedd, *QRT* tamwedd. 6 *BFLO* ir gwyr gore, *H A* Gaer ore; *BL* or gwerin, *D* i gwerin, *O* ar gwerin. 7 *HNM* a wisgai erioed, *IJ* Gwisgo erioed, *K* gwaisc erioed, *P* gwisgo ir wyd; *K* ai gwisc; *H* wisg or da, *MN* wisg or ia, *O* wisc yr ja. 8 *ADGHI* glaerwyn; *M* gvl eira. 9 *ABDGOP* hyn o deilad, *FH—KMN* honn adeilad. 10 *N* [A]; *F* alniodd duw; *DG* luniodd ddûw, *HM* lwnie duw, *N* Linio Duw, *O* linioedd duw, *R* o liniodd Duw; *F* gwiw ir gwaith, *AJRQT* gwiw fu'r gwaith, *H* Gwyn landeg iaith, *I* gwyw fu'r gwaith, *MN* gwynn landeg waith, *P* duw lüniaidd daith. 11 *H* Gryfa lle; *P* lle wyd seiniaidd; *A* er pen, *JQRT* er pan; *I* er seinier; *AFQR* seinier; *G* seinied son, *H* saethle son, *J* seinior son, *L* sonier son, *M* saethe sôn, *T* seiner son. 12 *A* it ir bobloedd, *B* Tŷ'r bobloedd, *DG* i tyrr pobloedd, *F* ty yr babloedd, *H* Fu i'r bobl, *K* wyt ir bobloedd, *L* tystir bobloedh, *M* ty i'r bobl, *N* Tŷ'r Bobl, *O* tu'r bobloedd; *P* i'r bo bloedd; *KL* [hyd]; *BDFGM—P* Tŵr; *DG* pabilon. 13 *F* (Edward I); *AIJQRT* diwies i, *H* Dy wres o, *MN* dy wres a, *P* düwies a. 14 *HMN* i ti/n/glir; *F* gleir myni (Scrifton); *P* yn glir or myni; *H*

gwna Brydain glod, *M* gwna brutain glod; *A* [ʳ]. 15 *K* moes chwedl forwyn; *J* forwyw, *O* ronyn; *ABDGLOQRT* oi ddwyn ddysg, *F* oi ddywyn ddysk, *I* yw Dwyn ddysg, *J* yw ddwyn ddysg, *K* addwyn ddysc, *P* ddyfnfwyn ddysg. 16 *H* Am ryw dorfaedd, *M* am ryw dorfoedd; *KL* [y]; *IJ* torfeydd, *R* torfydd, *T* torfeidd; *A* mawr ar derfysg, *B* ar tiryfysg, *DFGOQRT* mawr ar terfysc, *H* mae'r derfysg, *K* mawr ai terfysc, *L* ar trefysc, *P* mawr i terfyg. 17 *RT* *Y* myfi; *AF* fū yn dwyn, *HMP* fy'n dwyn. 18 *AP* *Mi* adweinir, *BDGLO* im adweinir, *F* in adweynir; *H* Adweinir fi'n mhob, *IM* adweinir fi mhob, *J* Adwaenir fi ymhob, *K* nim adweinir ymhob, *QRT* fom adwainir ym hob. 19 *K* gwilia ar hyn derfyn dysc; *L* ir derbyn dysc. 20 *FIP* a roddaf; *HM* gwiw roddaf gair; *JA* roddaf gair; *O* roddaf air o ddysc. 21 *K* vniawn or tiriawn i try; *AFGLPQT* *Mi* a wn, *BIO* mi wn, *D* yr wn, *R* mi awn; *A* mor trwm, *B* air trwm, *DFGI* or trwn, *HM* o'r trwm, *L* ar trwm; *F* y daw y tro, *L* i ryw r fro. 22 *ABDFGJLOQRT* ar dialedd, *K* y dialedd, *P* ar dialed; *A* ar y rhai, *IJQRT* ir rhai; *H* i ai dylo, *K* ar ai dyly. 23 *B-DFHK-MO* am waith; *P* Twyll ag amwyllwad; *L* ym wad, *F* ymwaed. 24 *B* y ffydd gloff, *CDGLO* Ar ffydd yn gloff, *E* Ar wyd yn glof, *HM* ffydd wann gloff, *K* ar ffydd gloff, *F* phydd yn glas; *CE* yw'r gwlad, *DG* yw[ʳ] gwlad, *FKM* in gwlad, *HL* yn gwlad, *O* ffiiaidd-gwlad. 25 *AP* yn gynta i daw, *FOL* cynta[f y] daw er, *HM* kynni i daw, *IJQRT* Yn gynta[f y] daw; *A* foliaw flas, *BL* seiniaw sias, *E* seiniaw dias, *P* seliaw sias. 26 *R* yn yr moroedd mewn. 27 *AC-EGKM* ar arth, *R* yr arch; *EF* addaw. 28 *A* y dorfoedd fydd, *IJY* dorfeydd a fydd, *P* a dorfoedd a ffydd, *QRT* *Y* dorfydd a fydd; *B* a fayddir yn, *E* [A] Hedir yn, *F* a feyddir yn, *HL* a faeddir yn; *APQRT* dirfin, *I* durfin, *J* dwsin. 29 *K* daw gwarth gwirddvw bw ai bwys, *P* ar cledd a dialedd dwys; *ABDGJQRT* a dialedd, *CE* a dial; *HM* dial duw; *F* duw [byw] ai bywys; *HM* duw byw daliad bwys. 30 *ACEILOR* Math eglŵr, *DG* or fath eglvr, *F* [ ] fath eglur, *JQT* *A* mâth eglur. 31 *BDG* Dyfyn gerwin, *F* [ ]fyn gerwin, *HM* dyfyn geryn, *I* *A* syn gerwyn, *JA* fynn gerwin, *P* ai fin garwfin (gerwin *uwch* garwfin), *Q* Arfin gerwin; *R* y fyd gerwin, *T* y fyn gerwin; *A* Efydd garw y gyrfa, *K* o Ddvllyn garwfin gyrfa, *L* dyfyn gerwyn y gyrfa. 32 *AIJQRT* drwon draw, *K* i Fôn [y] daw, *P* drwom draw; *ABDGIJOQT* oi blinaw bla, *F* o'i blaen bla, *HM* blinaw'r bla, *K* iw blinaw bla, *L* y blinaw bla. 33 *IJQRT* llwynoges goch; *I* oer droch dro, *K* wawr droch ar dro, *P* a drwoch dro. 34 *BLOQ* bvr alaith, *D* obyr aleth, *F* obur alaeth, *G* *O* bur alaeth, *HM* braw alaeth; *F* abur wylo. 35 *BK* yn ol hyn, *D* Ar ol hyny, *FGLO* ar ol hyn, *H* Ar ol y rhain, *M* ar ol rhain, *P* hyn a ddaw, *RT* fo ddaw hin; *AL* drwy ryn, *B* drwy'r hynn, *DFG* drwy Rym, *K* ar ryn, *O* drwy/r/yynn; *HM* oer wylo rhed, *P* rhagllaw ar lled; *B* i rhed. 36 *IL* [A], *A* yn ôl, *BFHKM* i daw, *DGO* y daw, *Q* *O* daw; *ALO* wythriw ddieithred, *IJ* bla dieithred. 37 *A* yr hwn, *G* y B, *H* Ar Ci, *IJQRT* *A* rhai, *K* pathew, *L* y bi, *M* ar (Bi), *P* llawer; *K* i drin. 38 *A* a feüddir yn y fyddin, *B* ai torfoedd a fydd terfyn, *IJP* a faeddir yn y fyddin, *ORT* *A* feiddir yn y fyddin; *DFGKO* dirfin, *L* derfin. 39 *A* *J* bryd, *BFKO* ai fryd, *H* *A* ffyrdd, *L* ai fryt, *M* a ffryd, *P* [ ] bryd; *F* sydd, *RT* y fydd; *B* kevrydd kwyn.

40 *BFL* ar roi i farw, *K* i roi farw, *O* [ ] r roi farw; *A* riw y forwyn, *I* i rhyw forwyn, *M* rhaw forwŷn, *P* y rhyw forwyn, *Q* rhyw i forwyn, *T* rhyw y forwyn. 41 *L* hyn am ail hanes, *P* hyn yn ail hanes. 42 *A* y wadd a ladd; *T* (William Eliás). 43 *ADGJQRT* y twrch, *CK* ar twrch, *E* Ar lwch; *AL* a yn wâr ennyd, *JR* an iwair Enyd, *QT* ani war enyd. 44 *A* dyna beth, *DG* diwin o beth, *H* Diwyw beth, *I* Daw'n beth, *JP-RT* Daw yn beth; *CDG* yn diwyno'r byd, *E* yn diwynu'r byd, *H* andwya'n byd, *L* y diwna y byd, *M* adwya/n/byd, *P* er diwyno byd. 45 *P* [ ] ig felldigedig ydvn; *BDFGL* dig; *R* ddig ddyn. 46 *B* i enav, *D* onav, *G* O naw, *L* o enw; *MP* düw'n anad vn, *QT* Duw yn aned ün. 47 *HMP* a bwrw treth, *K* [I] bwrw treth, *L* a fwrw dreth; *A* oedd beth fwy, *F* oi feth fwy, *I* oedd y feth fwy, *K* a wna feth fwy, *P* ar feth fwy. 48 *A-GL* a fâg kynnen uwch, *P* a wnach cynnen vwch, *QT* A fâg gynen uwch, *R* A fag gynan uwch. 49 *ADFGJRT* A honno Awna, *B* a hon a wna, *CEK* hwnnw a wna, *HIMP* a hono wna, *B* A hono awnae. 50 *A* fud'r arwydd, *F* fod ar arwydd, *I* Fod'r arwydd, *P* iwr arwydd; *KQ* fydo'r yri. 51 *ADFGLPQRT* yno i terrir, *BM* yno i trigir, *H* Yno trigir, *IJ* Yno torrir; *BKP* haf. 52 *A* o wir fwriad, *GD* o fyr fwriad, *R* fyr fo fwriad; *KP* fawr faraf. 53 *K* on' ddêl; *A-GJLQRT* brân a gan, *P* bran ar gan; *CJLRT* fel; *K* in gwydd. 54 *BPT* ai llais, *R* a llais; *CT* lais hagar o, *DF* llais hygre ai, *G* llais hu gre ai, *L* lais hygar a; *B* hygref ai, *HJ* hygref o, *PRT* hygri; *M* o lesowgrwŷydd; *B* lliosowg [ ], *F* llyossogrwy [ ]. 55 *ADGQRT* A honno A ddaw; *F* honno [a ddaw] ai braw, *L* hono a ddaw ai braw; *H* Honno a ddaw i brisiaw, *IJ* A honno ddaw braw, *M* honno ddaw i brifiaw, *P* hon a ddaw gair braw, *Q* gar bron. 56 *A* ai sios; *A* ger bron y, *HM* ar ladd y. 57 *DG* y tarw a; *I* diria a'r darian. 58 *ADFGKQRT* I fyniw wlad, *B* [ ] fyniw wlad, *H* o Fynwy wlad, *IJ* I fynwy wlad, *LM* o fyniw wlat; *B* y fynn y lann, *F* afyn y lan, *HIJM* a fv/n/lân, *K* [i] fewn y lan, *L* a fyn y lan. 59 *HM* godav, *RT* gadiau; *FK* y deav, *G* ar deau. 60 *ABDFGQRT* yn gyfion fyth, *HK* yn gyrion hwn, *L* y gofiawn fyth. 61 *HM* drwy rwyfo o; *A* drwy dirio ir Ion, *DG* drwy Ruor onn, *F* dirwy ruo ron, *IJR* drwy forio o Fôn, *K* drwy vro ar on, *L* drwy ruo ron, *QT* drwy fori o Fôn; *M* rôn. 62 *HM* wna elanedd oi elynion, *I* Gwna gelanedd gelynion, *J* Gwna elanedd oi elynion, *K* ai lanas ar ei elynion; *QRT* a ladd Einioes; *F* oi elynion. 63 *A* fyn y glod. 64 *A* trwy gymaü gwae kwminod; *C* am gymynv, *DG* yn kymyny, *E* Am Gymru, *JQT* I gymynu, *K* o gymyny, *L* cynyny; *R* i gymynnv gwnhinod; *CE* gwaith Gwninod; *DFGL* kwminod, *I* gwminod; *JKT* Gwminod, *Q* Cwmhinod. 65 *AC-GI-MQRT* y tarw; *AIJMQRT* fran tarran fraü, *R* (Duw r nos yn agos/ini/Dyw r bore yn bores); *K* y taro yn frav, *L* yn tarw yn frau. 66 *K* oi chwara. 67 *ADG* A gyrrv yn i hol, *B* [A] gyrrv'n i hol, *FK* ai gyrry'n i hól, *L* [A] gyrru yn i hol, *MA* gy [?] ol gu (annarllenadwy); *A* gyrraü hedd, *BDGL* gvr an hedd, *F* gyr an hedd, *K* \gwyr anhedd\, *Q* gyran hêdd, *R* gyfran hedd. 68 *A* draw oi ddilin, *BD* draw oi dylyn, *F* draw ai dylyn, *GJMQST* Draw o'i dilin, *K* draw i dylen, *L* draw ai dilin; *S* dri dioladd. 69 *B* rhyfel y newyn, *G* Rhyvel newydd, *Q* Rhyfel mewyn; *AFJST* llim; *BIL* llynn yn lladd, *DG* llym yw

lladd, *K* llyn ai lladd, *M* llym a lladd. 70 *ADGIJQST* A myrfoleth; *A* mawr r eilwadd, *B* mwy yw r eilwadd, *FL* mwy or eilwadh, *IJQT* mawr eilwadd, *K* mwy yr eilwadd, *S* mawr Eilwedd. 71 *AIJMQ* Y rhain, *D* A hyny, *FGKL* a hyn; *ABDFGI-MQ* ai gyrr; *A* /o/ hen gas, *I-MQ* oi hên gas; *D* gus. 72 *A* arni; *D* dernus. 73 *IJMQST* i rannu; *DG* tir hwynt; *I* tir yn y tai, *K* tir yna ai tai. 74 *I* [Yn]; *ABDFGIJLMQ* ir sawl ai. 75 *F* a roir, *K* a rhoi'r, *L* a rhoi yr; *DG* mor hyr hawl, *F* mor hv yw r hawl, *L* Cymry [mor] hu yw r hawl. 76 *A* treoedd. 77 *A* Brytton Fawr, *IJL* Brydain Fawr, *K* Lloegr fawr, *M* [ ] dain fawr, *S* Bryttain fawn; *A* gawr i gan, *B* a gawr gân, *F* ai gwawr gan, *K* ai gwawr a gan, *L* oi gawr gan, *QT* gwawr y gân, *S* gwawn y gan. 78 *K* ai twyllwyr hwyntwy allan; *B* ai hynt, *IJ* Ol hyn, *L* a hwnt, *QST* ol hynt; *AIJQST* twyllwyd, *BDFGL* twyllwyr, *M* [ ] wyllw [ ]; *BDFLT* hwnt, *G* hynt. 79 *AJ* Ag Owain, *DGQST* Ac ywain, *K* ar ôl edyn; *A* din ir vn daith, *B* dynn or ail daith, *F* dyn yr ail daith, *K* dyn ir ail daith, *L* dyn yno daith. 80 *ADFJLQT* gaerselem, *B* [ ] Gaer Selem, *GS* gaer salem, *M* [ ] aersalem. 81 *B* [ ] yn y [ ] roes; *L* i ddwyn [Croes] duw, *M* [...]ddwyn croes, *Q* I ddwrn troes; *B* [ ] roes [Duw]; *A* ddüw byw, *D* düw byw, *G* duw by; *B* hoyw loes, *IJM* hoyw lyw, *L* hoyw byw. 82 *L* yn holwydd, *Q* yn hylwydd (*yn* wedi cael ei ddileu a'i ddiwygio i *oen*); *F* or vn, *L* ac yn. 83 *DG* hon ydiwr groes, *F* dwyn croes, *K* mynny'r groes, *LO* dwyn y groes, *ST* i ddwyn Croes; *BFO* i bv'r oeswr, *DG* i bvr oeswr, *K* lle bv'n oeswr, *L* y bu yr oeswr. 84 *FK-MO* i gred iw; *S* ai grdt. 85 *F* i gweln, *I* At Gwlen; *F* drwy farwr gilwg, *O* heb fawr gilwg. 86 *M* O[ ] arny; *D* mae r dyn, *G* mae dyn, *I* Mab [y] dyn. 87 *DFGJLMOQST* yno i kleddir, *AIK* [y'i]; *DG* senir sant, *K* sîr y Saint, *QT* sinir sant, *S* Sinin Sant. 88 *AO* yn tryssor, *F* am trysor, *K* a'n trysor, *L* am y trysor; *ADFGO* Rhwng y trisant, *K* rhwng y trisaint. 89 *JMQT* Ai enaid naid blaid, *S* ai Enaid naid blid. 90 *A* ir nef ir af yn awr; *DG* nwyf i kaiff, *I* nwyf 'r eiff, *JMQST* nwyf ir af; *D* i'r nef y 'rawr, *GO* ir nef yr awr, *IJMQST* ir nef ar awr, *L* ir nef fawr.

### Trefn llinellau

*B* 1–12, [13], 14–74, [75–6], 77–84, [85–90]; *CE* (*llau*. gwahanol = 1–18), [1–22], 23–30, (2 l. wahanol), [31–40], 41–4, [45–6], 47–50, [51–2], 53–4, [55–62], 63–6, [67–90]; *DG* 1–38 [39–40], 41–80, 82–1, 83–90; *FL* 1–2, [3–4], 5–90; *H* 1–22, 24, 23, 25–62, [63–90]; *K* 1–20 (*yna cwpled sy'n digwydd yn CE fel llau*. 17–18 *sef* y gwenwyn maen eginaw / ai llwgr a drig yn Lloegr draw), 21–34, (*yna cwpled sy'n digwydd yn CE fel llau*. 27–8 *sef* Parlmanant a welant i waith / a dry gynnen drigeinwaith), 35–80, [81–2], 83–8, [89–90]; *M* 1–22, 24, 23, 25–62, [63–4] *yna llau*. 65–90 *mewn ychwanegiad ar ymyl y ddalen*; *N* 1–14, [15–90]; *O* 1–40, [41–82], 83–90; *P* 1–56, [57–90]; *R* 1–67, [68–90], *S* [1–67], 68–90 (*sef ail hanner copi* R).

*Ymddiddan rhwng y bardd a'r Wyddfa*

Y bardd:

Yr Wyddfa loches fawr ei hamddiffyn,  
 Gwych a hardd ei chopa uwchlaw gorchudd llawr,  
 Addurn hen wyt, brenin ar dir,  
 4 Y ffurf berffaith [a'r] gorau ar fro;  
 Mur amddiffynnol Gwynedd rhag ffurf drist brwydr  
 A'r amddiffynfa orau i'r bobl.  
 Gwisgodd erioed gwisg o'r rhew  
 8 Yn gannaid dan benwisg o eira.  
 Hon o adeiladwaith hen diriogaeth  
 A luniodd Duw, rhagorol yw'r gwaith!  
 Y man cadarnaf pan draethai hanes  
 12 Wyt i'r bobl hyd Dŵr Babilon;  
 Swynwraig arbennig ei hanes,  
 Mor amlwg yr hawli di'r clod;  
 Dyro i mi, forwyn, os yw hi'n meddu ar hwnnw, wybodaeth  
 16 B'le y mae[r] cythrwfl am y torfoedd.

Yr Wyddfa:

Myfi sy'n dwyn [newyddion am] ddichell wrthun,  
 Fe'm hadwaenir ym mhob dinas,  
 Noda hyn er mwyn derbyn [y] ddysg  
 20 A roddaf, [y] gair o hyfforddiant.  
 Yn sicr o'r cyni y daw'r newid,  
 [Sef] cosb ar y sawl a'i teilyngo.  
 Oherwydd twyll, ffolineb ymwrthod,  
 24 [A] ffydd yn ddiffygiol, aflan yw'n gwlad.  
 Yn gyntaf y daw cychwyn ymlid  
 Yn y Gogledd mewn anfri;  
 Yr arth a ddaw draw i'r frwydr  
 28 A herir yn y fyddin;  
 [Bydd] cosb Duw byw a'i wasgfa  
 Hirfaith amlwg oherwydd gweithrediad eglwys.  
 Â'i awch, garw yw'r gurfa,  
 32 I Fôn y daw pla [sy'n peri] poen;  
 Llynges goch drist [a] drylliedig ar ei hynt  
 A fydd yn peri wylo, trueni ar fyr dro.  
 Fe ddaw tywydd garw drwy rinwedd a red  
 36 A daw estroniaid o bob lliw a llun.  
 Fe ddaw y P draw i'r frwydr  
 A bydd ei luoedd yn gas.



- Ei fwriad fydd, bydd galar yn cynyddu,  
 40 Rhoi rhyw forwyn i farw.  
 Ar ôl hyn, adroddiad gofidus,  
 Bydd y wadd yn ei ladd er nad budd mohono;  
 Twrch daear llidiog [am] ysbaid,  
 44 Peth dinistriol, yn anrheithio byd.  
 Digofaint ffaidd caled  
 O enau Duw uwchlaw pob un.  
 Er mwyn bwrw [ymaith] dreth oedd yn fwy o fethiant  
 48 Fe fydd brwydr yn codi uwch Conwy;  
 Bydd honno yn peri, [y] gri fwyaf hygryw,  
 Fod yr arwydd [wedi dod] sef symud [?]i Eryri.  
 Yno arhosir, y mae'r haf yn hir,  
 52 Bwriad byr, heb lawer o fara  
 Hyd nes y dêl brân sy'n canu fel gŵydd,  
 Lais crawciog [gyda] mintai fawr.  
 Fe ddaw hon a'i harswyd yn bresennol  
 56 A'i herlid i ladd y Saeson.  
 Fe ddaw tarw i dir, amddiffynniad gwych,  
 Yn ardal Mynyw i ymyl y lan.  
 Gwna frwydrau o dir y De  
 60 A gofir yn gyfiawn, mi wn,  
 Hyd [Gors] Fochno drwy ruo o Rouen  
 A rwystra fywyd[au] ei elynion,  
 Ac Owain, gem fydd yn hawlio clod  
 64 [Oherwydd] lladd ym Mrwydr Cymunod.  
 Tarw a'r frân yn taro'n barod  
 —Gwae bobl Lloegr oherwydd y gêm!—  
 A pheri drachefn hoff gyfran heddwch;  
 68 Draw fe ganlyn dair cosb:  
 Rhyfel, newyn, llinach yn lladd [ei gilydd],  
 Marwolaeth mwyach i'r ail dwrch daear.  
 A hyn a fydd yn eu gyrru oherwydd hen chwerwder  
 72 (Ffawd drist arnynt!) o'r deyrnas,  
 A rhannu eu tir hwy a'u tai  
 Yn haeddiannol i'r sawl a'i teilyngai,  
 A rhoi Cymry, mor sicr yw [eu] hawl,  
 76 Yn eu tiroedd priodol,  
 A thrigolion Prydain Fawr, llewyrch a gânt,  
 Fe'u twyllir oddi ar eu cwrs allan [o'r deyrnas].  
 Fe dynn Owain i'r un daith  
 80 Lwybr eilwaith i Gaersalem  
 I gludo Croes Duw, taith deg ei gwawr,

Yn llwyddiannus i'r un cwrs.

Hon ydyw'r Groes lle y bu'r Un sydd [eto'n] fyw

84 A gweithred[u] yn ôl Ei ffydd y mae'r gŵr.

I Gwlen drwy anghymeradwyaeth eang

Oddi arnynt fe'i dwg mab y dyn;

Yno y'i cleddir, sonnir am sant,

88 Yn y trysor rhwng [y] tri sant,

A'i enaid, [mewn] cwmni aruchel,

Yn llawn bywiogrwydd yr â i'r nefoedd yn awr.

*Cywydd y gigfran*

Y bardd:

Y gigfran syfrdan ei sŵn,  
 Greg unig o graig Annwn,  
 Mwyargod, hynod yw hin,  
 4 Gwâr ei modd, garw ym myddin,  
 Draig ffôl a drwg yw ei ffydd,  
 Mynaches mynwes mynydd,  
 Garwaf gormes yn germain  
 8 A'r pen pres, briores brain,  
 Gythreules gwaetha'i rhylol,  
 Cloch Annwn mawrswn ei siol,  
 Creu'n ddyfal ei gwâl o gig,  
 12 Cod ffôl uffernol ffyrnig,  
 Garw ei thôn a'r greulon greg,  
 Muchudd ban, gigfran goegfreg,  
 Merch loywddu ei phlu a'i phlant,  
 16 Dew ei phen a diffyniant.  
 Digrefydd ydyw'r Grawys,  
 Gig er budd y bydd ar bwys,  
 A mynnu ŵyn a mynnod  
 20 I'w dwyn i'w nyth, dyna'i nod.  
 Gormes felysig ddigon,  
 Ar dasg mae yn disgwyl Môn.  
 Llefain am wledd y llifoedd  
 24 A lladd y ddwy radd yr oedd  
 A drogan uwch marian môr,  
 Gwae ei thâl, am gael gwaith elor.  
 Gwyllo am ryw addo 'dd oedd  
 28 Rhyw ofalon rhyfeloedd.  
 Fe ry Iesu gu gyfan  
 Heddwch pur er brwydyr brân.  
 Mae'r nodau cyn cathlau cog,  
 32 Brwydyr, y mae'r byd bradog?

Y gigfran:

Taw, ffŵl ddifeddwf foddion,  
 Disgwyl draw Manaw a Môn.

- 36 Aro i dir yr eryr du  
 Gwŷr Lloeger i'w gwir llygru,  
 A'r diethred a redan'  
 I dreio môr i dri man  
 40 A'r droganwr, drwy gyni,  
 Reiol sydd yn ôl i ni.  
 Aro weled yn Nulyn  
 Oddaith o daith mab y dyn.  
 Aro Owain oreufawr  
 44 I rwyfo Cors Fochno fawr.  
 Aro'r tân, anniddan nod,  
 Cymynu gwaun Cymunod.  
 Aro eto oer fatel  
 48 I Gefn yr Ais, ffwrnais ffel.  
 Hafren a dry yn llu llon  
 Fal 'tae win o waed dynion.  
 Aro i Ddofr yn rhy ddifrif  
 52 Gwaed gwŷr mawr i'w llawr yn llif.  
 Yno y bydd gwledd fonheddig  
 A digawn a gawn o gig,  
 A gŵylmabsant, a'i wrantu  
 56 Ar y llawr gan olau'r llu,  
 A'r Saeson ffeilsion eu ffydd  
 A'u gwaed hyd yr egwydydd;  
 Llawer march dihafarchdroed  
 60 Yn siêd yn cerdded y coed;  
 Gweddwon wragedd yn gweiddi  
 Yn llon fal gwylan mewn lli,  
 A briw gwŷr â brig onn,  
 64 Swrn y Sais, sarnu Saeson.

Y bardd:

- Proffwydes ym mynwes môr,  
 Da gennyf gael dy gyngor;  
 Mynag y gwir i minnau,  
 68 O Dduw, ba un orau o'r ddau:  
 Ai cyrchu i'r drin yn union,  
 Ai gwladychu fry 'n y fron?

Y gigfran:

- 72 Cei gyngor, os cymeri,  
 O'm tyb a fo gorau i ti:  
 Gochel dridiau, dyddiau dig,  
 Aml ysydd ei swydd ysig,

- 76 A phan ddarffo drithro drin,  
Cau y Nordd medd cerdd Merddin,  
Yna y gwelir ond gwyllo  
Y Saeson ffeilsion yn ffo.
- 80 A darfo rhwyfo rhyfel,  
Cymry sy yn barnu'r bêl.

*Ffynonellau*

A—BL Add 14892, 107<sup>v</sup> B—BL Add 14897, 5<sup>r</sup> C—BL Add 14994, 40<sup>r</sup>  
D—BL Add 31082, 184<sup>v</sup> E—LIGC 659A, 80 F—LIGC 4710B, 433 G—  
LIGC 7191B, 86<sup>v</sup> H—LIGC 10250B, 14 I—LIGC 13167B, 272 J—Llst  
41, 76 K—Llst 54, 16 L—Llst 120, 91<sup>r</sup>

*Amrywiadau*

1 *FI* [ei]. 2 *BG* greg enic, *DKL* grêg enyd, *FI* Gwêg Vnig, *J* ?groec inic, *H* grog Enud; *K* a gwraig Annwn. 3 *BE–J* hynod yw hyn. 4 *B* gwar modd, *FI* Gwn y Modd, *J* gwyr y modd; *DKL* garw Myddin, *F* Ag Ar Ei Mofunn, *G* garw i myddyn, *H* garw i myddin, *I* Gar i Mofyn, *J* garn meddyn. 5 *DKL* [a]; *H* fal drwg; *B* ffol [a] drwg i ffydd, *J* ffol [a] drwc y ffydd (wy *uwchlaw yn awgrymu darllen* drwc wy y ffydd); *E* a drwg i ffydd, *F* A Drwg yn Ei Ffudd, *I* A Drwg yn Ffydd. 6 *H* yn mynwes, *JKL* y mynwes; *E* ymynwes manwydd. 7 *B* garwa gormes ger penain, *E* Y gormes garwa'n germain, *FI* Garw Gormes, Ir Germain. 8 *B* a ffen pres bwrdes y brain; *DKL* brores brain, *H* Brobres braen, *I* Prioeres y Brain, *J* briores y Brain. 9 *FIJ* Kythryles; *FI* gwaetha ryrhol; *J* ary thol. 11 *B* kei yn ddyfal, *FI* cay yn Ddyfal, *J* karey yn ddyfal; *B* dy wala o gig, *D* er gwal o gig, *E* iw gwâl gig, *GH* i gwala o gig. 12 *B* kei ffol, *H* Cod fol. 13 *J* garwa y thon; *DFGIKL* greulon graig, *H* greylon gr[ ]. 14 *D* Muchudd Cân, *F* Mychedd Frân, *I* Mychydd Frân, *J* mychydd fan; *DHKL* gigfran goegfraig, *I* cig fran coeg wraig, *FGJ* gicfran goegwraic. 15 *B* merch lwyd dddv; *H* a fflant. 16 *B* [a]. 17 *J* ydyw'r gwys. 18 *FI* Gig Er Bûd, *J* cig ar byd; *J* y by abwis. 20 *J* ay dwyn y nyth yna nod. 21 *B* gormes fylsig ddi wan, *E* Gormes fflysig ddewr ddigon, *G* Gormes fflysig ddewr ddigon, *H* gormes fflysig ddigon. 22 *G* a dasg y mae; *B* ar dasg i mae yn difgwil man, *G* [yn]. 23 *B* am ryfel; *E* am ryfel llifoedd, *BFGI–L* y llvoedd; *H* [y]. 24 *B* lladd y yddwy radd. 25 *H* [A] Darogan. 27 *G* addo roedd, *H* addo yr oedd. 28 *B* ruo o flaen ryfeloedd; *H* ofalon a rhyfeloedd, *I* of o lan Rhyfeloedd. 29 *B* fo arydd yr, *FI* Rho yr, *J* fo ry; *B* Jesv [gu] kyfiawn, *DK* Jesu yn gyfan, *FI* Jessu Gû Gigfran. 30 *B* heddw pur, *E* Heddwch gwlad, *H* Heddwch Bur; *B* er bwriad bran, *E* ri bwriad Brân, *H* or Brwydr Bran. 31 *B* mae yr node, *G* maer nôd, *H* Mae r nodi; *B* kaeth le (*â'r diwygiad cathle mewn llaw wahanol uwchben kaeth sydd wedi ei ddileu'n rhannol*), *FI* caethhau (yr e wedi ei dileu o bosibl yn llsgr. *F*), *GHJ* kaethle. 32 *B* (*ymddengys y llinell a chennad i frecheiniog o gywydd D. Llwyd*

*uwchlaw mewn llaw wahanol*) brwd y mawr byd braog; *GH* mae y byd. 33 *BFGIJJL* Taw ffol (*diwygiwyd yn ddwl yn J*), *H* Taw dol; *B* ddi feddwl ffyddlon, *DJKL* di feddwl foddion, *FI* Dy Fethol Foddion, *G* ddifuddiol foddion. 34 *K* Maenaw a Mon. 35 *B* Aro ar dir, *F* Aro Ei Dir, *H* aros ar dir, *J* Aro y dŵr. 36 *AC* a gwŷr; *J* gwir lloeger; *B* a gar llygru, *B*(fersiwn 2) *A* gan ei llygru, *DFHIKL* gwn eu llygru, *G* a gân i llygru, *J* gwn y llygri. 37 *G* *A* dieithred, *J* ar deithred, *B* ar ddi eithred; *DGHIKL* a godan, *B* godan, *J* y godan (wedi ei ddileu a'i ddiwygio yn *a redann*). 38 *F* *Ei* Dreio Môr, *G* i drio y môr, *H* j drei mor, *J* y dirio mor; *H* i drin man, *J* o dri man. 39 *G* *A* droganwyr; *FI* Drwg Gynni, *K* drwy gwni. 40 *FI* Eiriol sydd, *J* Yriol y ssydd, *K* Reiol y sydd; *J* [i]. 41 *B* [Aro] i weledd yn Nulyn (*we* wedi ei ddileu ac *aro* uwchben *wledd yn mewn llaw wahanol*); *DGJKL* Aro y wledd, *FI* Aror wledd, *H* aros wledd; *A* yn yn Nulyn, *JG* yn ylyn. 42 *B* aro daith gida mab dyn; *C* Odaith o daith mab, *D* Ir daith gada mab, *FGI* Ar Daith Gida Mâb, *HKL* ir daith gida mab, *J* yr daith gyda mab. 43 *H* aros Owain; *A* Owain y byddfawr, *C* Owain y byd vawr. 44 *G* [I]; *A* i rwywo; *H* fachno. 45 *B* a roir gan anithanod; *DJK* a rhoi tan, *G* *A* rhai ar gân, *H* Rhoi tân, *L* *A* rho r tan; *FI* Aiddan Ar Nôd. 46 *B* *Kymru* gwyn kyminod; *FI* or wlad Honn cai wledd Hynod; *G* cymrv<sup>v</sup> i waith Cyminod; *D* gwain Cwminod; *H* gwae'n Cyninod, *KL* Cyminod. 47 *H* tros etto, *J* a rhoi etto; *B* aro [eto] oer (*etto* wedi ei ychwanegu gan law arall); *FI* Ar Fattel. 48 *B* i yssu yr ais ar fwrnais ffel; *FI* *I* Gefn Reis Ffyrnais; *H* i gefen yr aur; *GJ* ais ar ffwrneis. 49 *FI* *A* Hafren Tru; *B* a hafren dryf llif llon, *J* a hafren y dri yn llyw llon; *DFHIKL* lli llon, *G* llif llon. 50 *B* fel tonau, *DL* fel tawin, *F* Ffel Tewyn, *GK* fel tawni, *H* fel towni, *I* Fel Tewyn, *J* fal tawni; *J* o wad. 51 *DK* *A* rho ddwfr, *F* Aro Ei Ddofor, *H* a rhoi dwfwr, *L* *A* rhoi ddwfr; *B* yn [rhy] difrif, *DKL* yn rhy ddifri, *H* yn rhy ddifi, *J* yn ri ddifri. 52 *K* gwaed y gwyr; *H* llawr 'n lli, *J* llawr yn lly. 53 *J* foheddic. 54 *B* ni gawn ddigon o gig (wedi ei ychwanegu mewn llaw wahanol); *DGHIKL* a gawn a digon a, *F* *A* Gei *A* Digon o. 55 *H* a gwylabsant; *B* ai wran; *G* o'i wrantu, *H* i wrantu. 56 *F* llawr lleir Elor llu, *H* llawr yn ynanot y llu; *G* gamolau yr llv, *J* gan olayr lei. 57 *J* feilston; *A-DH* i ffydd, *GJ* y ffydd. 58 *B* a gwaed; *AC* hyd ev egwydydd; *J* [yr]. 59 *F* Merch; *H* dihfarch dred, *KL* dihafarch draed. 60 *H* [ ] n gerdded. 61 *J* a gweddwon; *FI* Gweddwon Gwragedd. 62 *J* y llon fal gwylanod mywn lly. 63 *J* a briw gwir; *FI* Brig yr onn. 64 *F* Swrney sais, *I* Sarny y Sais; *FI* Ar Sarn Saesson, *J* a ssarny ssayson. 65 *B* proffwydes yn vesmor (*glos* Westmorland *mewn llaw arall*); *D* Ir Proffwydes yn mynwes; *H* mynwes y mor. 66 *B* da gan y dygun or; *DKL* da yw genni, *FI* Da Gynnif, *J* da yw gennyf; *G* [gael], *H* da iw geni [gael] dy. 67 *ACFIJ* manec; *B* mynegau wir, *D* Myna y gwir, *H* mynega y gwir. 68 *F* o Dŵw; *B* par un, *J* pyn. 69 *C* *Ai* chyrchu ir, *JKL* *Ai* cyrchu'r; *J* drin anhirion. 70 [J]; *C* *Ai* gwladych; *B* [y]; *F-IKL* fry yn y. 71 *FI* *Cai* Dy Gyngor, *H* gei gyngor; *F* os Cymri, *H* os gymeri, *I* os cymry. 72 *B* oni tyb, *GH* ym tŷb; *FI* *J* Fo. 73 *F* Gochel Drin,

Dûn Dyddiau, *I* Gochel Dri Dyn Dyddiey; *AC* dridie die dig. 74 *A* sydd y swydd, *C* vyd y swydd; *B* a missiff, *DKL* ar mysiff, *FI* Ar Maessudd, *G* ar missiff, *H* ar mitiff, *J* ar messydd; *B* Swydd Ymwitweg; *D* yn Sir Mwythig (wedi ei ddiwygio o *Sir* i *swydd*), *FGJ* yn sswydd y mwythig; *K* swydd mwythig; *HIL* yn swydd mwythig. 75 *B* a ffen dda ffo tre treio trin; *J* a ffyn darffo; *DHKL* tro trîn, *FI* Trô Pôb Trîn, *G* treio yr drîn. 76 *B* Kei mowred, *DL* Cau'r Nordd, *FIJ* kaer nordd, *H* Tan y nordd, *K* Cawr Nordd; *B* medd geredd, *FI* medd cerdday, *H* medd Can. 77 *B* yno i gwelir, *F* yno Gwelir, *HJ* yno y gwelyr, *I* yno Gweler; *G* [y]; *D* gwelir yn gwilio. 78 *B* ffeilston yn ffo, *FI* Ffeilstion yn Ffô, *H* ffeilsion'n ffo, *J* feilston yn ffo. 79 *B* gwddi darffo, *DGKL* a tharffo, *F* A phan Darffo, *H* a ddarffo, *I* A Phenn Ddarffo, *J* a thrafo; *BJ* rwyfo ryfel, *G* rhwyfo yn rhyfel, *H* rhawufo rhyfel, *K* rwyf rhyfel. 80 *B* kymru pia barnu y bel, *FI* y Bûdd cymru yn Barnur Bêl, *G* Cymru bid barnu yr bêl, *H* y Gymry su'n barnu'r bel, *J* y bydd kymry barnyr bel; *D* Cymru sy'n.

### *Trefn llinellau*

*AC* [1–34], 35–6, [37–40], 41–4, [45–56], 57–8, [59–66], 67–70, [70–2], 73–4, (Yna GDL1 27 (2.15–30), sef fersiwn o GDL1 87 (36.21–8)), 37–8, 43–4, 49–50, 53–54; *B* 1–8, [9–10], 11–12, [13–14], 15–16, [17–20], 21–4, [25–7], 28–38, 35–8 (eto), 39–58, [59–64], 65–80; *D* 1–8, [9–10], 11–16, [17–20], 21–42, [43–4], 45–60, [61–4], 65–80; *E* 1–3, [4], 5–8, [9–10], 11–12, [13–14], 15–16, [17–20], 21–4, [25–8], 29–30, (yna GDL1 170 (78.78–82)); *FI* 1–24, [25–7], 28, (yna Rhudd or Blaen, Arwydd Ai Bloedd), 29–56, [57–8], 59–80; *GHKL* 1–8, [9–10], 11–16, [17–20], 21–60, [61–4], 65–80; *J* 1–24, [25–7], 28, (yna darn o waelod y td. ar goll, fel y ll. ychwanegol yn *FI*, mae'n debyg), 29–45, [ll. 46 yn eisiau ond bwlech wedi ei adael ar ei chyfer], 47–80.

*Cywydd y gigfran*

Y bardd:

- Y gigfran a'i sŵn yn peri syfrdan,  
 [Un] groch unig o graig Annwfn,  
 Cwdyn mwyar [duon], rhyfedd yw[’r] tywydd,  
 4 Mwyn ei hymddygiad, creulon mewn byddin,  
 Draig ynfyd a drwg yw ei chred,  
 Lleian bron mynydd,  
 Y rheibiwr creulonafr yn llefain  
 8 A’r pen o bres, briores brain,  
 Gythreules waethaf ei gwag-siarad,  
 Cloch Annwfn mawrswn ei phen,  
 Gwneuthur yn ddiwyd ei ffau o gnawd,  
 12 Cwdyn hurt uffernol milain,  
 Cras ei goslef a’r un greulon gryg  
 [Å] ffwr [o liw] muchudd, gigfran ddrwg ei hystryw,  
 Merch y mae iddi hi blu ac epil o liw du llathraid,  
 16 Tew ei phen a digynnydd.  
 Digrefydd ydyw [yn ystod] y Grawys,  
 Bydd gerllaw cig er mantais iddi,  
 A deisyfu ŵyn a mynnod  
 20 I’w cipio i’w nyth, dyna yw ei hamcan.  
 Gorthrwm digon gwancus,  
 Wrth ei gorchwyl y mae yn gwyllo Môn.  
 Galw am wledd y ffrydiau [gwaed]  
 24 Ac [am] ddifetha y ddwy genedl yr oedd  
 A phroffwydo uwchlaw traeth graeanog [y] môr,  
 Gwae ei phris, am gael llafur elor.  
 Gwyllo oblegid rhyw addewid yr oedd  
 28 Ryw bryderon rhyfeloedd.  
 Fe rydd Iesu annwyl perffaith  
 Dangnefedd dilychwin er gwaethaf rhyfel brân.  
 Ymhle y mae’r arwyddion sy’n rhagflaenu caneuon [y] gog,  
 32 [Ymhle y mae] brwydr, ymhle y mae’r byd bradwrus?

Y gigfran:

- Ust, ynfytyr annoeth [ei] foesau,  
 Edrych acw ar Fanaw a Môn.  
 Aros i’r eryr du [ddod] i dir  
 36 I wir lygru gwŷr Lloegr,  
 A’r estroniaid a redant  
 I groesi’r môr i dri man



- 40 A'r mab darogan brenhinol, drwy drallod,  
 Sydd yn llwybr [i.e. arweinydd] gennym.  
 Disgwyl am [gael] gweld yn Nulyn  
 Goelcerth oherwydd taith mab y dyn.  
 Disgwyl am Owain y mwyaf aruchel
- 44 I gynhyrfu Cors Fochno eang.  
 Disgwyl am y tân, arwydd truenus,  
 [A'r] lladd [ar d]dôl Cymunod.  
 Disgwyl eto am ryfel trist
- 48 I Gefn yr Ais, ffwrnais ddichellgar.  
 Bydd Hafren yn troi'n llif cyffroëdig  
 Fel petai'n win oherwydd gwaed dynion.  
 Disgwyl [nes daw] i Ddofr [ac] i'w phridd yn rhy ddyfal
- 52 Waed gwŷr bonheddig i'w pridd yn ffrwd.  
 Yna y bydd gwledd anrhydeddus  
 A chawn ddigonedd o gig,  
 A gŵylmabsant, a'i sicrhau
- 56 Ar faes [y gad] wrth olau'r llu,  
 A'r Saeson annilys eu cred  
 A'u gwaed hyd yr egwydydd;  
 Llawer ceffyl cadarn ei garn
- 60 Yn ddiberchennog yn symud yn y goedwig;  
 Gwragedd gweddwon yn gweiddi  
 Yn gynhyrfus fel gwylan ar y môr,  
 Ac anaf gwŷr â gwaywffon onn,
- 64 Crynswth y Sais, sathru Saeson.

Y bardd:

- Broffwydes yng nghanol y môr,  
 Y mae'n dda gennyf gael dy gyngor;  
 Mynega'r gwir wrthyf innau,
- 68 O Dduw, pa un sydd orau o'r ddau:  
 Ai mynd i frwydr yn syth,  
 Ai cyfanheddu uwchlaw ar y llethr[au]?

Y gigfran:

- Cei gyngor, os cymeri [ef],
- 72 Yn fy marn i sydd orau i ti:  
 Gochel dridiau, dyddiau digofaint,  
 Llawer [un] sy'n anafus ei safle,  
 A phan dderfydd brwydr deiran,
- 76 Amgáu ar Loegr medd cerdd Myrddin,  
 Yna y gwelir ond edrych

Y Saeson twyllodrus ar ffo.

Pwy bynnag a gychwynno gynnwrf rhyfel,

80 Bydd Cymru yn penderfynu'r fuddugoliaeth.

# Nodiadau

## I

Cywydd brud ar ffurf cywydd gofyn ych yw'r cywydd hwn. Sonrir am *ewythr* (ll. 72) ac y mae'n debygol, felly, fod y cywydd yn cael ei ganu ym mhersona'r eirchiad yn hytrach na bod y bardd yn gyfryngwr ymwybodol. Lleoliad y cywydd, o bosibl, yw trefgordd Mathrafal (ll. 41) a *grwn Madog* (ll. 58). Enwir pedwar o bobl sy'n gysylltiedig â'r proses o hau a ddisgrifir yn y cywydd. Crybwyllir Syr Morys, Hywel ap Rhys, Tomas Dafï a Wiliam Hywel. Methwyd â darganfod yr un Syr Morys yn gysylltiedig â Mathrafal, ac er bod nifer o enghreifftiau o'r enwau eraill yn digwydd yn achau P.C. Bartrum a Lewys Dwnn, gan fod yr wybodaeth yn y cywydd mor gyfyngedig, nid yw'n bosibl barnu at bwy yn union y cyfeirir. Gallai'r proses o hau fod yn drosiad am baratoi ar gyfer ymgyrch filwrol megis dyfodiad Harri Tudur, ac oherwydd y cyfeiriadau at y *wadd* yn llinell 84 a *Gwennol* yn llinell 86, y mae'n debygol fod y cywydd yn perthyn i gyfnod teyrnasiad Rhisiart III. Gweler hefyd linellau 25–6 sy'n cyfeirio unwaith eto at Risiart III, Harri VI ac Edward IV gan ddefnyddio dull a ddatblygodd o'r modd Sibylaidd o gofnodi enwau gwrthrychau'r proffwydoliaethau: *Gwedi'r H y gedir I, / Gŵr y god, ac R gwedi*, ac eto linellau 29–30: *E dirion aed i orwedd / Ac R fain i gwr ei fedd*, sy'n nodweddiadol o'r dull dilornus a ddefnyddid wrth gyfeirio at Risiart III. (Ar y dull Sibylaidd, gw. 25n isod.)

Ceir yn y cywydd ragymadrodd o frud sy'n cynnwys cyfeirio helaeth at fannau ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin' Sieffre o Fynwy yn ogystal â dyfyniad uniongyrchol oddi yno. (Trafodir hyn yn y nodiadau isod.) Ceir brudio drachefn yn llinellau terfynol y cywydd lle y cyfeirir at y 'Broffwydoliaeth Fer' (llau. 87–8), ac at 'Broffwydoliaethau Myrddin' (ll. 90).

- 2 **hau** Defnyddir y f. yn drosiadol am 'baratoi', cf. llau. 41–2 a ll. 71 isod. Gw. y nodyn cefndir uchod am arwyddocâd tebygol y f. yn y gerdd hon.
- 5 **llwynog** Un o nodweddion trawiadol y cywyddau brud yw'r ddelwedd-aeth sy'n ymwneud ag anifeiliaid, sy'n adlewyrchu un o nodweddion arddull Sieffre o Fynwy ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin' yr 'Historia Regum Britanniae'. Fe'i defnyddir yn amhenodol er mwyn creu elfen o ddirgelwch a hud ac yn benodol er mwyn celu gwrthrych y canu oddi wrth y gelyn mewn amgylchiadau gwleidyddol arbennig. Megis yma, pair yr elfen hon anhawster yn aml gan na ellir bod yn sicr a yw'r bardd

yn cyfeirio at berson neilltuol ai peidio. Y mae'r term 'llwynog' yn digwydd ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin' ond gan fod y bardd yn ei gysylltu â Chaerdydd ac â chariad, gall fod yma gyfeiriad at berson penodol neu at broffwydoliaeth a oedd yn hysbys ar y pryd ond na orosodd, ond gw. llau. 11–12n. isod.

- 9–10 **arth ... / ... baedd** Digwydd y termau hyn yn aml yn y cywyddau brud. Defnyddir hwy ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin', ond mewn achosion penodol cyfeiria'r 'arth' at Iarll Warwig, sef Richard Neville (*fl.* 1428–71), gw. GDL1 194, ac R. Wallis Evans yn GWL ii, 290–1. Y mae'r enw hwn yn hanfod o 'the bear and ragged staff of the Earls of Warwick', gw. DWH i, 120 ac ymhellach isod 3.22n. O ystyried y cyfeiriadau yn llau. 25–6, 30, bernir mai cyfeiriad amhenodol sydd yma am fod y cywydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod ar ôl marwolaeth Iarll Warwig, onid yw'r bardd yn cyfeirio at ddigwyddiadau yn y gorffennol er mwyn rhoi hygrededd i'w ddarogan am y dyfodol yn ôl dull cerddi 'Llyfr Taliesin'. Un enghraifft amlwg sy'n profi bod hyn yn gallu digwydd weithiau yw'r ffaith fod Myrddin yn 'Ymddiddan Myrddin a Thaliesin' yn darogan am y frwydr lle y collodd ef ei bwyll cyn derbyn ei alluoedd proffwydol.
- 11–12 **Nadredd ... / ... a chwibanant** Cf. BD 114 (llau. 5–6) *Neidyr Caer Lincol a damgylchyna y llywynave, a'e chyndrycholder o laveryon o nadred a dystir o aruthyr chwibanat.*
- 15 **rhawn o wyn** Gw., o bosibl, J.E. Caerwyn Williams, 'Ronwen; Rhawn Gwynion', B xxi (1966–8), 301–3.
- 13–16 Y mae 'rhyfel am gŵyn rhaiin' yn un o'r arwyddion brudiol mwyaf poblogaidd, gw. HSt 156 a cf. R 1050.12–13 *am gŵyn rieiin ryueleu a vyd a ddyfynnir yn EVW 131.* Ond gall mai cyfeiriad yw hwn at 'y forwyn o'r Llwyn Llwyd' ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin' (BD 109 (ll. 16)–110 (ll. 2)) o ystyried bod modd olrhain y delweddau yn y llau. blaenorol a'r llau. canlynol i'r 'Proffwydoliaethau'.
- 17–20 Cf. BD 110 (ll. 23)–111(ll. 5) *Odyna y kerda ederyn o Lwyn y Calatyr, yr hon a gylchyna yr enys dy vlyned. O nossolyon leuein y geilv yr adar, a phob kenedyl ederyn a gedymdeithocaa idi. En niwyll y rei marvavl y ruthrant, a holl gravn yr yt a lygcant. Odyna y dav newyn y'r bobyl, yn ol y newyn girat agheu. Pan orffowysso y ueint agkyfnerth honno y kyrch yr ysgymun edyn hvnnv glynn Galabes, ac odyma ymdyrchauael ym mynyd goruchel.* Ar *Galabes*, gw. G 516 d.g. *ffynnawn—ff. galabes*, a cf. GLM 325 (xc.8).
- 21 **Y dderwen a'r tri chenau** Cf. BD 111 (llau. 5–7) yn dilyn yn uniongyrchol o'r dyfyniad uchod: *Em pen hvnnv y planna dar, ac yn y cheigeu y guna y nyth. Tri wy a dydw yn y nyth, o'r rei y byd llewynave a bleid ac arth.* Nodir mai'r un anifeiliaid a enwir yn llau. 5, 9, 10 uchod.

- 22 **A'r un a ddwg ran y ddau** Cf. eto BD 111 (llau. 7–8) *E llewynavc a lving y vam, ac ynteu a arwed penn assen arnav.*
- 23–4 Cf. BD 110 (llau. 5–8) *Ena y sychir llyvyn Danet, ac yn dynavl lef gan ymdorri y llefha: "Dynessa, Gymry, a guasc Kernyv vrth dy ystlys, a dywet y Gaer Wynt, 'Y daear a'th lving. Symut eistedua bugeil y'r lle y disgyn llongeu ...'"*.
- 25 **Gwedi'r H y gedir I** Dyma ddull sy'n hanfod o'r modd Sibylaidd o gofnodi enwau gwrthrychau'r proffwydoliaethau, sef un o'r dyfeisiau a oedd yn cyfrannu at amwyster a dirgelwch y daroganau ond a oedd yn wreiddiol yn cael ei ddefnyddio er mwyn celu'r gwrthrych mewn amodau gwleidyddol peryglus. Yn yr 'Oracula Sibyllina' o'r ail ganrif cyn Crist i'r drydedd ganrif oed Crist, cyfeirid at y cymeriadau yn ôl rhif llythyren gyntaf eu henwau yn yr wyddor. Symleiddiwyd y dull hwn erbyn yr Oesoedd Canol gan ddefnyddio llythyren gyntaf yr enw, gw. EVW 16. Yn yr achos hwn saif *H* am Harri VI. Y mae *I* yn cynrychioli sain y llythyren Saesneg *E*, sef Edward IV, yn hytrach nag *I* am Iorwerth. Cf. geiriau R. Wallis Evans, HSt 156–7, 'dywed Mr. G.J. Williams wrthyf y tybir yn gyffredin mai mewn cyfnod cymharol ddiweddar y dechreuwyd cysylltu'r enwau *Edward* ac *Iorwerth*. Ni all yr *I*, felly, gynrychioli *Iorwerth* er y ceir enghraifft ohoni'n sefyll am *Iasbar*. Tybed ei bod yn cynrychioli *sain* y llythyren Saesneg *e*, sef llythyren gyntaf yr enw Edward?'
- 26 **gŵr y god** Gw. GPC 1694 sy'n rhoi'r diffiniadau a ganlyn: i 'wealthy and generous man; treasurer'; ii 'tramp, pedlar, packman; bogey'; gw. ymhellach GSC 21.5n.
- ac R gwedi** Saif yr R am Risiart III, cf. GDL1 69 (25.9–10) *Ni allai'r R. yn lle'r I / Na rhywlio Lloegr na'i rholi.*
- 27 **Mai a ddaw** Tybed ai cyfeiriad penodol at Fai 1483 sydd yma ac mai arwyddocâd y ll. yw fod y bardd yn disgwyl helyntion yn fuan wedi marwolaeth Edward IV yn Ebrill 1483? Fel arall gellid diwygio yn *Mae a ddaw*, gan ddeall *Mawr drwch hir* (ll. 28) yn oddrych; gallai *Mawr drwch hir*, sy'n digwydd *am wedd ewyn*, fod yn arwydd o'r un natur â 'rhyfel am gŵyn rhiain' (gw. llau. 13–16n).
- 29 **E dirion** Cf. ll. 25. Saif yr E, y tro hwn, am Edward IV.
- 30 **R fain** Cf. ll. 26. Saif *R fain* am Risiart III. Yr oedd y Cywyddwyr yn gwawdio ac yn enllibio Rhisiart yn ddidrugaredd oherwydd y gred gyfoes mai ef a fu'n gyfrifol am lofruddio ei ddau nai Edward a Rhisiart yn Nhŵr Llundain. Gw. G.A. Williams, 'The Bardic Road to Bosworth: A Welsh View of Henry Tudor', THSC, 1986, 23–4. Un agwedd ar y sen oedd cyfeirio at anffurfedd corfforol Rhisiart, gw. *id.* yn *Bosworth a'r Tuduriaid*, gol. Dafydd Glyn Jones a John Ellis Jones (Caernarfon,

- 1985), 41, sy'n nodi bod yr agwedd hon wedi ei phwysleisio gan ysgrifenywyr Seisnig y cyfnod Tuduraidd, gan gyfeirio at 'Syr Thomas More (*The History of King Richard the Third*) a'i galwodd "yn little of stature, ill-featured of limbs, crook backed"; hefyd y disgrifiad enwog a roes Shakespeare yng ngenau Rhisiart ei hunan, *Richard III* I.i.14–23'. Ar natur debygol anffurfedd Rhisiart, gw. Emyr Wyn Jones yn *Ymgiprys am y Goron ac Ysgrifau Eraill* (Dinbych, 1992), 53–82.
- 31 **ar lin Locrinus** Mab hynaf Brutus, sef sefydlydd cenedl y Brytaniaid, oedd Locrinus yn ôl Sieffre o Fynwy. Gw. BD 21 (llau. 16–18) *A Locrinus, canys hynhaf oed, a gymerth y rann berued o'r enys, yr honn a elwir Lloegyrr o'e enw ef*. Defnyddir *llyn Locrinus* i gyfeirio at y Saeson yma.
- 32 **cawod** Ymddengys nifer o arwyddion sy'n ymwneud â'r tywydd yn y canu brud. Efallai eu bod yn adleisio'r 'Pymtheg Arwydd cyn Dydd y Farn' a oedd yn nodwedd yn y proffwydoliaethau apocalyptaidd cynnar, ond hwyrach fod iddynt wreiddiau brodorol Celtaidd. (Gw. yn arbennig GLIF cerdd 5.) Gellir credu bod iddynt yr un apêl â choelion sy'n ymwneud â'r tywydd yn ein llên gwerin heddiw, a byddent yn sicr o ennyn diddordeb o fewn hinsawdd a meddylfryd ofergoelus yr Oesoedd Canol. Am gyfeiriadau eraill at 'gawod' mewn testunau brud, cf. R. Wallis Evans, 'Tair Cerdd Ddarogan', B x (1939–41), 46 (ll. 15), *dêl cafod hÿd y frô*, a 47 (llau. 9–10, 17–20) *o waith pechod ym mhôb gwlad / y gwelir cawad greulon ... / Glawio'r gawad wnâ ar frÿs / dros gaerydd ynys frydan / fel ar Sodom gynt o'r blaen / ei glawiodd tân a brwmstan*.
- 34 **rhag y tes** Un o'r arwyddion brudiol traddodiadol oedd 'tes yn ei ddeuwres', gw. HSt 156.
- 35 **Gwnawn yngor y fôr-forwyn** Golygwyd 'Darogan y Fôrforwyn' gan R. Wallis Evans, gw. 'Darogan y Fôrforwyn', LICy ix (1966–7), 111–12, ond nid yw ei chynnwys yn ymddangos yn berthnasol yn y cyddestun hwn. Fodd bynnag, y mae'n bosibl fod daroganau eraill a gysylltid â'r fôr-forwyn bellach ar goll.
- 37 **lloer** Cynhwysir y lloer yn y rhestr o'r enwau am y gwron a luniwyd gan R. Wallis Evans yn GWL ii, 299; cf. hefyd 3.29n ar *lleuad*.
- 38 **a ddaw i'r lan** Y mae'r sôn am y mab darogan yn dod dros y môr yn elfen gyfarwydd mewn barddoniaeth frudiol yn gyffredinol. Ceir sôn am gynghrair o'r Llychlynwyr mewn rhai o'r daroganau, e.e. yn ôl 'Proffwydoliaeth yr Eryr Mawr' bydd Brenin Llychlyn Du yn cynorthwyo'r Cymry, gw. EVW 204, 207.
- 40 **hocys** Ceir e. *hocys* yn fenthyciad o'r S.C. *hockes 'mallows'*, gw. GPC 1882 a chan fod y ll. yn rhy hir o un sillaf, y mae'n bosibl y dylid

darllen *hocs*. Fodd bynnag, nid yw ystyr y cwpled yn amlwg—tybed ai cyfeirio a wneir at arfbais, neu ai cyfenw ydyw, Tomas Hoc(y)s?

- 41 **Mathrafal** Yr oedd castell Mathrafal wedi ei leoli ar lan Afon Fyrnwy ger Meifod a Llanfair Caereinion, gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 249, 683, I. Williams, ‘Mathrafal’, B xi (1941–4), 148, C.J. Arnold a J.W. Huggett, ‘Mathrafal, Powys: A Reassessment’, B xxxiii (1986), 436–51 ac *id.*, ‘Excavations at Mathrafal, Powys 1989’, Mont Coll lxxxiii (1995), 59–74. Ynghyd ag Aberffraw a Dinefwr yr oedd yn un o dri phrif lys brenhinol Cymru; credir mai yno y trigai Madog ap Maredudd y cyfeirir o bosibl ato yn ll. 58 isod.
- 42 **y Fâl** Gw. LGCD 144, ‘y *Golden Vale* yn Sir Henffordd, enw ar ddyffryn afon sy’n llifo i afon Mynwy. *Estratdour* yw’r enw yn Llyfr Llandaf, sef Ystrad-dŵr. Camddehonglwyd *dour* gan y Normaniaid fel *d’or* o’r Ffr *or*, aur. Seisnigwyd yr enw i *Golden Vale* a Chymreigiwyd hwnnw i *Dyffryn Aur*. Cf. 2.52 isod.
- 47 **Syr Morys** Methwyd â darganfod at bwy y cyfeiria’r bardd yma. Yn ôl LGCD 189, ‘Offeiriad heb radd prifysgol a gâi’r term “syr” o flaen ei enw’, ond ymddengys mai at un a oedd wedi ei urddo’n farchog y cyfeirir yma o gysylltu’r ll. â *marchog* y ll. flaenorol.
- 50 **Haf Gwyddel** Dyma’r enw a ddodwyd ar y cyfnod pan adfeddiannodd Rhodri ab Owain Gwynedd Aberffraw yn 1193 gyda chymorth Reginald brenin Manaw a’i wŷr. Gw. J.E. Lloyd: HW<sup>3</sup> 588, ‘For some years previously there had been quarrels between Rhodri [ab Owain Gwynedd] and his southern neighbours, the sons of Cynan. About 1190 the latter had driven Rhodri out of Anglesey, whereupon he had sought the help of Reginald, king of Man, marrying his daughter as a pledge of alliance, and in 1193 he had with the aid of a Manx contingent expelled his rivals and again possessed himself of Aberffraw. Thus passed the “Gaelic Summer”, so called, no doubt, because of the influx of Gaelic-speaking allies from Man into Gwynedd’. Gw. hefyd *ib.* n71, “‘O oes Gwrtheyrn” assigns “haf y gwydyl” ... to a year which is clearly 1193’.
- 58 **grwn Madog** Ai cyfeiriad at Bowys fel tir Madog ap Maredudd sydd yma? Cf. ll. 41n uchod. Ynteu ai un o gyndadau Hywel ap Rhys oedd Madog?
- 67 **Fenis** Gall fod y bardd yn cyfeirio at Eglwys Gadeiriol St. Marc yn Fenis.
- 69 **y Cân** Gw. OED d.g. *Khan*, ‘The specific title ... given to the successors of Chingiz Khan, who were supreme rulers over the Turkish, Tartar, and Mongol tribes, as well as emperors of China, during the middle ages’.

- 70 **Llywethan** Y mae GPC 2288 d.g. *llywethan*<sup>1</sup> yn rhoi'r ystyron 'bwystfil, anifail, draig, morfarch, morfil; llysywen'; cf. CT 24.
- 74 **Wiliam Hoel** Gw. W Surnames 125 dan *Hywel*, 'In med records it is very often written *Hoel*, or *Hoell*, or *Holl*'.
- 79–80 **Ych ... / Asen gref Iesu'n ei grud** Ceir cyfeiriad arall at y ddau anifail hyn ger preseb yr Iesu gan Fadog ap Gwallter yn GBF 32.13, *Ych ac assen, Arglwyd pressen, presseb pieu*.
- 79 **iach** Fe'i deellir yma fel yr a., ond nid amhosibl ychwaith yr e. *iach* 'ach' y ceir nifer o enghreifftiau ohono yng ngwaith y Cywyddwyr, cf. GHD 5.7, 9, 9.31, &c.
- 84 **y wadd** Y 'wadd' neu'r 'twrch' oedd yr enw arferol ar Risiart III yn naroganau cyfnod Rhyfel y Rhosynnau, gw. HSt 156, 158, 159.
- 85 **Gŵyl Lug** Gŵyl Luc yr Efengylwr. Digwydd yr ŵyl hon ar 18 Hydref.
- 86 **gwennol hir** Defnyddid y 'wennol' yn symbol am Owain Tudur ac, yn dilyn ei farwolaeth, am ei fab Siasbar, gw. DWH i, 117, 'The swallow was a favourite name for Owain Tudur in prophetic poetry, and it was occasionally used in respect of other members of the family, and the future Henry VII was referred to in poetry as *cyw'r wennol* ... It has been suggested that as swallows were represented in heraldry as being without legs, the use of the term for Owain Tudur referred to his being without lands ... In spite of the suggestion ... it is doubtful whether these martlets (an heraldic representation of the swallow) had any symbolic meaning. They were a charge frequently used in heraldry, especially to difference a coat of arms'. Gw. ymhellach LGCD 121 ac E.D. Jones, *Beirdd y Bymthegfed Ganrif a'u Cefndir* (Aberystwyth, 1982), 21.
- 87–8 **Oen ... / Â thafod aur** Cyfeiriad at y 'Broffwydoliaeth Fer', lle y mae Arthur yn holi Myrddin am frenhinoedd Ynys y Cedyrn, gw. R. Wallis Evans, 'Y "Broffwydoliaeth Fawr" a'r "Broffwydoliaeth Fer"', B xxii (1966–8), 119–21. Y mae'r *oen o gaer bynt a thafod aur iddaw* yn un o'r brenhinoedd a enwir ganddo, gw. *ib.* 120 ac EVW 202. Ffurfer ydyw ar 'Broffwydoliaeth y Chwe Brenin i ddilyn y Brenin John'; ar y broffwydoliaeth honno, gw. isod 6.79–90n.
- 89 **nodau** Cymerir mai 'arwyddion' yw ei ystyr yma, ond y mae'n bosibl hefyd mai *nod* yn golygu 'pla, haint', &c., yw'r ffurf, gw. GPC 2588 d.g. *nod*<sup>2</sup>, a bod y bardd yn lleisio syniad cyffredin yn y canu brud fod adferiad (*gwanwyn*) i ddilyn caledi.
- 90 **gwyn hen** Ceir cyfeiriad at yr *hen gwyn* yn BD 107 (llau. 12–15), *Odyna yd ymchuelant y kiwdavtwyr y'r enys, canys aball yr estravn genedyl a dvyrrhaa. Er hen gynynn ar uarch guelvn yn diheu a drossa auon*



*Perydon, ac a guialen wen a uessur melin arnei.* Noder hefyd y cyfeiriad at Owain Glyndŵr fel yr *Hen Gwyn* yn GLGC 410 (187.18).

## 2

Cywydd gofyn march i Rosier Fychan o Dretŵr, Ystrad Yw, plwyf Llanfihangel Cwm Du, Brycheiniog, yw hwn. Ynndo y mae'r bardd yn gweithredu fel cyfryngwr ymwybodol rhwng y gwrthrych a'r eirchiad, sef Morys Fychan. Gall mai'r un Morys yw hwn â'r eirchiad mewn cywydd gan Ddafydd Llwyd o Fathafarn i erchi pais i Watcyn Fychan o Hergest.<sup>1</sup> Dywedir ei fod yn ewythr i Watcyn Fychan, sef Watcyn ap Tomas ap Rhosier Fychan (Brodorddyn) ap Rhosier Hen, *Morys arswyodus ydwyf, / Nid aeth o'r ach, d'ewythr wyf.*<sup>2</sup> Y mae'n debyg, felly, ei fod yn fab i Rosier Fychan (Brodorddyn) er nas crybwyllir yn achau P.C. Bartrum. Yn aml canai bardd gywydd gofyn dros un perthynas i berthynas arall.<sup>3</sup>

Yr oedd Rhosier yn Iorciad selog ac yn ŵr o gryn ddyllanwad yn wleidyddol.<sup>4</sup> Yn yr agoriad (llau. 9–14) molir ef yn arbennig fel olynydd i'w dad, Rhosier Fychan (Brodorddyn), a fu'n ymladd ar ran Harri V yn Ffrainc ynghyd â'i dad yng nghyfraith enwog, Syr Dafi Gam, yn ystod y Rhyfel Can Mlynedd. Gan fod llinell 72 yn cyfeirio at ail wraig Rhosier Fychan, Margred ferch James Touchet, Arglwydd Audley, gellir barnu fod y cywydd yn perthyn i'r cyfnod rhwng 17 Rhagfyr 1466, pan fu farw ei gŵr cyntaf,<sup>5</sup> a 1471 pan ddiennyddiwyd Rhosier gan Siasbar Tudur yng nghastell Casgwent. Y mae llinellau 15–16 yn awgrymu ymhellach i'r cywydd gael ei ganu rhwng 3 Hydref 1470 a 11 Ebrill 1471 pan adferwyd Harri VI i'r orsedd, *Aros awr o ras Harri / I euro'i fab [sc. Rhosier] yr wyf i.*

Tua chwarter llinellau'r cywydd yn unig sy'n cynnwys elfen o frud, a hwnnw'n frudio amhenodol lle y cyferchir Rhosier fel mab darogan gan gyfeirio at ei dad yn y dull Sibylaidd (ll. 10) a chan restru cyfres o arwyddion a motiffau brudiol traddodiadol: *draig wen heb garennnydd* (ll. 25), *Manaw'n dân* (ll. 26), *Terfysgwr o'r dŵr y daw* (ll. 27), *ffin Wyddelig* (ll. 29), *Y ddau Fyrddin* (ll. 40). Teimlir mai elfen eilradd i'r mawl yw'r brudio yma.

- 1 **eryr** Disgrifir yr arwr ag epithetau sy'n deillio o gyfnod y Cynfeirdd. Gw. hefyd 3.51n isod.

<sup>1</sup> GDLI 104–5 (cerdd 45).

<sup>2</sup> *Ib.* 104 (45.24–5).

<sup>3</sup> Ymhellach ar y cywydd gofyn, gw. Bleddyn Owen Huws, 'Golwg ar y cywydd gofyn', YB xxi (1996), 37–50.

<sup>4</sup> Am y swyddi y bu'n eu dal, gw. ByCy 940.

<sup>5</sup> Gw. ByCy 940.

- 2 **am gyw eurwalch** Dyma gyfeiriad at Syr Rosier Fychan, Tretŵr, Ystrad Yw, plwyf Llanfihangel Cwm Du, Brycheiniog, gw. ByCy 940. Yr *eurwalch* oedd ei dad, sef Rhosier Fychan (Brodorddyn) ap Rhosier Hen. Gw. hefyd R. Wallis Evans yn GWL ii, 289.  
Twyll gynghanedd *b*.
- 3 **Rhosier** Syr Rhosier. Gw. y nodyn cefndir uchod.
- 4 Defnyddia'r bardd y fformwla arferol, sef nodi dau begwn eithaf i ddangos pa mor bell y lledaenwyd y sôn am weithredoedd dewr Rhosier.
- 6 **Cleirwy** Sefydlydd Fychaniaid Cleirwy oedd Rhosier Fychan ap Tomas ap Rhosier Fychan (Brodorddyn), sef nai Rhosier Fychan, Tretŵr, gw. ByCy 933. Y mae'n debygol i Gleirwy fod ym meddiant yr ewythr ar un cyfnod.
- 7 **dy dad, a thi** Cyfeiria'r bardd at Rosier fel olynnydd i'w dad.
- 8 Yr oedd Rhosier yn ŵr amlwg yn wleidyddol, gw. ByCy 940 lle y dywedir iddo ddal swyddi 'porthor castell Bronllys, fforestwr Cantreselyf, stiward a rhysyfwr arglwyddiaeth Cantreselyf, Pencelli, Alexanderston, a Llangoed' yn 1461. Nodir ymhellach y bu iddo hefyd 'ran flaenllaw mewn tawelu gwrthryfel yng ngorllewin Cymru yn 1465, a chafodd faenorau a stadau'r gwrthryfelwyr yng Ngŵyr a Chydweli'. O ystyried dyddiad posibl cyfansoddi'r gerdd, gall fod y bardd yn cyfeirio at y digwyddiadau hyn yma.  
Camosodiad *r.r.th = th.r*.
- 9–14 Oherwydd amser y f., cesglir bod y tri chwpled hyn yn cyfeirio'n ôl at weithgarwch milwrol Rhosier Fychan (Brodorddyn).
- 10 **llew ac R goch** Y mae *llew* yn drosiad teilwng ar gyfer disgrifio Rhosier fel milwr dewr. Yn y ll. hon cofnodir enw'r arwr yn ôl y dull Sibylaidd, gw. 1.25n.  
14 *r wreiddgoll*.
- 15–16 **Aros awr o ras Harri / ... wyf i** Cwpled anodd i'w ddehongli. Yn ôl ByCy 940, bu Rhosier yn briod â'i ail wraig Margred (y cyfeirir ati yn llau. 69–76) rywbryd yn ystod y cyfnod rhwng 17 Rhagfyr 1466, wedi marwolaeth ei gŵr cyntaf hithau, a 1471 pan ddiennyddiwyd ef gan Siasbar Tudur yng nghastell Cas-gwent. Os yw'r dyddiadau hyn yn gywir yna byddai'n rhaid i'r cywydd berthyn i'r cyfnod byr rhwng 3 Hydref 1470 a 11 Ebrill 1471 pan adferwyd Harri VI i'r orsedd. Cofier mai Iorciaid selog oedd y Fychaniaid er i Rosier dderbyn pardwn gan senedd Coventry yn 1457, gw. ByCy *l.c*.
- 16 **i euro'i fab** Disgwyliad i'r f. *euro* gyfeirio at 'urddo'n farchog', gw. GPC 1257, ond os yw tystiolaeth ByCy *l.c*. ynglŷn â phriodas Rhosier

yn gywir, yr oedd eisoes wedi ei urddo'n farchog erbyn 23 Mawrth 1465, felly rhaid cymryd mai 'anrhegu ag aur' a olygir yma. Awgryma llau. 19–20 ymhellach ei fod eisoes yn farchog.

- 17 Y mae'r ll. hon yn cyfeirio at Rosier Fychan (Brodorddyn).
- 18 **cywion milwr** Dyma drosiad am ddisgynyddion Rhosier Fychan (Brodorddyn), cf. llau. 1–2 uchod. Fel milwr bu'n ymladd yn ystod y Rhyfel Can Mlynedd ar ran Harri V yn Ffrainc ynghyd â'i dad yng nghyfraith, yr enwog Syr Dafydd Gam neu Dafî Gam. Fe'i lladdwyd ym Mrwydr Agincourt yn 1415, gw. ByCy 932. Am rai traddodiadau poblogaidd ynglŷn â dewrder Rhosier a'i gyd-filwyr yn Ffrainc a fyddai'n hysbys i Ddafydd Gorlech, gw. R.W. Morgan, *Hanes y Cymry* (Rhuthun, 1858), 234–5.
- 19 **euro'r brig** Cyfeiriad posibl at urddo Rhosier Fychan o Dretwâr yn farchog.
- 20 **Moreiddig** Yr oedd Moreiddig Warwyn yn un o gyndadau'r Fychaniaid.
- 21–2 **tarian ... / Tair neidr** Dyma ddisgrifiad o arfbais Moreiddig Warwyn a ddefnyddid gan y Fychaniaid. Gw. DWH i, 95, 'Sable, three boys' heads couped at the shoulder, either Argent or proper, sometimes crined Or, a serpent Vert about each one's neck. The serpents are sometimes described as being *ureith las* or spotted blue'. Yr oedd y darian hefyd yn perthyn i'r arfbais.
- tëyrn o Idwal** Gallai hwn fod yn gyfeiriad at Idwal Iwrch (gw. EWGT 95) sef mab Cadwaladr Fendigaid, y brenin olaf o blith y Brytaniaid i lywodraethu ar Ynys Prydain yn ôl yr 'Historia Regum Britanniae'. Yn ôl y traddodiad brudiol, credid mai un o'i ddisgynyddion ef a ddeuai i reoli Ynys Prydain ar ran y Brytaniaid eto yn yr *amser tyghetuenavl*, gw. BD 207 (ll. 1). O ganlyniad i'r gred hon, daeth yn arfer llunio achau ffug er mwyn olrhain cysylltiad teuluol ag ef. Posibilrwydd arall yw mai cyfeirio a wneir at Idwal ab Owain Gwynedd.
- 25 **draig wen** Dyma gyfeiriad at ddarogan y dreigiau neu'r *vermes*, sef y broffwydoliaeth wleidyddol frodorol gyntaf a gadwyd ar glawr ac a fenthycodd Sieffre o Fynwy o'r 'Historia Brittonum'. Wedi i seiliau'r gaer yr oedd Gwrtheyrn yn ceisio'i hadeiladu ddiplannu erbyn bore trannoeth, BD 100 (llau. 24–7), datgela Myrddin fod llyn islaw'r gaer a draig wen yr *hon a arvydocaa y Saesson* a draig goch *a arvydocaa kenedyl y Brytannyeit* yn ymladd yno, *ib.* 104 (llau. 2, 3). Er mai'r ddraig wen sy'n fuddugoliaethus ar y cychwyn, fe atgyfnertha'r ddraig goch a'i churo. *En y diwed y racrymhaa y gywarsangedic, ac y dywalder yr estronyon y gvrthvynepa, ib.* 104 (llau. 7–8).

- 26 **Manaw'n dân** Y mae 'tân ym Manaw' yn un o'r arwyddion brudiol, gw. HSt 156 a EVW 155, 173 am ddyfyniadau sy'n cysylltu llynges ar fôr â Manaw ac *ib.* 100, 177 am broffwydoliaethau sy'n cysylltu'r mab darogan â Manaw.
- 27 **Terfysgwr o'r dŵr y daw** Y mae'r motiff hwn yn gyffredin yn y canu darogan.
- 28 **trwy'r North** 'Gwŷr y Nordd' oedd yr enw a roddwyd ar drigolion Lloegr 'i'r gogledd o Afon Trent. Cawsant enw drwg am eu hymddygiad mewn ymgyrchoedd tua Llundain', LGCD 125. Defnyddid y term 'gwŷr y Nordd' am Saeson yn gyffredinol yn y daroganau, GDLI 195.
- traean** Tybed ai cyfeiriad sydd yma at y Traean yn arglwyddiaeth Croesoswallt? Gw. *Gwaith Huw Ceiriog ac Edward Maelor*, gol. Huw Ceiriog Jones (Caerdydd, 1990), 184.
- 29 **ffin Wyddelig** Un arall o'r arwyddion brudiol, cf. 'dwyn arian gwŷr Manaw', HSt 156. Ceir mynych sôn am y Gwyddyl yn y proffwydoliaethau megis y cyfeiriad at *ryfel y Gwyddel (gwyllt)*, GDLI 59 (19.31), 100 (43.14), *llosg Ddulyn, ib.* 39 (8.67) a 'dyfod o'r Gwyddyl dros y môr', HSt 156.
- 30 **brân hoff** Yn y cywyddau brud fe saif y frân am un o linach Dinefwr oherwydd mai tair brân oedd arwydd herodrol y teulu, gw. GDLI 105–7 (cerdd 46) a HSt 162. 'Priodolid y brain gan draddodiad i Owain ab Urien a oedd yn byw ganrifoedd cyn bod cyfundrefn arfbeisiau etifeddol', LGCD 117.
- 32 **rhyfelen'** Nid yw'r ffurf ferfol hon yn hollol foddhaol yma. Tybed a yw darlleniad llsgr. A, *Rfelen*, yn cuddio'r enw lle Rhiw Felen, sef enw ar riw ger Abaty Glyn y Groes, Llangollen? Gw. GLM 483, a cf. y nodyn ar *traean*, uchod ll. 28n.
- 33 *fled-lafarog*.
- 34 *r wreiddgoll*.
- 35 **y wadd** Saif cyfeiriad penodol at y wadd am Risiart III fel arfer yn y cywyddau brud, gw. 1.84n, ond y mae cyfnod y cywydd hwn yn rhy gynnar i hynny. Ceir sôn am y *6add veltigedig* yn 'Y Broffwydoliaeth Fer', gw. R. Wallis Evans, 'Y "Broffwydoliaeth Fawr" a'r "Broffwydoliaeth Fer"', B xxii (1966–8), 119–21. Dichon mai enw am y gelyn ydyw yma.
- 37 **A dygyfor dros fôr fydd** Gw. ll. 27n.
- 39 **llew melyn** Rhestrir y 'llew melyn' fel un o'r enwau ar yr arwr gan R. Wallis Evans yn GWL ii, 289. Hwyrach fod yr enw yn deillio o faner Owain Glyndŵr.

- bryn brad** Cyfeiriad posibl at Fryn y Tŵr (*Tower Hill*) yn Llundain lle yr arferid dienyddio gelynyon y Goron. Yr oedd y cof am arddangos pen Llywelyn ap Gruffudd ar y Tŵr Gwyn a'r traddodiadau ynghylch hynny yn fyw iawn yn ymwybyddiaeth genedlaethol beirdd a haneswyr am ganrifoedd, gw. J.B. Smith: LlaG 383–4.
- 40 **y ddau Fyrddin** Y Myrddin cyntaf oedd Myrddin Wyllt, y bardd honedig o'r 7g. y datblygodd chwedl yn ei gylch y ceir olion ohoni yng 'Nghylch Myrddin', gw. A.O.H. Jarman yn AH 326–49. Gw. hefyd *id.*, 'A oedd Myrddin yn fardd hanesyddol?', SC x/xi (1975–6), 182–97. Creadigaeth Sieffre o Fynwy oedd yr ail Fyrddin. Dyma'r enw a roddodd ar *Ambrosius* yr 'Historia Brittonum' pan fenthycodd yr hanes am ddarogan y dreigiau. Y mae'n debyg nad oedd Sieffre yn ymwybodol o hanes y Myrddin gwreiddiol pan ysgrifennodd yr 'Historia Regum Britanniae', ond yn ddiweddarach ceisiodd uno'r ddau Fyrddin fel *Merlinus Ambrosius* yn y 'Vita Merlini', gw. *The Arthur of the Welsh*, ed. Rachel Bromwich, A.O.H. Jarman & Brynley F. Roberts (Cardiff, 1991), 135–6. Fodd bynnag, sonia'r beirdd am 'ddau Fyrddin', cf. L. Thorpe, *Gerald of Wales, The Journey through Wales and The Description of Wales* (Harmondsworth, 1978), 192.
- 42 **I ddwy riain ddireiol** Y mae'n debyg fod hwn yn arwydd brudiol o'r un natur â 'rhyfel am gŵyn rhiain', HSt 156.
- 43 **Yn Syr Rhosier wrth Ferwig** Dyma gyfeiriad at urddo Rhosier Fychan yn farchog. Berwig, neu Berwick-upon-Tweed, oedd y pwynt mwyaf gogleddol ar arfordir dwyreiniol Lloegr. Bu'n eiddo i'r Alban ar un cyfnod a bu brwydro cyson yn y cyffiniau. Yn GDLI 194 y mae W. Leslie Richards yn dyfynnu W.J. Gruffydd, 'Berwick is often used by the Welsh poets to denote the utmost boundary of England'.
- 47 **Morys Fychan** Gw. nodyn cefndir uchod.
- 47–8 **heb annerch. / ... ni'm câr merch** Cf. geiriau Llywarch Hen yn 'Cân yr Henwr', CLIH 9 (II.3c, 5c, 6c).
- 51 **gŵr uwch eirw** Sylwer nad oes treigladd meddal i e. yn dilyn *uwch* fel rheol, gw. Treigladau 401–2. Gellid diwygio'r darlleniad yn *gŵr uwch Arwy*, a'i ddeall yn gyfeiriad at afon 'sy'n ffurfio'r rhan o'r ffin rhwng siroedd Maesyfed a Henffordd', gw. LGCD 136.
- 52 **y Fâl** Cf. uchod 1.42n.
- 53 **hyd hydd** Defnyddiai'r beirdd yr hydd fel safon hirhoedledd. Yn aml dymument 'deiroes hydd' i'r uchelwyr.  
*n wreiddgoll.*
- 64 *f*led-lafarog.
- 69 **merch pennaeth** Yr oedd Margred, ail wraig Rhosier Fychan (ll. 72) yn ferch i James Touchet, Arglwydd Audley, gw. ByCy 940.

70 Camosodiad *r.ch = ch.r.*

72 **Margred** Gw ll. 69n.

## 3

Er bod agoriad y cywydd hwn yn dywyll ac yn amwys gellir dyfalu mai brud o fewn ffrâm y cywydd serch ydoedd yn wreiddiol oherwydd digwydd thema clafychu'r carwr gwrthodedig yn llinellau 9–18.<sup>1</sup> Yng nghwpled agoriadol y gerdd y mae'r bardd yn ei uniaethu ei hun â Myrddin Wyllt a enciliodd i'r goedwig yn ei orffwylltra. Diddorol yw nodi y cyfeirir at Fyrdin yntau fel carwr ac fel proffwyd ym marddoniaeth y cyfnod.<sup>2</sup> Y mae cyfran helaeth o'r cywydd, sef tua deuparth ohono, yn frud, ond y mae posibilrwydd cryf i rai o'r llinellau agoriadol fynd ar goll. Nododd W. Leslie Richards fel y bu i'r dyfalu yn y cywyddau brud ar ffurf cywyddau gofyn a chywyddau ymddiddan rhwng bardd a gwrthrych ddatblygu'n elfen eilradd yn ôl diddordeb yr oes.<sup>3</sup>

Ceir yn llinellau 39–48 fydryddiad o 'Broffwydoliaeth y Wennol', ac y mae'r tebygrwydd geiriol rhwng y cywydd a'r broffwydoliaeth yn drawiadol. Ceir yma hefyd gyfeiriad at fath arbennig o broffwydoliaeth sy'n ymwneud â disiau (ll. 32) ac o bosibl at yr angel a broffwydodd wrth Gadwaladr Fendigaid ynglŷn â'r Brytaniaid yn adennill Ynys Prydain yn 'Brut y Brenhinedd' (ll. 59).

Yn y cwpled olaf crybwyllir Siasbar Tudur, sef 'ych' y cywyddau brud. Ond ceir yn y cywydd hefyd gyfeiriadau at gymeriadau eraill y cysylltir eu henwau â Rhyfeloedd y Rhosynnau, er enghraifft, *Un ci ifanc yn cyfarth / A ffon rag a phen yr arth* (llau. 21–2), sef Syr John Lovell a Richard Neville, Iarll Warwig (*ob.* 1471), yn ogystal â Syr Rhys (ll. 6). Y mae'r cyfeiriad olaf hwn yn peri anhawster wrth ddyddio'r cywydd oherwydd y mae'n hynod o debygol mai am Syr Rhys ap Tomas o Abermarlais y mae'r bardd yn sôn, ac ni chafodd ef ei urddo'n farchog hyd 1485 ar ôl Brwydr Bosworth.<sup>4</sup> Gall fod y bardd yn sôn am ddigwyddiadau yn y gorffennol er mwyn rhoi hygrededd i'w ddarogan:<sup>5</sup> yr oedd hyn yn arfer cyffredin yn y cerddi darogan cynnar. Ond gall fod y darlleniad yn wallus neu gall fod yma linellau crwydr. Sylwer nad yw llinellau 5–8, lle y crybwyllir *Syr Rhys*, yn ymwneud â thema serch a'r carwr gwrthodedig. Fodd bynnag y mae cymhlethdodau o'r fath yn nodweddiadol o'r cywyddau brud.

<sup>1</sup> Trafodir y math hwn o gywydd gan W. Leslie Richards yn 'Cywyddau Brud Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafam', *LlCy* ii (1952–3), 251–3.

<sup>2</sup> Gw. TYP<sup>2</sup> 474.

<sup>3</sup> W. Leslie Richards, *art.cit.* 253.

<sup>4</sup> Gw. H.T. Evans, *Wales and the Wars of the Roses* (Cambridge, 1915), 227.

<sup>5</sup> Cf. GDLI 25 (1.9).

- 1 **yn wŷdd** Onid yw'r bardd yn ei uniaethu ei hun â Myrddin Wylt, efallai ei fod yn cyfeirio at fynd ar herw. O blaid y cynnig cyntaf y mae'r enw *llamhidydd* (ll. 2) sy'n medru golygu 'neidiwr' (GPC 2093), oherwydd awgrymir o bosibl fod y bardd yn orffwyll fel Myrddin yntau yn y chwedl.
- 3–4 Y mae'r llau. hyn yn ogystal â llau. 11–18 isod yn awgrymu bod rhan o'r cywydd yn cyfeirio at helyntion carwriaethol y bardd. Yr oedd clafychu'r bardd fel carwr gwrthodedig (llau. 9–14) yn dopos yn y cywyddau serch.
- 6 **Syr Rhys** Ar y cyfeiriad tebygol hwn at Syr Rhys ap Tomas o Abermarlais, gw. y nodyn cefndir. Y mae'n bosibl hefyd fod y copiwr wedi newid *fy Rhys*, darlleniad llsg. C, yn *Syr Rhys*, yn ddiweddarach.
- 10 *f*led-lafarog.
- 21 **un ci ifanc** Dyma gyfeiriad at Syr John Lovell, gw. Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caernarfon, 1981), 26. Cf. y cwpled canlynol o waith William Collyngbourne, *The Cat, the Rat and Lovel our dog / Rule all England under a hog*, a ddyfynnir gan G.A. Williams yn 'The Bardic Road to Bosworth: A Welsh View of Henry Tudor', THSC, 1986, 16.
- 22 **a ffon rag a phen yr arth** GGI<sup>2</sup> 341 'Y "ragged staff", a'r Arth oedd arwyddion Warwic', cf. *ib.* 147 (LV.17–18) *Ni ddug ef pan oedd gyfarth, / Na ffon rag, na phen yr arth*. Gw. ymhellach GDL1 194, lle y nodir y gelwid 'Richard Neville, Iarll Warwig (1428–71) yn "King Maker". Bu'n foddion i osod Edward IV ar yr orsedd yn 1461, ac i edfryd Harri VI yn 1470 ... efe oedd yn gyfrifol i raddau helaeth am frwydr Banbri. Fe'i lladdwyd ym mrwydr Barnet'. Cf. hefyd 1.9–10n.
- 29 **lleuad** Gw. hefyd 1.37n ar *lloer*. Ceir cyfeiriad at y lleuad fel delwedd yn y 'Vita Merlini', gw. LM 133. Ym 'Mhroffwydoliaeth y Lili', gw. R. Wallis Evans, 'Proffwydoliaeth y Fflwrddelis', B xxi (1964–6), 328, sonnir am *vab y dyn*, sef brenin Lloegr, yn hanfod o 'dir y lleuad' sef Cymru, Lloegr ac Iwerddon. Nodir yn R. Wallis Evans: Dar 88 mai Lloegr oedd 'tir y lleuad' yn naroganau oes Edward III ac *ib.* 110 nodir y gall mai cyfeiriad at Risiart III sydd yma. Ond rhestrir 'lloer' fel un o'r enwau am yr arwr yn GWL ii, 289; gw. hefyd R. Wallis Evans: Dar 110 sy'n sôn am y 'lleuad aur' fel enw ar y mab darogan.
- tylluan** Cynigiwyd mai Rhisiart III yw'r dylluan yn y cywydd hwn yn R. Wallis Evans: Dar 106.
- 30 **blaidd ... brân** Dyma ddau o'r enwau a gysylltir â 'Phroffwydoliaeth y Wennol' y mae'r bardd yn cyfeirio ati yn llau. 39–48 isod.
- 31 **y wiber hir** Gall y wiber fod yn enw penodol ar un o'r Herbertiaid, gw. R. Wallis Evans: Dar 109. Yr oedd y wiber werdd yn un o grestiau'r

Herbertiaid, gw. DWH i, 169 *Gwiber werdd, enwer, rhag pob rryw annonn, / A braich gwr gwaedlyd, gorywch bronn ddeay, / Mae yn i genav, or gwir y ganonn.* Ond rhestrir *gwiber hefyd* yn un o'r enwau ar y mab darogan gan R. Wallis Evans yn GWL ii, 289.

Mae 8 sillaf yn y ll. hon.

- 32 **asau** Ar *asau*, ffurf l. *as*, gw. GPC 219 d.g. *as*<sup>5</sup>. Yn *The Political Prophecy in England* (New York, 1911), 115, cyfeiria Rupert Taylor at fath arbennig o broffwydoliaeth sy'n ymwneud â disiau; gw. hefyd R. Wallis Evans, 'Proffwydoliaeth y Disiau', B xxi (1964–6), 324–6. Ond ym 'Mhroffwydoliaeth y Wennol' yn W. Leslie Richards, 'Cywyddau Brud Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn', LICy ii (1952–3), 244, sonnir am 'fwrw dis' a 'bwriad ei ddisiau'. Gall y cyfeiriad hwn fod yn berthnasol o ystyried y cyfeirio helaeth at y broffwydoliaeth hon a ddigwydd yn y gerdd.

*n wreiddgoll.*

- 33 **llew gwyn iawn lliw ei gnu** Gw. R. Wallis Evans yn GWL ii, 289 sy'n nodi bod y *llew gwyn* yn enw am y gwron. Mewn achosion penodol gallai gyfeirio at un o'r Herbertiaid. Disgrifir eu harfau yn J.E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 311, 'Herbert's per pale *Az. and Gu. 3 lions salient Arg*'. Dyma *llew gwyn* Godwin fab Elfrid y credid bod yr Herbertiaid yn disgyn ohono. Gw. LGC 77.

- 37 **bugelydd** Un o'r arwyddion brudiol, y mae'n debyg. Cyfeirir at fugail mewn cyd-destun gelyniaethus yn y 'Vita Merlini', gw. LM 133.

- 39–40 **Aros cwnsel chwe gelyn / ... a chranc** Cf. W. Leslie Richards, *art.cit.* 244, *Yna y cyfyd yn erbyn y wennol lewpart, a chath, a ffwlbert, a baedd, ac eryr, ac arth drwy gyngor y cranc.* Sylwer nad ydyw'r 'w'ydd' yn cael ei henwi yn y fersiwn hwn o'r broffwydoliaeth. Tybed ai llygriad ar *gwadd* sy'n ymddangos yn y broffwydoliaeth sydd yma? Cf. GDL1 99 (42.21–30) *Saith enw a wna saethu nod, / Siasoedd yn y maes isod. / Llewpart, bydd llai o'i hepil, / Ac arth fawr, ac wrth[i] fil. / Yr eryr drud a wna'r drin, / A ba[e]dd a ddaw â byddin, / A ffwlbert a gaiff eilbais, / A'r gath a ddigwydd ar gais. / Drwy granc creulon, estronol / Saeson a wna sias yn ôl.*

- 39–48 Y mae'r llau. hyn yn fydryddiad o 'Broffwydoliaeth y Wennol', gw. W. Leslie Richards, *art.cit.* 224–5, ac R. Wallis Evans, 'Daroganau', B ix (1937–9), 314–17.

- 41–2 Cf. R. Wallis Evans, *art.cit.* 315, *Rhybudd dirgel a gaiff y wennol gan ei haderyn bran ...*

- 43–4 Cf. *ib.* *Bwriadau a thwyll a brad drwy hir o gwnsel a byr o rybudd a amcenir iddo a'r darlleniad amrywiol; bradau mynych a fwriedir iddo,*



*cwnsel godywyll drwy hir fwriadau a wneir ef a gaiff rybudd rhagddo yr hyn a wnelir yn Lloegr.* Y mae'r tebygrwydd geiriol hwn rhwng y cywydd a'r broffwydoliaeth yn ddiddorol. Awgryma fod y cywydd yn ei ffurf bresennol yn dibynnu ar y broffwydoliaeth neu fod ffynhonnell gyffredin i'r ddau. Gw. hefyd *ib.* 314–15 *Ym mol y llewes y ceir mab dall yr hwn a enir yn ap ac a fegir yn wadd a'r gweithredoedd gwenwynig a beri yn Ynys Brydain tra parhao cyfraith y canolfyd.*

45 **anfon perl a wna merliwn** Cf. *ib.* 315 *Rhybudd dirgel a gaiff y wennol gan ei haderyn bran a thywysog yr offeiriad o ben aderyn merliwns.*

48 **y gath hen** Cf. llau. 39–40n.

49 **lleuad** Gw. ll. 29n.

51 **gwiber** Cf. ll. 31n.

**eryr** Dyma un o'r anifeiliaid y cyfeirir ato ym 'Mhroffwydoliaeth y Wennol'. Enw ar y gwron ydyw, gw. R. Wallis Evans, *art.cit.* 315.

52 **llawn gwaed** Yr oedd cyfeiriadau at frwydro ffyrnig yn arferol yn y cywyddau brud.

**tylluan** Gw. ll. 29n. Y mae'n sicr mai enw ar y gelyn ydyw yma.

57 **ar hed** Tybed ai 'ar ffo' a olygir yma?

58 **Llwyn Daned** Crybwyllir *llwyn Danet* ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin', BD 110 (ll. 5). Cynnig Henry Lewis yn betrus mai *Fforest y Dena* a olygir yma, gw. *ib.* 257. Gw. hefyd Arm P 31 lle y sonnir am Ynys Thanet yn dod i feddiant y Saeson trwy dwyll. Gw. BD 97 (ll. 3) a 150 (ll. 6) am gyfeiriadau pellach at y fan.

59 **angel** Dyma gyfeiriad o bosibl at yr angel a broffwydodd wrth Gadwaladr Fendigaid, brenin olaf y Brytaniaid, ynglŷn â'r Brytaniaid yn adennill Ynys Prydain yn yr *amser tyghetuenavl*, gw. BD 207 (ll. 1).

60 **wyth llais** Y mae'n debyg fod hwn yn gyfeiriad at yr wyth enw ar y mab darogan ym 'Mhroffwydoliaeth y Wennol', sef *llew, tarw, blaidd, oen, ych, lincs, gwennol, ceiliog y Brytaniaid*, R. Wallis Evans, *art.cit.* 315. Ymddengys fod y bardd yn disgwyl i'r mab darogan dirio gan wireddu proffwydoliaeth yr angel.

61 **yr ych** Dyma'r enw a roddir ar Siasbar Tudur, Iarll Penfro, yn y cywyddau brud, gw. R. Wallis Evans, 'I Gyfeiriad Maes Bosworth', *Taliesin*, 55, (1986), 26.

62 **aredig** Defnyddir y f. yn drosiadol i olygu 'paratoi'. Cf. y defnydd o'r f. *hau* uchod 1.2, 90.

Cychwyn y cywydd hwn fel moliant i herwr cyn ymroi i frudio pur. Lleoliad y gerdd ydyw'r Graig Lwyd, sef Craig Llanymynaich ar y ffin rhwng Powys a swydd Amwythig, cyrchfan boblogaidd i herwyr. Y mae elfen o edmygedd yn y gerdd sy'n nodwedd arferol yn y cywyddau sy'n moli herwyr ond, er hynny, edmygedd gochelgar sydd yma ar y cyfan a threwir dau dant drwy sôn yn ogystal am anghysuron a pheryglon bywyd herwr. Gwelwn fod y bardd yntau'n cyfranogi o anghysur y profiad hwn sy'n ei rwystro rhag arfer ei grefft yn gyhoeddus (llau. 19–20). Cymhara ei drigfan, yn goeglyd, â pharadwys Gardd Eden ac fe'i huniaetha ei hun â'r proffwyd Eliás (ll. 33), â Daniel (ll. 77) ac â *Mab diddawn ... Forfryn* (llau. 35–6). Â'r bardd rhagddo i broffwydo ynglŷn â nifer o arwyddion brudiol megis *Gwers yr âb* (ll. 40) y cyfeirir ati hefyd gan Uto'r Glyn (gw. y nodyn isod), *Gaea' gwynnog* (ll. 41), *Haf da brwd* (ll. 42), *eira Wyl Ieuan* (ll. 68), *Glaw nos Iau gelyn y Sais* (ll. 70). Crybwyllir 'y forwyn o'r Llwyn Llwyd' (llau. 61–2), ceir peth cyfeiriadaeth at yr anifeiliaid ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin' a sonnir am y chwedl sy'n adrodd tarddiad anrhydeddus Dardan fab Zeus (ll. 60).

Y mae'n debygol fod y cywydd hwn yn perthyn i gyfnod teyrnasiad Rhisiart III, sef 1483–5, a gall mai cyfeiriad dilornus ato sydd yn llinellau 55–6. Sonnir am *un â'r ing am nai'r ych* (ll. 65), sef Harri Tudur, ac os felly dichon mai cyfeiriad at Rys ap Tomas o Abermarlais sydd yn llinellau 71–2.

4 **Elfael** Dyma un o gantrefi de Powys yn Rhwng Gwy a Hafren. Cynhwysai ddau gwmwd, sef Is Mynydd ac Uwch Mynydd, gw. WATU 66. Ni wyddys pwy y'r *Wil* y cyfeirir ato yn y ll. hon.

5–6 Dyma drosiad am y noddwr sy'n hanfod o linach ganmoladwy. Y mae'n debyg fod y bardd yn cyfeirio at allu milwrol y gwrthrych drwy enwi'r arfau a gysylltir yn draddodiadol â herwyr, sef bwa a saeth.

9 *n wreiddgoll.*

11–12 Yn ôl y Gyfraith Gymreig, a oedd yn dal i gael ei gweithredu mewn rhai mannau yng Nghymru, yr oedd cynnig iawndal yn dderbyniol yn hytrach na dioddef y gosb eithaf mewn achosion o ddynladdiad. Yn yr achos hwn, gan nad ydyw'r gwrthrych wedi derbyn ei gosb, y mae'n mynd yn herwr, sy'n golygu ei fod y tu hwnt i nawdd y gyfraith. Gw. y diffiniad o herwriaeth a ddyfynnir gan Enid Roberts yn 'Dafydd Llwyd o Fathafarn a'i gefndir', *Traeth xxxiii* (1965), 58, 'The process of putting a person out of the protection of the law; a punishment for contemptuously refusing to appear when called in court, or evading justice by disappearing'.

- 13 *n wreiddgoll.*
- 15 **neuadd Adda** Yma y mae'r bardd yn goeglyd yn cymharu ei drigfan ef a'i noddwr â pharadwys Gardd Eden.  
*n wreiddgoll.*
- 20 **dirwyn twysg** Y mae'n debyg mai trosiad sydd yma am lunio cerdd, sef nyddu gwedd ei deunydd. Yr oedd hwn yn drosiad cyffredin yng ngwaith y beirdd. Bellach ni fyddai'n ddiogel i'r bardd ddatgan ei gerddi'n gyhoeddus oherwydd ei fod ar herw.
- 22 **y Bardd Glas** Bardd brudiol o'r 14g. y cyfeirir ato yn y cywyddau brud oedd y Bardd Glas, gw. HSt 152 a GDLI 195. Y mae'n debyg fod yma gyfeiriad at un o'r arwyddion yn ymwneud â thywydd mewn proffwydoliaeth o'i eiddo.
- 26 **Ond ei hen ŵn dau hanner** Defnyddir y term 'macwy dau hanner' neu 'marchog dau hanner' fel enw ar y mab darogan yn y cywyddau brud, gw. HSt 162. Y mae'r cyfeiriad cynharaf at y 'macwy dau hanner' yn digwydd yn 'Cyfoesi Myrddin a Gwenddydd ei Chwaer' sef cerdd o 'Gylch Myrddin' lle y mae Myrddin yn darogan ynglŷn â brenhinoedd Cymru a Lloegr. Gw. EVW 148 ac A.O.H. Jarman: ChM 174 am drafodaeth fanwl ar darddiad yr enw.
- 28 **y Graig Lwyd** Cyfeirir at Graig Llanymynaich yn ardal y ffin rhwng Powys a swydd Amwythig, cuddfan enwog ar gyfer herwyr, gw. Enid Roberts, *art.cit.* 53, lle y nodir 'Nid yr un drefn lywodraethol oedd yn yr arglwyddiaethau goror ac yn y siroedd; ymhellach, ceid gwahaniaeth o arglwyddiaeth i arglwyddiaeth, ac yr oedd yr arglwyddi'n aml yn ddeddf iddynt eu hunain. O ganlyniad ... yr oedd cyfraith yn ansicr ac anwadal ar ffin arglwyddiaeth a sir, neu ffin arglwyddiaeth ac arglwyddiaeth, a theyrnasai anhrefn yn aml. Yr oedd y tiroedd ffin yn rhoi cyfle lloches i ddrwgweithredwyr; mewn tiroedd goror o'r fath heidiai herwyr a gwylliaid. Soniai'r beirdd am amryw gyrchfannau—Nanconwy, Ysbyty Ifan (yr oedd yno seintwar hefyd), Y Graig Lwyd (craig Llanymynaich), Cefn Digoll (*Long Mountain*), a Mawddwy'.
- 33 **Eliás** Dyma gyfeiriad at y proffwyd Eliás. Yr oedd yn arferiad gan y beirdd brud gyfeirio at broffwydi enwog yn eu gwaith.
- 34 **gaeaf glas** Y mae'n bosibl fod 'gaeaf glas' yn un o'r arwyddion brudiol, cf. GDLI 68 (24.35) *A'r gaeaf glas g'lanasfawr.*
- 36 **Morfryn hen** Mewn nodiadau gan Robert Vaughan (gw. LM 137), sonnir am farwolaeth Gwenddolau a Meibion Morfryn sef brodyr Myrddin Wyllt: Llywelyn, Gwgawn, Einiawn a Rhiwallawn. Yr oedd Morfryn, felly, yn dad i Fyrddin. Cf. R 584.5–6 *myrdin y6 vy en6 uab*

*moruryn*, ac *ib.* 581.30–1 *Canon morurynn morunet. oedyn myrdin  
urych vreisc liwet.*

*r berfeddgoll.*

- 38 **byd nos gŵyl** Ceir mynych sôn am ddisgwyl a gwyllo yn y cywyddau brud yn arbennig yn y cywyddau ymddiddan lle y mae'r bardd yn holi creadur, llyfr brud neu wrthrych arall.
- 40 **gwerau yr âb** Crybwyllir yr âb ym 'Mhroffwydoliaeth y Wennol', gw. W. Leslie Richards, 'Cywyddau Brud Dafydd Llwyd ap Llywelyn ap Gruffudd o Fathafarn', *LlCy* ii (1952–3), 244. Cf. hefyd GGI<sup>2</sup> 209 (LXXIX. 43–4) lle y gwelir rhywfaint o ddyllanwad 'Proffwydoliaeth y Wennol', *Geiriau a wnaeth hen Gyrys, / Gwersau'r âb i gorr Syr Rhys.*
- 41–2 Dyma gyfeirio at arwyddion yn ymwneud â'r tywydd sy'n un o nodweddion y canu brud, gw. 1.32n uchod. Am *gaea' gwynnog*, gw. HSt 154. Y mae'n bosibl fod *Haf da brwd* yn cyfeirio at 'yr haf hirlfelyn' sef un o'r arwyddion sy'n deillio o 'Broffwydoliaeth yr Haf Hirlfelyn' yn Pen 50 ('Y Cwta Cyfarwydd'), 300, gw. EVW 154.
- 43–4 **y forwyn deg** Dichon mai cyfeiriad brudiol sydd yma megis 'rhyfel am gŵyn rhiain', HSt 156, yn hytrach na chyfeiriad at berson penodol.
- 45 **Y bwch danas neu'r asen** Cf., o bosibl, BD 112 (llau. 9–10) *Er assen a eilw bvch hir y uaryf, a'e furyf a symut.* Ymddengys y ddau derm yn y rhestr o enwau am y mab darogan gan R. Wallis Evans yn GWL ii, 288.
- 46 **Â rhag pryf i frig y pren** Cyfeirir at 'bryf' ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin', BD 113 (llau. 8–9), *dav pryf tanavl anadyl, yr hvnn a lysc y gvyd yn y bo gvrthladedic y gvlybvr.*
- 47 **ac yn ddeuddarn** Awgryma'r ll. hon ymhellach y saif y *bwch danas* ac *asen* (ll. 45) am y mab darogan, oherwydd y gall *yn ddeuddarn* fod yn gyfeiriad at gynneddf y 'macwy dau hanner', gw. ll. 26n.
- 49 **ewin llew** Ym 'Mhroffwydoliaeth y Fflowrddelis' ceir sôn am dair ewin i'r llew du yn erbyn y baedd, gw. R. Wallis Evans, 'Proffwydoliaeth y Fflowrddelis', B xxi (1964–6), 328.
- 50–2 Gw. BD 112 (llau. 4–6) *En y dydyeu hynny y genir sarph a ymdywynnic y agheu y rei marwavl. O'e hyt ef a gylchyna Llundein, ac [a] el heibyav a lvng.*
- 55 **tri ban natur y bi** Cf. yr enw 'tarw tri natur(iaeth)' a roddir ar y mab darogan. Yr oedd tri yn un o'r rhifau ac iddo arwyddocâd arbennig i'r Celtiaid ac felly'r beirdd hefyd ac yr oedd y *Tarvos Trigaranus*, sef tarw gyda thri aderyn garan ar ei gefn, yn un o dduwiau'r Celtiaid. Ond gall fod yma gyfeiriad at y gelyn, sef Rhisiart III.
- m wreiddgoll.*

- 57–8 Gall fod yma gyfeiriad hanesyddol at Siasbar a Harri Tudur yn Llydaw yn ceisio sicrhau cefnogaeth a gwŷr ar gyfer ymgyrch yn erbyn Rhisiart III, neu gallai'r cyfeiriad fod yn un traddodiadol. Ceir mynych sôn yn y brudiau am y mab darogan yn dod o Lydaw neu am gynghrair Geltaidd yn cynnwys carfan o Lydaw.
- 60 **Dardan** Yr oedd Dardan fab Zeus yn hynafiad gwŷr Caer Droea yn ôl chwedloniaeth Roeg, gw. IGE<sup>2</sup> 391. Yr oedd y beirdd yn gyfarwydd â'r chwedl hon am darddiad y Brytaniaid a grybwyllwyd yn yr 'Historia Brittonum' ac a boblogeiddiwyd yn 'Historia Regum Britanniae' Sieffre o Fynwy. Gw. BD 3 (ll. 7)–21 (ll. 21) yn enwedig *ib.* 5 (llau. 22–6) *Brutus dywyssavc gvedyllon kenedyl Tro yn anuon annerch y Pandrasus vrenhyn Groec, a mynegy ydav nat oed teylvng ydav atal yg keythywet eglur vrenhynavl genedyl o lyn Dardan, nac eu keythyvav yn amgen noc y dylent yn herwyt eu bonhed.*
- 61–2 **Morwyn ... / O'r Llwyn Llwyd** Y mae'r 'forwyn o'r Llwyn Llwyd' yn un o gymeriadau mwyaf poblogaidd y cywyddau brud, cf. BD 109 (ll. 16)–110 (ll. 2) *En hynny y dyrcheuir morvyn o'r llwyn llvyt y rodi medeginyaeth y hynny ... Odyna nny ymyachao hitheu o yachvydav uedychlynn y kymer yn y deheu llwyn Kelydon, yn [y] hassw hagen muryoed Llundein. Pa le bynnac y kerdo hitheu cameu brvnstanavl a wna, y rei a uyccaant o deudyblyc flam. E mwc hvnnv a gyffry guyr Rodwm ac a uyd byvt y rei dan y mor. O drueinyon dagreuoed y lithyr hitheu, ac o aruthyr diaspat y lleinw yr enys.*
- 64 **A wna'r mwnd i Normandi** Gellid cael gwell ystyr o bosibl o ddarllen *A wneir Mwnd yn Normandi*, cf. GLGC 209 (91.55–6), sy'n cyplysu'r ddwy elfen, *ugain o win a gawn ni, / gwin ir Mownd, gwin Normandi; ib.* 568 'tref Mantes ar afon Seine'. Cynigir yn betrus yn GDLI 212 y gall Mawnd gyfeirio at Mantes-Gassicourt neu Mantes-La-Ville yn Ffrainc. Y mae hefyd le o'r enw Mwnt nid nepell o Aberteifi, gw. DN 41 (XV.7), 156.
- 65 **â'r ing** Gellid darllen *a'i rinc* sef 'a'i wich' hefyd.  
**nai'r ych** Dyma gyfeiriad pendant at Harri Tudur fel nai i Siasbar.
- 66 **neidr** Gall y term hwn ddynodi'r gwron neu'r gelyn yn y cywyddau brud, gw. HSt 162 ac R. Wallis Evans yn GWL ii, 290.
- 68 **A ryw le eira Wyl Ieuan** Dyma un o'r arwyddion brudiol o'r dosbarth o arwyddion sy'n ymwneud â'r tywydd a'r tymhorau, gw. 1.32n. Dethlir Gŵyl Ieuan, sy'n dynodi canol yr haf, ar 24 Mehefin. Gthg. HSt 156, yr arwydd 'yr haf yn y gaeaf gwyn'. Gan fod y ll. yn hir o sillaf, y mae'n bosibl y dylid darllen *eiry* yma.
- 70 **Glaw nos Iau gelyn y Sais** Ymddengys y syniad y bydd y Cymry'n cael eu trechu ar ddydd Mercher, ond y gorchfygir y Saeson ar ddydd

Iau, mewn rhai o'r daroganau. Ceir mynegiant cynnar a didrugaredd o'r syniad hwn yn yr 'Afallennau', gw. LIDC 26 (16.3–10) *A mi disgoganav e rac perchen machrev. / In diffrin machavuy merchyrdit crev. / goruolet y loegyrr gorgoch lawnev. / Oian a pharchellan dydau dyw iev. / gorvolet y gimry goruaur gadev. / In amuin kyminaud clefytaud clev. / Aer o saesson. ar onn verev. / A guarwyaur pelre ac ev pennev.*

- 72 **brân** Y mae'n bur debygol mai cyfeiriad at Rys ap Tomas o Abermarlais sydd yma, gw. uchod 2.30n. Ymunodd Rhys a byddin o'i filwyr ag ymgyrch Harri Tudur yn 1485. Credir bod y cwpled hwn yn cadarnhau i'r gerdd gael ei chanu yn y cyfnod a ragflaenai ddyfodiad Harri, a bod y bardd wedi clywed sibrydion ynglŷn â chynlluniau a pharatoadau Rhys.
- 74 **hug Lincol hen** Digwydd *hug* 'clogyn', &c., yn ffigurol am 'dwyll', gw. GPC 1909 a gall fod yma gyfeiriad at yr hyn a ddigwyddodd yn dilyn 'Brad y Cylyll Hirion', BD 98 (ll. 10)–99 (ll. 26), pan garcharodd y Saeson Wrtheyrn gan fynnu cael Llundain, Caer Efrog, Lincol a Chaer Wynt yn gyfnewid am ei ryddhau, a lladd trigolion y dinasoedd hynny, gw. *ib.* 100 (llau. 9–12). Adroddir, *ib.* 147 (llau. 1–6), hanes Arthur yn creu lladdfa ymhlith y Saeson yn y ddinas honno. Yr hyn a olygir yw y daw terfyn ar y twyll.
- 75 **D ac U am neidr deg wen** Ymddengys fod *neidr* yn dynodi'r mab darogan yma a gwelir bod y bardd yn defnyddio'r dull Sibylaidd o gofnodi enw'r arwyr, gw. 1.25n. Mewn enghreifftiau fel hyn, pan nad ydyw'r gwrthrych yn gwbl hysbys, y mae'n anodd ail-greu'r darlleniad gwreiddiol oherwydd fod amrywio helaeth yn y llsgrau. o ganlyniad i gamddarllen a chamgopïo'r prif lythrennau. Ond gall fod yma, ynghyd â'r *Y* yn ll. 76, ymgais i gyfleu'r enw *Davy* (gydag *U* yn dynodi 'f') drwy addasu'r dull Sibylaidd, gw. 1.25n. a cf. IGE<sup>2</sup> 91 (llau. 3–4) lle y mae'r bardd yn sillafu enw'r arwr sef Owain ap Tomas ap Rhodri (neu Owain Lawgoch), *Y ac Nyw'r cymhenddoeth, / I ac U ddwbl yw'r cwbl coeth* (ansicr).
- 77 **Daniel** Y mae'r bardd, fel un sy'n proffwydo, yn ei uniaethu ei hun â Daniel a feddai ar *oleuni, a deall, a doethineb fel doethineb y duwiau*, ac a osodwyd yn *bennaeth y dewiniaid, astronomyddion, Caldeaid, a brudwyr*, gw. Daniel v.11.
- 78 **A fu arddwr i Fyrddin** Y mae'r bardd yn llafurio yn drosiadol ar ran Myrddin (gw. 5.8n) oherwydd ei fod yn ymdrin â'r un maes ag ef drwy ymhel â darogan.

## 5

Egyr y cywydd gyda'r bardd yn annerch y llyfr brud ac, yn ôl arfer y brudiau ar ffurf cywydd annerch, cwyna'r bardd nad ymddengys fod sail i'r gobeithion brudiol a fynegwyd yn y gorffennol. Y mae'r math hwn o gywydd yn ddiddorol gan ei fod yn awgrymu bod y beirdd yn gyfarwydd â deunydd brudiol a gâi ei gylchredeg mewn ffurf ysgrifenedig.<sup>1</sup> Y mae'r adran frudiol o'r cywydd yn gyforiog o ddelweddu ac arwyddion traddodiadol wrth i'r bardd ddarogan gwae a chwymp i'r Saeson, er bod traean olaf y cywydd yn eglurach oherwydd ei fod yn cynnwys cyfeiriadau digamsyniol at bersonau ac at ymgyrchoedd hanesyddol.

Y mae'r sôn am y 'Trioedd' (ll. 7) ac am Daliesin a Myrddin (ll. 8) fel beirdd brudiol yn ddiddorol ac yn dangos ymwybyddiaeth o barhad y traddodiad proffwydol. Cyfeirir yn y gerdd at y brudiwr enwog Dafydd Llwyd, cyfoeswr i Ddafydd Gorlech, ac awgrymir i Ddafydd Gorlech oroesi Dafydd Llwyd, *Dafydd aeth o Lan Dyfi / Diwedd ei oes i'm dydd i* (llau. 15–16). Pair hyn anawsterau ynglŷn â chronoleg y cywydd oherwydd, er i Ddafydd Llwyd ganu cywydd i Harri VII ar ôl ei fuddugoliaeth ar faes Bosworth yn 1485 (GDL1 14), dichon i'r cywydd hwn gael ei ganu ym merw'r cyffro a ragflaenai ymgyrch Harri Tudur. Ymddengys ymhellach fod y bardd yn ystyried bod yr wybodaeth sydd ganddo yn werthfawr a bod elfen o dawedogrwydd yn angenrheidiol (llau. 51–2). Yn llawysgrif M ceir nodyn yn esbonio bod *iôr yn llyfnu* (ll. 54) yn gyfeiriad at Wilym ap Gruffudd o'r Penrhyn, un o gynorthwywyr Harri yn ei ymgyrch. Y mae'n hynod o debygol mai Rhisiart III yw'r *wadd* y cyfeirir ati yn llinell 63, a bod llinellau 65–6 yn cyfeirio at un o linach Penmynydd.

1–4 Dyma nodwedd gyffredin yng ngwaith y beirdd brudiol sef cwyno nad ymddengys fod sail i'w gobeithion brudiol am nad oes unrhyw argoel o ddyfodiad y mab darogan i achub cam y Cymry.

5 Twyll gynghanedd g.

7 **Trioedd mad** Dyma ebychiad sy'n cyfeirio at 'Drioedd Ynys Prydain'. Ffurfiar'r 'Trioedd' ran bwysig o addysg y beirdd a cheir mynych gyfeirio atynt yn eu gwaith, gw. TYP<sup>2</sup> 3–4, 11, 44–5.

8 **Taliesin na Myrddin** Rhwng y 9g. a'r 10g. tyfodd chwedl am Daliesin, y bardd llys o'r Hen Ogledd, a daethpwyd i synied amdano fel bardd proffwydol, gw. ChT. Yn 'Llyfr Taliesin' ceir nifer o gerddi daroganol sy'n perthyn i gyfnod diweddarach na'r Taliesin gwreiddiol ac a dadogwyd arno er mwyn rhoi awdurdod i'r cynnwys ac am fod ei

<sup>1</sup> Trafodir y cywyddau a berthyn i'r dosbarth hwn gan H. Lewis yn 'Rhai Cywyddau Brud', B i (1921–3), 247.

enw yn dwyn cof am oes aur cenedl y Cymry. Yr oedd y beirdd yn gyfarwydd â'r daroganau hyn a astudent fel rhan o'u hyfforddiant, a cheir mynych gyfeiriadau yn y cywyddau brud at Daliesin fel awdurdod yn y maes. Ceir hefyd ddosbarth o gerddi a dadogir ar Fyrddin. (Ymhellach ar Fyrddin, gw. uchod 2.40n.) Cyfeirir yn y gerdd ddarogan gynnar, 'Armes Prydain', at broffwydoliaeth gan Fyrddin, *Dysgogan Myrddin kyueruyd hyn*, gw. Arm P 1 (ll. 17). Yn ei 'Historia Regum Britanniae' a'i 'Vita Merlini' cyhoeddodd Sieffre o Fynwy ddaroganau o enau'r Myrddin honedig a oedd, y mae'n debyg, yn crynhoi ystôr o ddeunyddiau brodorol llafar, ac ysgrifenedig o bosibl, ac yn bennaf oherwydd poblogrwydd y gwaith hwnnw, y mae dyled y beirdd brud yn fawr iddo.

- 12 **dewin** Cyfeiriad at Fyrddin a'i rôl yn yr 'Historia Regum Britanniae' efallai.
- 14 **lleian** Cyfeiriad, o bosibl, at fam Myrddin oedd yn *uynaches ym plith mynachesseu eraill yn egllys Bedyr*, BD 101 (llau. 20–1). Ganwyd Myrddin iddi o ganlyniad i drais yn ôl fersiwn Sieffre o'r hanes, gw. *ib.* 102 (llau. 2–8).
- 15–16 **Dafydd aeth o Lan Dyfi / Diwedd ei oes ...** Cyfeiriad yw hwn at Ddafydd Llwyd ap Llywelyn o Fathafarn, sef y brudiwr mwyaf adnabyddus a chynhyrchiol. Priodolir iddo oddeutu chwarter y cywyddau brud a oroesodd, a golygir casgliad ohonynt yn GDLI. Y mae'n amlwg ei fod yn ffigur parchedig ymysg beirdd y cyfnod, gw. Enid Roberts, *Dafydd Llwyd o Fathafarn* (Caernarfon, 1981), 6, am sylwadau rhai o'i gyd-gywyddwyr amdano. Ymddengys iddo fwynhau oes hir iawn yn ôl disgwyliadau'r cyfnod: ceir cyfeiriad sy'n awgrymu ei fod yn bresennol gydag Owain Glyndŵr ym Mrwydr Bryn Glas yn 1402 (*ib.* 7). Nid oes ganddo farwnad i Harri VII, sy'n awgrym i'r brenin ei oroesi; canodd gywydd iddo ar ôl ei fuddugoliaeth ar Faes Bosworth yn 1485. O ran cronoleg y cywydd dan sylw, y mae'r cwpled hwn yn peri anhawster. Ymhellach ar hyn, gw. y nodyn cefndir.
- 20 **'Manaw** Diwygir *manv* llsgrau. ADFG yn *Manaw* er mwyn adfer y gynghanedd sain. Ceir nifer o arwyddion yn ymwneud â Manaw yn y brudiau, er enghraifft 'dwyn arian gwŷr Manaw' a 'thân ym Manaw', gw. HSt 156.
- 26 **Gwaith y carl, y gath a'r ci** Tybed a all hyn olygu brwydr 'gyffredinol'? Ond cofier bod y 'gath' yn medru bod yn enw ar y mab darogan neu'r gelyn, yn ogystal â'r 'ci', sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio fel enw am Risiart III mewn rhai daroganau diweddarach.  
*r* berfeddgoll.
- 29 **Berwig** Gw. 2.43n.



- 30 **Llundain** Ar hanes sefydlu ‘Tro Newydd’ yn Llundain, gw. BD 20 (llau. 16–20). Gw. hefyd Enid Roberts, *op.cit.* 14, ‘... ar hyd y canrifoedd parhaodd y syniad mai’r sawl a wisgai goron Llundain oedd y prif frenin. Coron Llundain oedd coron Prydain; cael gwisgo honno, bod “yn ardderchog o goron Llundain”, fel Bendigeidfran gynt, oedd y nod i ymgynraedd ato’. Y mae crybwyll brain (gall yr enw gyfeirio at gigfrain yn arbennig) yn awgrymu brwydro ac y mae i’r adar hyn arwyddocâd traddodiadol yn ein llenyddiaeth, er enghraifft brain Owain ab Urien yn chwedl ‘Breuddwyd Rhonabwy’. Y mae’r ffaith mai Badbh (y frân) yw un o’r duwiesau rhyfel Celtaidd yn awgrymu bod y cysylltiad hwn yn hen iawn.
- 31 **draig wen** Gw. 2.25n.
- 32 **A chi hirwyn uwch herwyr** Dichon mai cyfeiriad sydd yma at y mab darogan ac at nifer o gefnogwyr Harri Tudur a oedd ar herw ar y pryd.
- 33 **rhiain hir** Gall fod yma gyfeiriad at Farged Beaufort, mam Harri Tudur y bu iddi ran flaenllaw yn y trefniadau ar gyfer ymgyrch ei mab, neu hwyrach gyfeiriad brudiol megis ‘rhyfel am gŵyn rhiain’.  
Mae 8 sillaf yn y ll. hon.
- 34 **cyw eryr** Y mae ‘cyw yr eryr’ yn un o’r enwau traddodiadol ar y mab darogan, gw. R. Wallis Evans yn GWL ii, 289. Gw. hefyd H. Lewis, ‘Proffwydoliaeth yr Eryr’, B ix (1937–9), 114, *Odyna kyw eryr a wna y nyth yg goruchelder kerric holl vryttaen. a hwnnw ny ledir yn ieuanc. ac ny daw ynteu ar heneint. Ac yna ny diodef gogonedus uoleitrwyd gynnig sarhaet idaw ef. yr hwnn a lad ar teyrnas dangeuedus.* Cf. G.A. Williams, ‘Cywydd Brud o Waith Robin Ddu’, *Bosworth a’r Tuduriaid*, gol. Dafydd Glyn Jones a John Ellis Jones (Caernarfon, 1985), 40 (ll. 25) sy’n cyfeirio at Risiart III fel *cyw yr eryr du*.  
**corryn** Os yw *cyw eryr* yn symbol am Harri Tudur, tybed a yw *corryn* yn enw ar Siasbar Tudur neu am Risiart III o ystyried y ll. ganlynol?
- 35 **rhos** Dyma gyfeiriad at arwyddluniau plaid Lancastr a phlaidd Iorc sef y rhosyn coch a’r rhosyn gwyn. Ychwanegodd Siôn o Gawnt y rhosyn coch at ei arfbais wedi iddo briodi Blanche o Lancastr. Mabwysiadodd Richard o Goningsburgh, Iarll Caer-grawnt, ail fab Edward III, y rhosyn gwyn ar ôl priodi Maud ferch yr Arglwydd Clifford. Honnir i’r rhosyn gwyn gael ei ddewis fel arwyddlun er cof am Rosamond Clifford, gorderch Harri VI a lofruddiwyd. Gw. John Woodward & George Burnett, *Woodward’s A treatise on Heraldry British and Foreign* (Newton Abbot, 1869), 324.
- 36 **rhyfel ar wŷr Rhufain** Yn yr ‘Historia Regum Britanniae’ proffwydodd yr angel na fyddai un arall o blith y Brytaniaid yn frenin ar Ynys Prydain hyd nes y dygid esgyrn Cadwaladr Fendigaid o Rufain, lle

y cawsent eu claddu, i Brydain. Ond gallai'r arwydd hwn fod yn gyfeiriad at broffwydoliaeth arbennig, er enghraifft ceir sôn am Bab Rhufain yn syrthio ym 'Mhroffwydoliaeth y Lili', gw. ll. 39n isod.

- 39 **tir y lleuad** Ym 'Mhroffwydoliaeth y Lili' saif 'tir y lleuad' am Gymru, Lloegr ac Iwerddon, gw. R. Wallis Evans, 'Proffwydoliaeth y Fflowrddelis', B xxi (1964–6), 330. Yn naroganau oes Edward III, Lloegr oedd 'tir y lleuad', gw. R. Wallis Evans: Dar 88. Awgrymwyd hefyd mai Twrci oedd 'tir y lleuad' gan gymryd mai cyfeiriad at faner y wlad honno sydd yma. Os Twrci yw'r *dwyrain wlad* (ll. 40), gall fod yma gyfeiriad at y Croesgadau.

Ceir 8 sillaf yn y ll. hon.

- 40 **o'r dwyrain wlad** Disgwylid treigladd meddal i *dwyrain* yma.
- 41 **llynges** Cyfeiria'r daroganau'n fynych at ddyfodiad y mab darogan dros y môr o wlad arall.
- 42 **Llewes hwnt â llawes hir** Gellir dehongli *llawes* yn drosiad am 'rhwyd' a deall y ll. yn gyfeiriad at y mab darogan fel un sy'n caethiwo ei elynion.
- 43 **baner las** Tybed a allai fod yn gyfeiriad at gefndir baner Ffrainc? Defnyddiai Siasbar Tudur yr arfau 'Quarterly, France and England: a bordure *azure* charged with eight martlets *or*', gw. H. Lewis, 'Rhai Cywyddau Brud,' B i (1921–3), 252.
- 44 **banw** Cyfeirir at yr anifail hwn yn y 'Broffwydoliaeth Fer', gw. R. Wallis Evans, 'Y "Broffwydoliaeth Fawr" a'r "Broffwydoliaeth Fer"', B xxii (1966–8), 119–121. Cf. hefyd y sôn am nadroedd yn chwibanu ym 'Mhroffwydoliaethau Myrddin' yn yr 'Historia Regum Britanniae'.
- 45 **A'r llew a'i hanner yn llwyd** Dyma gyfeiriad at y mab darogan, gw. HSt 162, am enwau tebyg ar y mab darogan a cf. yr enw 'macwy dau hanner' a drafodir uchod 4.26n.

*r wreiddgoll.*

- 47 **y bywyd bas** Hwyrach fod y bardd yn ystyried y cyni dan lywodraeth y Saeson, neu yn meddwl am y dirywiad moesol a chrefyddol a gysylltid â ffawd y Cymry er cyfnod Gildas a 'De Excidio Britanniae'. Ymddengys lliaws o arwyddion o'r fath sy'n nodweddu cyflwr o anhrefn cymdeithasol yn y canu darogan o gyfnod 'Cylch Myrddin' hyd y cywyddau brud.

- 48 **Aderyn derfyn dewrfras** Y mae'n debyg mai cyfeiriad at y 'wennol' sef Siasbar neu Harri Tudur sydd yma, gw. 1.86n.

Ceir yma gyfatebiaeth *rf* = *rfr* o dan yr acen.

- 50 **I dir arall a'i dyrai** O gymryd bod ll. 48 yn cyfeirio at Siasbar neu Harri Tudur, gellir dyfalu mai Llydaw neu Ffrainc a olyga'r bardd yma.
- 51 **Nodi'r awr ni edir ym** Yma dengys y bardd ei fod yn ystyried bod elfen o dawedogrwydd yn angenrheidiol a bod yr wybodaeth sydd ganddo yn werthfawr.
- 52 **Gwilym** Nodir mewn glos yn llsgr. M mai at Wilym ap Gruffudd o'r Penrhyn y cyfeirir. Cynorthwyodd y gŵr hwn Harri Tudur yn ei ymgyrch yn erbyn Rhisiart III, gw. Emyr Wyn Jones, *Bosworth Field: A Welsh Retrospect* (Aberystwyth, 1984), 25. Y mae'n bosibl fod Dafydd Gorlech yn ymwybodol fod Gwilym yn paratoi byddin i gefnogi'r ymgyrch a oedd yn yr arfaeth.  
*n wreiddgoll.*
- 54 **llwynog** Y mae'n bur debyg mai cyfeiriad at Harri Tudur yw hwn.  
**iôr yn llyfnu** Dichon mai trosiad am Wilym ap Gruffudd yn paratoi am yr ymgyrch sydd yma.  
*r wreiddgoll a chyfatebiaeth  $n = nf$  o dan yr acen.*
- 60 **Gwylliaid hwnt a gyll y tir** Yn ôl y cyd-destun y mae'n amlwg mai'r Saeson yw'r *gwylliaid*, yn hytrach na'r herwyr brodorol. Deillia'r cyfeiriad o syniadaeth y 'myth Cymreig', sef y syniad mai'r Brytaniaid ydoedd preswylwyr cynhenid a gwir berchenogion Ynys Prydain, ac i'r tir ddod i feddiant y Saeson trwy dwyll.
- 62 **Draig a wna drwg i ni** Dyma ddraig wen Lloegr, gw. ll. 31 uchod a 2.25n. Y mae un sillaf yn eisiau yma ac efallai y dylid diwygio'n *Draig wen a wna drwg i ni*.
- 63 **gwadd** Dyma lysenw Rhisiart III yn y cywyddau brud, gw. 1.84n.
- 64 **gafr a llew** Dichon mai Siasbar a Harri Tudur a olygir yma.  
*fled-lafarog.*
- 65 **o had Gwynedd hen** Dichon fod yma gyfeirio at y ffaith fod Siasbar a Harri Tudur yn rhai o Wyrion Eden, yn disgyn o Ednyfed Fychan, distain Llywelyn Fawr.
- 66 **gwennol** Dyma gyfeiriad at Siasbar neu Harri Tudur, gw. 1.86n.

Perthyn y cywydd hwn i'r dosbarth o gywyddau brud sydd ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a gwrthrych. Egyr yn y modd arferol a'r bardd yn dyfalu'r gwrthrych yn brydferth ac yn grefftus â chyfres o drosiadau a phersonoli cyn ei holi ynglŷn â'r rhagolygon brudiol ar gyfer y genedl. Pwysleisr galluoedd amddiffynnol yr Wyddfa, a bu Eryri'n draddodiadol yn

fangre strategol gref i ymgasglu ar gyfer rhyfela, gyda'r Cymry'n manteisio ar dirwedd o'r fath. Y mae thema 'haeddiant' yn amlwg iawn yn y cywydd hwn sy'n addo *Dialedd ar a'i dylo* (ll. 22) ac sy'n cynnwys cryn dipyn o bregeth Gildas. Sonnir am ddirywiad y ffydd Gristnogol (ll. 24) a chyfeirir at lygredigaeth yr Eglwys yn yr un modd â'r cerddi darogan cynnar (ll. 30). Y mae'n arwyddocaol hefyd fod y bardd yn cyfeirio at yr Wyddfa, sef noddfa'r genedl, fel creadigaeth Duw ac fel Tŵr Babilon (llau. 9–12).

Y mae'r bardd yn cymhwyso geiriau'r 'Broffwydoliaeth Fer', y *badd velltigedig o ennau du6 e hun*,<sup>1</sup> i ddisgrifio'r brenin Rhisiart III yn llinellau 43–6, *Twrch daear anwar ennyd, / Diwyn beth yn dwyno byd. / Melltigedig ddig ddygyn / O enau Duw yn anad un*. Gall fod yn llinell 47, *I fwrw treth oedd feth fwy*, adlais o 'Armes Prydain', lle y defnyddir *treth* mewn dull awgrymog iawn; *Meiryon eu tretheu dychynnullyn* (Arm P 1 (ll. 21)) meddir yno, ond *Meiryon Kaer Geri difri cwynant / ... y Aber Peryddon ny mat doethant. / anaeleu tretheu dychynullant* (ib. 3 (llau. 69, 71–2)), ac *yg gorffen eu tretheu agheu a wdant* (ib. 3 (ll. 84)).

Daw'n amlwg mai'r hyn sydd gan y bardd dan sylw yw ymgyrch Harri Tudur. Sonnir am aros yn Eryri *Oni ddêl brân* (ll. 53). Gwelir mai cyfeiriad at Rys ap Tomas o Abermarlais sydd yma o ystyried y llinellau a ddilyn sy'n sôn am fwriad Harri i lanio yng nghyffiniau Tŷ Ddewi: *Tarw a diria, aur darian, / Fynyw wlad i fin y lan* (llau. 57–8), ac eto *Tarw a'r frân yn taro'n frau, / Och werin Lloegr o'r chwarae!* (llau. 65–6).

Yn hytrach na'r gosb a roddodd Duw ar y Brytaniaid yn ôl 'De Excidio Britanniae' Gildas, y mae'r bardd yn darogan am *dri dialedd* (ll. 68) a ddaw i boeni'r Saeson sef *Rhyfel, newyn ... / Marwolaeth mwy i'r eilwadd* (llau. 69–70), sef Rhisiart III. Yr un yw gweledigaeth Dafydd Gorlech ag awdur 'Armes Prydain': *A hyn a'u gyr o hen gas / (Oer dro arnyn '!') o'r deyrnas, / A rhannu eu tir hwy a'u tai / Yn deilwng i'r a'i dylai, / A rhoi Cymry mor hy hawl / Yn eu tiroedd naturiawl* (llau. 71–6).

Daw'r cywydd i ben ag adran sy'n dangos dylanwad helaeth 'Proffwydoliaeth y Chwe Brenin i ddilyn y Brenin John' ac sy'n sôn am y mab darogan yn mynd ar groesgad i Gaersalem, *Owain a dynn i'r un daith / I Gaersalem gwrs eilwaith* (llau. 79–80); yna fe'i cleddir rhwng y Tri Gŵr Doeth yng Nghwlen, *Yno y'i cleddir, seinir sant, / Yn y trysor rhwng trisant, / A'i enaid, blaid blodeufawr, / Ar nwyfyr â i'r nef yn awr* (llau. 87–90).

- 1 **nawddfawr** O dderbyn *neuaddfawr* y rhan fwyaf o'r llsgrau. byddai'r ll. un sillaf yn rhy hir. Diwygir yn *nawddfawr*, a. sy'n gweddu i'r ystyr o ystyried llau. 5–6, ac 11 sy'n pwysleisio galluoedd amddiffynnol yr

<sup>1</sup> Gw. R. Wallis Evans, 'Y "Broffwydoliaeth Fawr" a'r "Broffwydoliaeth Fer"', B xxii (1966–8), 121.

- Wyddfa. (Fodd bynnag, sylwer fod nifer o linellau 8 sillaf yn y gerdd hon.)
- 3 **tēyrn** Y mae angen ffurf ddeusill ar gyfer yr odl a'r gynghanedd, ond sylwer mai 8 sillaf sydd yn y ll. o ganlyniad.
- 5 **clo Gwynedd** Yn G 147 dehonglir *clo* yn ffurf a ddefnyddir gan amlaf mewn ystyr ffigurol yn golygu 'awdurdod, pinacl, uchafbwynt, cwlwm'. Fe'i defnyddir yn drosiadol yma am 'amddiffynnydd'.
- 6 **i'r gwerin** Er mai eb. oedd *gwerin* gan amlaf, digwydd fel eg. hefyd, gw. GPC 1643.
- 7 Twyll gynghanedd *dd*.
- 10 Am yr odl *Duw/gwiw*, cf. isod ll. 81 *Duw/hoywliw* a hefyd ll. 29 *Duw/byw*.
- 11 Sylwer ar yr odl lafar yma, *lle/seinie*, a cf. isod llau. 35–6 *red/dieithred*.
- 12 **Tŵr Bablon** Dyma gyfeiriad at Dŵr Babel ym Mabilon, gw. Genesis xi.1–9. Y mae'r bardd yn cymharu uchder yr Wyddfa ag uchder y tŵr hwn y credid ei fod yn cyrraedd y nefoedd.
- 14 *m* wreiddgoll.
- 18 *f*led-lafarog ac *m* wreiddgoll.
- 22 **dialedd ar a'i dylo** Dyma gyflwyno'r syniad o 'haeddiant' sy'n thema flaenllaw yn y dehongliad traddodiadol o hanes Cymru. Y mae'n bresennol yn y cywyddau brud megis yn y canu darogan cynnar a'u rhagflaenodd, ac yn syniad y gwelir ei had yng ngwaith Gildas. (Cf. llau. 73–6 isod). Yn ôl ei ddehongliad ef, y Brytaniaid oedd trigolion cynhenid Ynys Prydain ond collasant eu tiriogaeth oherwydd dial Duw am eu pechodau. Yn yr 'Historia Brittonum' a 'Historia Regum Britanniae' Sieffre o Fynwy ychwanegir y syniad mai pechod gwleidyddol a thwyll y Saeson fu'n gyfrifol am y golled wreiddiol, a dyma'r darlun a gyflwynir gan y beirdd, er bod yr elfen o ymyrraeth ddwyfol yn hynt a helynt y cenedlaethau yn dal yn bresennol. Y mae dylanwad syniadaeth 'Armes Prydain' yn amlwg ar y cywyddau brud, gw. Gwyn Thomas, 'Sylwadau ar "Armes Prydain"', B xxiv (1970–2), 263–7; hefyd R.W. Hanning, *The Vision of History in Early Britain* (New York, 1966), 44–62, 91–120 a D.G. Jones, *Gwlad y Brutiau* (Abertawe, 1991).
- 24 **ffydd yn gloff** Ceir mynych sôn yn 'De Excidio Britanniae' Gildas, yn ogystal â'r proffwydoliaethau cynnar, am gyflwr dirywiedig y ffydd Gristnogol. Yn y cyd-destun hwn, gw. hefyd l. 29 a ll. 30 isod lle y cyfeirir at lygredigaeth yr Eglwys.
- 26 **yn y Nordd** Gw. 2.28n.

- 27 **yr arth** Dyma'r enw ar Richard Neville, Iarll Warwig, fel rheol, gw. 1.5n. Ond, o ystyried y cyfeiriadau digamsyniol at Risiart III, Rhys ap Tomas a Harri Tudur yn llau. 42–57, gallai'r cyfeiriad hwn fod yn un amhenodol at y gelyn neu'r mab darogan.
- 29 **dialedd Duw** Gw. ll. 22n.
- 32 **I Fôn y daw blinaw bla** Gall *pla* fod yn drosiad am ymladd neu helynt. Yr oedd 'cad ym Môn' yn un o'r brwydrau traddodiadol y ceir cyfeiriadau atynt yn y canu darogan cynnar, megis yn 'Oianau Myrddin', gw. LIDC 34 (17.176). Digwydd hefyd yn y rhestr o brif frwydrau yn BL Add 31057, 63 a ddyfynnir yn HSt 153; gw. hefyd EVW 121, 125, 145 *et passim*. Ond cf. y dyfyniad canlynol o waith y Bergam, a grybwyllir *ib.* 182, *Ef adaw byt yguasgeryt rota / dygymon brythyon ac ym mon bla*. Cofier hefyd fod y *pla* yn un o'r tair melltith a anfonodd Duw i gosbi'r Cymry yn ôl 'De Excidio Britanniae' Gildas.
- 33 **Llynges goch oer droch ar dro** Cf. 'Darogan y llynges drom droch', R. Wallis Evans: Dar 41.
- 37 **y P** Y mae'n anodd dewis darlleniad boddhaol yma oherwydd yr amrywio yn y llsgrau. Fel y nodwyd uchod, 4.75n, y mae hyn yn aml yn broblem pan ddefnyddir y dull Sibylaidd o gofnodi enwau. (Ar y dull Sibylaidd, gw. 1.25n.) Gellid mentro'n hynod o betrus y gall fod *P* yma'n cyfeirio at y *Porchell* yn y 'Broffwydoliaeth Fer'. Gw. isod llau. 46–7n.
- 37–8 Y mae'n bosibl fod y cwpled hwn yn fersiwn amrywiol ar lau. 27–8.
- 40 Y mae'r ll. yn rhy fyr o sillaf oni chyfrifir *farw* yn ddeusill, cf. *fwrw*, ll. 47, ond unsill yw *tarw*, llau. 57, 65.
- 42 **y wadd** Dyma'r enw ar Risiart III yn y cywyddau brud, cf. *twrch daear*, ll. 43. Ond gw. llau. 46–7n.
- 45–6 **Melltigedig ... / O enau Duw ...** Cf. 'Y Broffwydoliaeth Fer', yn R. Wallis Evans, 'Y "Broffwydoliaeth Fawr" a'r "Broffwydoliaeth Fer,"' B xxii (1966–8), 121, y *Gadd velttigedig o ennau du6 e hun ...*
- 47 **treth** Ar ddefnydd y gair hwn yma, gw. y nodyn ar y cefndir uchod.
- 48 **Cynnen a fag uwch Conwy** Gellid dadlau mai cyfeiriad sydd yma at Wynedd Uwch Conwy ac y dylid darllen *Uwch Conwy*. Er hynny, yr oedd Conwy yn fan tebygol ar gyfer ymladd, a buasai sawl brwydr ac anghydfod yno rhwng y Cymry a'r Saeson yn y gorffennol.
- 50 **i'r Yri** Yr oedd Eryri yn draddodiadol yn fangre i ymgasglu ar gyfer rhyfela. Sonia Gerallt Gymro am y modd y manteisiai'r Cymry ar dirwedd o'r fath, gw. L. Thorpe, *Gerald of Wales, The Journey through Wales and The Description of Wales* (Harmondsworth, 1978), 269.

- 51 **hir yw'r ha'** Gallai'r cymal hwn fod yn gyfeiriad at un o'r arwyddion brudiol sef 'yr haf hirlfelyn' sydd hefyd yn enw ar broffwydoliaeth, gw. 4.41–2n uchod; neu hwyrach fod y bardd yn mynegi'r tyndra ymhlith y Cymry yn y cyfnod a ragflaenai ddyfodiad Harri Tudur.
- 52 **heb fawr fara** Yn y daroganau pwysleisir y bydd cyfnod o gyni a chaledi yn rhagflaenu'r fuddugoliaeth derfynol.
- 53 **oni ddêl brân** Y 'frân' oedd y symbol am Rys ap Tomas o Abermarlais, gw. 2.30n. Ymunodd ei fyddin â byddin Harri Tudur ar gyfer Brwydr Bosworth.
- brân 'gân** Fe'i deallir yn gywasgiad o *brân a gân*, a'r rhagenw perthynol wedi ei hepor.
- 57–8 **Tarw a diria ... / Fynyw wlad ...** Yr oedd y tarw yn un o'r enwau a roddwyd ar y mab darogan, yn enwedig ar aelodau o deulu Penmynydd. Y mae'n sicr mai at Harri Tudur y cyfeirir yma, gan iddo lanio ym Mill Bay, Dale ger Aberdaugleddau ar 7 Awst 1485. Awgryma hyn fod y bardd wedi clywed si am fanylion ynglŷn â'r ymgyrch.
- 61 **i Fochno** Y mae brwydr yng Nghors Fochno ger Afon Dyfi yn un o'r brwydrau traddodiadol a grybwyllir yn y canu darogan Cymraeg. Digwydd un o'r cyfeiriadau cynharaf ati yn 'Oianau Myrddin', LIDC 34 (17.176). Am gyfeiriadau eraill at Fochno, gw. EVW *passim*. Awgryma W. Leslie Richards, GDLI 192, i'r enw fod unwaith yn gyfeiriad at frwydr arbennig, ond iddo ddod yn un o'r arwyddion brud traddodiadol.
- drwy ruo o Rôn** Noda R. Wallis Evans, HSt 162, fod *Tarw o Ron* [*sic*] yn un o'r enwau ar y mab darogan.
- 62 Twyll gynghanedd *dd*.
- 63 **Owain** Dyma un o'r enwau traddodiadol ar y mab darogan. Cafwyd sawl Owain enwog yn hanes Cymru sef Owain ab Urien, Owain Gwynedd, Owain Lawgoch (Owain ap Tomas ap Rhodri), Owain Glyndŵr ac Owain Tudur, a gall fod yr enw hwn yn corffori'r cof amdanynt i'r beirdd. Am gyfeiriadau at *Owain* yn y canu cynnar ac am drafodaeth bellach ar arwyddocâd yr enw, gw. EVW *passim*.
- 64 **Cymunod** Dyma gyfeiriad at un arall o'r brwydrau traddodiadol a grybwyllir droeon yn y canu darogan. Digwydd un o'r cyfeiriadau cynharaf ati (fel [*k*]ad *kyminaud*) yn 'Oianau Myrddin', LIDC 34 (ll. 177); gw. hefyd y rhestr o'r prif frwydrau yn BL Add 31057, 63 a ddyfynnir yn HSt 153. Am leoliad brwydr Cyminod, casgla R.G. Gruffydd, 'Why Cors Fochno?', THSC, ail gyfres, ii (1996), 'the site of perhaps the most important of the battles after that of Cors Focho, was almost certainly a place on the eastern border of Powys and not in

Anglesey as has been hypothesized ...', gan gyfeirio at un farn (a dderbynnir yma) mai Cymunod ger Trefdraeth ym Môn oedd lleoliad y frwydr (cf. EVW 87, 124, 153, 161, 178 a 213).

- 65 **Tarw a'r frân yn taro'n frau** Dyma gyfeiriad at Harri Tudur a Rhys ap Tomas o Abermarlais. Gw. llau. 53–4 a 57–61 uchod.  
*n* ac *r* berfeddgoll.
- 68 **tri dialedd** Yn 'De Excidio Britanniae' y mae Gildas yn sôn am Dduw yn anfon tri dialedd i boeni'r Cymry oherwydd eu hanufudd-dod a'u gwendidau moesol. Yma y mae'r bardd wedi gwyrddroi'r hanes ac wedi llunio tair cosb ar gyfer y Saeson.
- 70 **eilwadd** Saif yr enw hwn am Risiart III; cf. y *wadd* (ll. 42) a'r *twrch daear* (ll. 43).
- 72 **o'r deyrnas** Y mae'r bardd yn cyfeirio at Ynys Prydain (cf. ll. 77) a'r gred mai'r Brytaniaid oedd ei pherchenogion cynhenid a chyfreithlon. Gw. ll. 22n uchod.  
*r* berfeddgoll.
- 73–8 Clywir yma adleisiau cryf o genadwri'r gerdd 'Armes Prydain', cf. Arm P 1 (ll. 8), 4 (llau. 93–6, 105–6, 111–12), 5 (133–8), 6 (155–6), 7 (189–92).
- 74 *n* wreiddgoll.
- 78 **O'u hynt twyllir hwynt allan** Diwygiwyd y ll. hon, er gwaethaf tystiolaeth y llsgrau., er mwyn cael gwell synnwyr. Fe'i deallir yn gyfeiriad at dynged y Saeson.
- 79 **Owain** Gw. ll. 63n.
- 79–90 Y mae dylanwad helaeth 'Proffwydoliaeth y Chwe Brenin i ddilyn y Brenin John' ar y darn hwn o'r cywydd. Am destun y fersiwn Saesneg o'r broffwydoliaeth honno, gw. GIG 177–8, lle y ceir cyfeiriadau at drafodaethau pellach arni. Sonia'r broffwydoliaeth am y mab darogan yn mynd ar groesgad i Gaersalem (cf. ll. 80) ac i'r Almaen (i Gwlen yn y cywydd hwn (ll. 85)), cyn cael ei gladdu rhwng y Tri Gŵr Doeth (llau. 87–8). Yn yr Oesoedd Canol credid bod cyrff y Tri Gŵr Doeth, sef Caspar, Melchior a Balthasar, wedi eu cludo i Gwlen, gw. GIG 178.
- 86 **mab y dyn** Dyma un o'r enwau ar y mab darogan, gw. GPC 2293 d.g. *mab*—*m.* y *dyn* (iii) a HSt 150, 'Un arwydd pendant o ddylanwad Ewrop yn unig a welir yn y cyfnodau cyntaf, sef defnyddio *mab* y *dyn* fel term am y gwron'. Gan fod y ll. yn hir o sillaf, dylid o bosibl ddarllen *mab dyn*.
- 87 **seinir sant** Hwyrach y ceid gwell ystyr yma o ddarllen *seinir siant*.
- 88 *n* wreiddgoll.
- 89 crych a llyfn.



90 *r ac n* berfeddgoll.

## 7

Fel y gerdd flaenorol, perthyn y cywydd i'r dosbarth o gywyddau ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a gwrthrych. Ceir dau gywydd brud arall ar ffurf ymddiddan rhwng y bardd a chigfran, gan Ddafydd Llwyd a Maredudd ap Rhys.<sup>1</sup> Egyr y gerdd a'r bardd yn dyfalu'r gigfran, gan ddisgrifio'i hymddangosiad, ei chrawcian amhersain a'i natur ysglyfaethus. Yna, yn ôl arfer y cywydd annerch, gofyn y bardd i'r anifail am gyngor. Daw'r atebion a gyflwynir â'r gorchmynion *aro, disgwyl* ('edrych') a *gochel* ar ffurf cyfres o arwyddion megis dyfodiad y mab darogan dros y môr o Fanaw. Sonnir am goelcerth yn Nulyn (llau. 41–2) ac am frwydrau Cors Fochno (ll. 44), Cymunod (ll. 46) a Chefn yr Ais (ll. 48), enwau a ddigwydd yn bur aml mewn barddoniaeth broffwydol. Ymhyfryda'r bardd wrth ddisgrifio'r gyflafan waedlyd a ddigwydd. Cyfeirir at ddiffyg crefydd y Saeson (ll. 57) a disgrifir eu meirch *Yn siêd yn cerdded y coed* (ll. 60) a'u gwragedd gweddwon ac Afon Hafren a'i dŵr fel gwin gan ei fod yn llawn gwaed o archollion rhyfelwyr. Gorffen y bardd yn orfoleddus gan ddarogan gwae i'r Saeson a buddugoliaeth sicr i'r Cymry:

A phan ddarffo drithro drin  
 Cau y Nordd medd cerdd Merddin,  
 Yna y gwelir ond gwylio  
 Y Saeson ffeilsion yn ffo,  
 A darfo rhwyfo rhyfel,  
 Cymry sy yn barnu'r bêl (llau. 75–80).

Ni cheir yn y gerdd hon gyfeiriadau at unrhyw ymgyrch benodol ac felly ni ellir cynnig amcan ynglŷn â dyddiad ei chanu.

- 3 **mwyargod** Cf. y trosiad *mwyardwf* y mae Maredudd ap Rhys yn ei ddefnyddio wrth ddyfalu'r gigfran yn ei gywydd ef i'r aderyn, *Y Gigfran oergan arwgau*, Llst 133, 1170.
- 8 **pen pres** Gw. GLD 20.60n.
- 9 **rhylol** Ni cheir cynghanedd nag ystyr dderbyniol o ddarlleniadau'r llawysgrifau, a diwygir yn betrus gan deall *rhylol*, unig enghraifft, yn gyfuniad o'r geiryn cadarnhaol *rhy-* (a welir o flaen enwau ac ansoddeiriau yn ogystal â berfau) a *lol* 'gwag-siarad', &c., (y ceir enghreifftiau ohono yn GPC 2067–8 o ddechrau'r 16g. ymlaen).

<sup>1</sup> Gw. GDL1 87–9 (cerdd 36) a Llst 133, 1170.

- 13–14 Diwygiwyd yr odlau yn *greg* a *goegfreg* er mwyn cael gwell synnwyr a chynghanedd.
- 17 *f*led-lafarog o dan yr acen, cf. llau. 29 a 43.
- 18 **grawys** Tymor ymprydio, ond yr oedd y gigfran yn gloddesta (llau. 19–22) a dyna pam yr oedd yn ddigrefydd (ll. 17).
- 22 **disgwyl Môn** Yr oedd ‘cad ym Môn’ yn un o’r brwydrau y cyfeirid atynt yn y cywyddau brud, gw. 6.32n.  
*r* wreiddgoll a thwyll gynghanedd *l*.
- 24 **y ddwy radd** Bydd y gigfran yn dyheu am gael ysbeilio cyrff y Cymry a’r Saeson yn ddiwahaniaeth am mai aderyn ysglyfaethus ydyw.
- 30 Sylwer ar yr odl lafar yma, *pur/brwydyr*. Dichon mai deusill yw *brwydyr* eto yn ll. 32.
- 34 **Disgwyl draw Manaw a Môn** Am arwyddocâd y cyfeiriadau at Fanaw a Môn, gw. 5.20n a 6.32n uchod.
- 35 **yr eryr du** Ymddengys fod hwn yn enw ar y mab darogan, cf. y llau. hyn o gywydd Robin Ddu i’r seren, CLIG i, 217, *Gwŷr y wlad mewn gad gall*, / *A diria o dŷ arall*. / *Eryr du, ag eurwawr don*, / *Gwae filoedd o’r gofalon!*, a gw. rhestr R. Wallis Evans yn GWL ii, 289.
- 39 **droganwr** Dyma enw’r cywyddau brud am y mab darogan yn hytrach nag am y sawl sy’n proffwydo, gw. HSt 155.
- 40 **reiol** Ceir awgrym y bydd y mab darogan yn cipio’r goron yn ôl i’r ‘Brytaniaid’.
- 41 *r* wreiddgoll.
- 41–2 Y mae ‘tân yn Nulyn’ yn un o’r arwyddion brudiol traddodiadol, cf. ‘llosgi Dulyn’, HSt 156.
- 42 **mab y dyn** Gw. 6.63n.
- 44 **Cors Fochno** Gw. 6.61n.
- 46 **Cymunod** Gw. 6.64n.
- 47 *f*led-lafarog.
- 48 **Cefn yr Ais** Dyma un o’r brwydrau a grybwyllir yn y cywyddau brud. Digwydd yn H. Lewis, ‘Cywyddau Brud’, B i (1921–3), 303 (ll. 67) a cf. GDB 6.13–14 *Dragon ut dremrut, dreic Emreis—ual prut*, / *Prif gynnyt Keuyn yr Eis* (Llygad Gŵr), ac *ib.n* lle y ceir cyfeiriadau at drafodaethau pellach.
- 50 **fal ‘tae win** Diwygir darlleniad y llsgrau. o *tewyn* er mwyn yr ystyr. Am syniad cyffelyb, gw. J.E. Caerwyn Williams, ‘kyfedwynt y gynrein kwymyn don’, B xxi (1964–6), 226.  
*f*led-larafog a thwyll gynghanedd *l*.

- 51–2 **Dofr** Crybwyllir Brwydr Dofr (*Dover*) mewn nifer o ffynonellau proffwydol, gw. EVW 167 a'r dyfyniadau *ib.* 131, 166. Ceir hefyd sôn am *wneuthur gwaith doffyr* ym 'Mhroffwydoliaeth yr Eryr Mawr', gw. EVW 205.
- 55 **gŵylmabsant** Cf. GDL1 88 (36.46) *Ymhob pant gwylmabsant mawr* ('Cywydd y Gigfran').
- 57 **Saeson ffeilsion eu ffydd** Gw. geiriau Gwrtheyrn, BD 94 (ll. 7), *estravn genedyl a phaganyeit yvch.*
- 60 **siêd** Dyma derm sy'n deillio o'r gair S. *escheat* = 'An "incident" of feudal law, whereby a fief reverted to the lord when the tenant died without leaving a successor qualified to inherit under the original grant. Hence, the lapsing of the land to the Crown ... or to the lord of the manor, on the death of the owner intestate without heirs', OED d.g. A barnu wrth y cwpled hwn, y march sydd yn siêd, hynny yw, yn ddiberchennog.
- 61 **gweddwon wragedd** Dyma un o'r delweddau a gysylltir â brwydrau yn draddodiadol, cf. *ib.* 216, *A gwagedd y goreugwyr / Gwychion, yn weddwon o wŷr*, ac yn arbennig H. Lewis, 'Cywyddau Brud', B i (1921–3), 304 (llau. 87–8), *Gweddw fydd gwagedd, senedd sôn, / A gwasarn dan eu gweision.*
- 63 Y mae'r ll. hon un sillaf yn rhy fyr a gellid awgrymu darllen *A briwo gwŷr â brig onn.*
- 66 Sylwer bod *nn* yn ateb *ng* o dan yr acen yma.
- 69 **i'r drin yn union** Ceid cynghanedd lusg yma o ynganu *union* yn 'inion', ffurf yn arddangos cymathiad *u ... i > i ... i*; ond ceir enghreifftiau pellach yng ngwaith y bardd o gynganeddion llusg digon anarferol, cf. isod ll. 71n.
- 70 Odlir *-u* ac *-y* yn y gynghanedd sain yma.
- 71 Ceir yma odl lusg wallus, odlir *-or* ac *-er-*.
- 72 *m wreiddgoll.*
- 73 **Gochel dridiau, dyddiau dig** Cf. H. Lewis, *art.cit.* 302 (llau. 35–8), *Tridiau rhydd ef, tra ader, / Cad ar faes, cadr yw ei fêr. / Y tridiau—nid direidiwr / Pieufydd—gorfydd y gŵr.*
- 75 **trithro drin** Yr oedd tri yn un o'r rhifau ac iddo arwyddocâd arbennig yn ein llenyddiaeth. Yn aml rhennid digwyddiadau yn grwpiau o dri, cf. 'Trioedd Ynys Prydain', a digwydd hyn o bryd i'w gilydd wrth restru brwydrau yn y canu brud.
- 76 **Y Nordd** Gw. 2.28n. Yma golyga Loegr yn gyffredinol.

**cerdd Merddin** Dyma gyfeiriad at ryw gerdd broffwydol yr oedd y bardd wedi ei chlywed ac a dadogwyd ar Fyrddin, gw. 5.8n, neu efallai farddoniaeth a dadogwyd ar Fyrddin yn gyffredinol.

77 Twyll gynghanedd *d*.

80 **barnu'r bêl** Y mae'r ymadrodd *mynd â'r bêl* a'r amrywiadau arno megis *barnu'r bêl* a *dwyn y bêl* yn gyfystyr ag 'ennill y fuddugoliaeth', gw. GPC 2721. Mae posibilrwydd mai *bel* (o'r S. *bell* 'cloch') ac nid *pêl* yw'r gair, ond nid yw'r odl yn gymorth i benderfynu (gw. J. Morris-Jones: CD 233–4). Ymhellach, gw. GSRh 11.72n. Am enghraifft arall o'r ymadrodd 'barnu'r bêl', cf. BL Add 14887, 29<sup>r</sup> *yr haf y bydd y rhyfel / ef a ddarfŷ barnv/r/ bel*.

## *Mynegai*

- anial** 6.41  
**annwyd** 4.27  
**arddwr** 4.75  
**aredig** 3.62n  
**ar hed** 3.57n  
**ariannu: ariannwyd** 2.5  
**arwydd** 1.39, 47  
**as: asau** 3.32  
**asen** 1.80n  
**ban** 4.55  
**banw** 5.44  
**batel** 7.47  
**bilio: biliwyd** 2.13  
**blingo: bling** 3.54  
**blodeufawr** 6.89  
**braich** 2.1  
**brau** 6.65  
**brig** 3.52  
**brig onn** 7.63  
**brwd** 4.42  
**brwyn** 3.25, 4.42  
**bugail: bugelydd** 3.36n  
**byd** 4.38n  
**carl** 5.26  
**cau<sup>1</sup>** 1.23  
**cau<sup>2</sup>** 7.76  
**cerdded** 7.60  
**cilwg** 6.85  
**clo** 6.5n  
**cloi** 2.6  
**clôr** 2.5  
**cnyw** 4.2  
**coegfreg** 7.14  
**coeladwy** 5.7  
**croyw: croywa<sup>3</sup>** 6.49  
**cwnsel** 3.39  
**cyff: cyffion** 4.6  
**cymen** 5.37  
**cymynu** 3.27, 6.64, 7.46  
**cyswyn** 4.9  
**cyw: cywion** 2.18n  
**cyweirio: cweiriwyd** 4.7  
**darllëwr** 5.14  
**dewrfras** 5.48n  
**diddawr** 4.47  
**dihafarchdroed** 7.59  
**dirgeledig** 3.41  
**dirio** 5.31  
**dirwyn** 4.20n  
**disgrïwr** 5.5  
**disgwyl** 7.22  
**diwreiddio** 1.84  
**diwyn** 6.44  
**drych** 5.49  
**durfin** 6.38  
**dŵr** 2.14  
**dwyno** 6.44  
**dyroddi: dyrai** 5.50  
**dywedwydol** 5.3  
**eilwadd** 6.70  
**enynnu** 5.22  
**erchwyniog** 1.51  
**eres** 5.41  
**eryr** 2.1n  
**euro** 2.16n, 19n  
**ffunen** 4.73  
**ffwyn** 4.73  
**gŵylmabsant** 7.55  
**galawnt** 4.56  
**garddwr** 4.78n  
**geirw** 2.51n  
**germain** 7.7  
**goddaith** 7.42  
**goror** 3.36  
**gradd** 7.24  
**grwn** 1.58n

- gward** 2.14  
**gwawr** 6.77  
**gwe** 4.77  
**gwêr** 4.25  
**gwerin** 6.6n  
**gwers** 4.40  
**gwerthyd** 1.9  
**gwladychu** 7.70  
**gwreang** 1.54  
**gŵr y god** 1.26n  
**gwŷdd** 3.1  
**Gwyddelig** 2.29n  
**gwyddfa** 1.57  
**Gŵyl Ieuan** 4.68n  
**Gŵyl Lug** 1.85n  
**gwylliad: gwylliaid** 5.60  
**gwynnog** 4.41  
**had** 5.65n  
**hael: haelaf** 2.24  
**hau** 1.2n, 71, 90; **heuwn** 1.42  
**hirwyn** 5.32n  
**hocys** 1.40n  
**hoff** 2.30 **hoffa'** 1.10  
**hoywfalch** 6.2  
**hoywliw** 6.81  
**hug** 4.74n  
**hyder** 2.3  
**hygref** 6.54  
**iach** 1.79n  
**iawndwf** 6.4  
**ing** 4.65n  
**llamhidydd** 3.2  
**llawes** 5.42n  
**llawn** 1.5  
**llen** 6.2  
**llewyg** 5.23  
**llon** 7.49, 62  
**llunio: lluniem** 4.13  
**mab y dyn** 6.86n; 7.42  
**mâl** 2.21  
**melysig** 7.21  
**min** 4.71  
**mwnd** 4.64n  
**mwyargod** 7.3n  
**mynwes** 7.6, 65  
**naturiaawl** 6.76  
**nawddfawr** 6.1n  
**nod: nodau** 1.89n  
**oer** 7.47  
**oeswr** 6.83  
**plaid** 6.89  
**pres** 7.8  
**rag** 3.22n  
**reiol** 7.40n  
**rhawn o wyn** 1.15n  
**rhol** 3.24  
**rhwyf** 2.40  
**rhwyfo** 7.44, 79  
**rhylol** 7.9n  
**seiliaw** 6.25  
**Saeson** 6.56; 7.57n, 64, 72  
**Sais** 2.62, 4.70, 5.56, 7.64  
**sarnu** 7.64  
**sias** 6.25, 56  
**siêd** 7.60n  
**siol** 7.10  
**sirion** 1.48  
**swrn** 7.64  
**swydd ll. swyddau** 1.2  
**syfrdan** 7.1  
**tario: terir** 6.51  
**teyrnas** 6.74n  
**Trioedd, y** 5.7n  
**trithro** 7.75n  
**tromwedd** 6.5  
**trwch** 1.28, 3.28, 5.20  
**trwm** 6.21  
**trwyn** 3.50  
**twysg** 4.20n  
**ych** 1.79n  
**ymddywynygu: ymddywynnig**  
 4.51

*Enwau personau*

- Adda** 4.15n  
**Bardd Glas, y** 4.22n  
**Cân, y** 1.69n  
**Dafydd<sup>1</sup>** 1.49  
**Dafydd<sup>2</sup>** Dafydd Llwyd ap  
 Llywelyn ap Gruffudd o  
 Fathafarn 5.15n  
**Daniel** 4.77n  
**Dardan** 4.60n  
**Duw** 3.10, 6.10, 29, 46, 81, 7.68  
**Eliás** 4.33n  
**Gwilym** 5.52n  
**Ieuan gw. Gŵyl Ieuan**  
**Lug gw. Gŵyl Lug**  
**Harri** 2.15n  
**Hywel ap Rhys** 1.56  
**Idwal** 2.22n  
**Iesu** 1.80; 7.29  
**Ieuan gw. Gŵyl Ieuan**  
**Llug gw. Gŵyl Lug**  
**Locrinus** 1.31n  
**Madog** 1.58n  
**Mair** 1.28  
**Margred<sup>1</sup>** 2.72n  
**Margred<sup>2</sup>** 3.17  
**Merddin gw. Myrddin**  
**Moreiddig** 2.20n  
**Morfryn** 4.36n  
**Morys, Syr** 1.47n  
**Morys Fychan** 2.47n  
**Myrddin** 4.78n, 5.8n, **Merddin**  
 7.76n, **y ddau Fyrddin** 2.40n  
**Owain** 6.63n, 79; 7.43  
**Rhosier** 2.3n, 9n, 31, 41, 61 **Syr**  
**Rhosier** 2.43  
**Rhys, Syr** 3.6n  
**Taliesin** 5.8n  
**Tomas** 1.40, 63  
**Tomas Dafí** 1.63–4  
**Wil** 4.4  
**Wiliam Hoel** 1.74n

*Enwau lleoedd*

- Annwn** 7.2, 10  
**Bablon gw. Tŵr Bablon**  
**Berwig** 2.43n, 5.29  
**Brytain Fawr** 6.77  
**Caerdyf** 1.6  
**Caersalem** 6.80  
**Calais** 4.44  
**Cefn yr Ais** 7.48n  
**Cleirwy** 2.6n  
**Conwy** 6.48n  
**Cors Fochno** 7.44 (gw. hefyd  
**Mochno**)  
**Cwlen** 6.85  
**Cymunod** 6.64n, 7.46  
**Dofr** 7.51n  
**Dulyn** 1.66, 7.41n  
**Elfael** 4.4n  
**Fâl, y** 1.42n, 2.52  
**Fenis** 1.67n  
**Galabes** 1.20  
**Glan Dyfi** 5.15n  
**Graig Lwyd, y** 4.28n  
**Gwent** 2.8  
**Gwynedd** 5.65n; 6.5n  
**Hafren** 7.49  
**Lincol** 4.74n  
**Llandaf** 2.4  
**Lloegr** 1.18, 2.10, 4.58, 5.23,  
6.66, 7.36  
**Llundain** 3.58, 5.30n  
**Llwyn Daned** 3.58n  
**Llwyn Dyfi** 2.4  
**Llwyn Llwyd** 4.62n  
**Llydaw** 4.57  
**Manaw** 2.26n, 5.20n, 7.34m  
**Mathrafal** 1.41n  
**Mochno** 6.61n (gw. hefyd **Cors**  
**Fochno**)  
**Môn** 6.32n, 7.22n, 34  
**Mynyw** 6.58n  
**Nordd, y** 6.26, 7.76n **North**  
2.28n  
**Normandi** 4.64n  
**North gw. Nordd**  
**Powls** 1.66  
**Rôn** 6.61  
**Rhufain** 5.36n  
**Tŵr Bablon** 6.12n  
**Wyddfa, y** 6.17  
**Yri, yr** 6.50n



# *Mynegai i dermau brud*

## *i. Anifeiliaid*

**âb** 3.44; **gwers yr âb** 4.40n  
**adar y drudwen** 1.17  
**aderyn** 1.16, 5.48n  
**arth** 1.9, 6.27n **pen yr arth** 3.22n  
**asen** 4.45n  
**baedd** 1.10n  
**banw** 5.44n  
**blaidd** 3.30n  
**brân** 2.30n, 3.30n, 42, 4.72n,  
6.53n, 65n  
**bwch danas** 4.45n  
**cath** 3.48n, 5.26n  
**cenau: tri chenau** 1.21n  
**ci** 3.21n, 5.26n, 32n  
**cnyw** 4.2  
**corryn** 5.34n  
**cranc** 3.39–40n  
**cyw eryr gw. eryr**  
**draig** 5.62n  
**draig wen** 2.25n; 5.31n  
**drudwen gw. adar**  
**eilwadd** 6.70n (gw. hefyd **gwadd**  
a **twrch daear**)  
**eryr** 3.51n **cyw eryr** 5.34n yr  
**eryr du** 7.35n  
**eurwalch gw. cyw eurwalch**  
2.2n

**gafr** 5.64n  
**gwadd** 1.84n, 2.35n, 5.63n, 6.42  
(gw. hefyd **eilwadd** a **twrch**  
**daear**)  
**gwennol** 3.46; 5.66n **gwennol hir**  
1.86n  
**gwiber** 3.31n, 51n  
**gŵydd** 3.40  
**llew** 2.10n; 5.64n **llew a'i hanner**  
**yn llwyd** 5.45n **ewin llew** 4.49n  
**llew gwyn** 3.33n **llew melyn**  
2.39n  
**llewes** 5.42n  
**llwynog** 1.5n, 5.54n  
**llywethan** 1.70n  
**merliwn** 3.45n  
**neidr** 4.66n **tair neidr** 2.22n  
**neidr deg wen** 4.75n; *ll.*  
**nadredd** 1.11  
**oen ... â thafod aur** 1.87–8n  
**pi: tri ban natur y bi** 4.55n  
**pryf** 4.46n  
**tarw** 6.57n, 65n  
**twrch daear** 6.43 (gw. hefyd  
**gwadd** ac **eilwadd**)  
**tylluan** 3.52n  
**ych, yr** 3.61n **nai'r ych** 4.65n

## *ii. Arwyddion yn ymwneud â'r tywydd a'r tymhorau*

**cawod** 1.32n, 34  
**eira Wyl Ieuan** 4.68n  
**gaeaf glas** 4.34n  
**glaw, arwydd** 4.22 **glaw nos Iau**  
4.70n  
**gwanwyn hir** 1.90n

**haf da brwd** 4.42n **Haf Gwyddel**  
1.50n **hir yw'r ha'** 6.51n  
**lleuad** 3.29n, 3.49n (gw. **tir y**  
**lleuad**)  
**lloer** 1.37n  
**tes** 1.19, 1.34n

*iii. Arwyddion, motiffau a themâu eraill*

- angel** 3.59n  
**asau** 3.32n  
**baner las** 5.43n  
**bara: heb fawr fara** 6.52n  
**barnu'r bêl** 7.80n  
**bryn brad, llew melyn i'r** 2.39n  
**bywyd bas, y** 5.47n  
**bugail ll. bugelydd** 3.37n  
**carl** 5.26n  
**cerdd Merddin** 7.76n  
**croes, dwyn** 6.81  
**crog: y grog** 1.57  
**D** 4.75n  
**derwen: y dderwen** 1.21n  
**deuddarn** 4.47n  
**dewin** 5.12n  
**dialedd** 6.22n **tri dialedd** 6.68n  
**dialedd Duw** 6.29n  
**droganwr** 7.39n  
**dŵr: terfysgwr o'r dŵr y daw**  
 2.27n  
**E** 1.29n  
**eglwys, gwaith** 6.30  
**ffin Wyddelig** 2.29n  
**ffon rag** 3.22n  
**ffydd yn gloff** 6.24n **Saeson**  
**ffeilsion eu ffydd** 7.57n  
**gelyn, chwe** 3.39–40n  
**glan: daw i'r lan** 1.38n  
**godaith: Dilyn ... oddaith** 7.41–  
 2  
**Grawys** 7.17  
**gwers yr âb** 4.40n  
**gŵn dau hanner** 4.26n  
**gwragedd: gweddwon ...**  
**wragedd** 7.61n  
**gŵr y god** 1.26n  
**Gŵyl Lug** 1.85n  
**gŵylmabsant** 7.55n  
**Gwyliaid** 5.60n  
**gwyn hen** 1.90n  
**H** 1.25n  
**hocys** 1.40n  
**I** 1.25n  
**llais, wyth** 3.60n  
**lleian** 5.14n  
**llynges** 5.41n **llynges goch oer**  
**droch** 6.33n  
**llyngesan ddu** 1.37–8  
**mab y dyn** 6.86n, 7.42n  
**môr-forwyn** 1.35n  
**morwyn** 1.13 **morwyn deg** 4.43–  
 4n **morwyn ... o'r Llwyn**  
**Llwyd** 4.61–2n  
**nadredd ... a chwibanant** 1.11–  
 12n  
**nodir awr** 5.51n  
**P, y** 6.37n  
**pla: i Fôn y daw blinaw bla**  
 6.32n  
**R** 1.26n, 30  
**R fain** 1.30n  
**R goch** 2.10n  
**rhawn o wyn** 1.15n  
**rhiain** 1.15 **rhiain hir** 5.33n **dwy**  
**riain ddireiol** 2.42n  
**rhos** 5.35n  
**rhyfel ar wŷr Rhufain** 5.36n  
**siêd** 7.60n  
**tân: Manaw'n dân** 2.26n  
**tir y lleuad** 5.39n  
**treth** 6.47n  
**tridiau dyddiau dig** 7.73n  
**trin: trithro drin** 7.75n  
**Tŵr Bablon** 6.12n  
**U** 4.75n

## *Llawysgrifau*

*Cynnwys nifer o'r llawysgrifau a restrir waith sawl copiwr. Ceisir dyddio'r rhannau hynny y mae gwaith Dafydd Gorlech yn digwydd ynddynt yn unig. Yr wyf yn ddyledus i Mr Daniel Huws am unrhyw ddyddiadau neu wybodaeth na chrybwyllir yn y ffynonellau printiedig a nodir.*

*Llawysgrif yng nghasgliad Prifysgol Cymru Bangor*

**Bangor 1267:** Rowland Lewis, hanner cyntaf yr 17g., gw. 'Catalogue of Bangor MSS. General Collection' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Prifysgol Cymru Bangor).

*Llawysgrifau Ychwanegol yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*

**BL Add 14887 [= BM 35]:** llaw anh., c. 1600, gw. RWM ii, 1071–3.

**BL Add 14889 [= BM 25]:** Thomas Davies, c. 1600, *ib.* 1019–21.

**BL Add 14892:** William Bodwrda, canol yr 17g., gw. CAMBM 1844, 25–6.

**BL Add 14897:** llaw anh., ail hanner yr 17g., gw. *ib.* 27.

**BL Add 14979:** John Fowk, c. 1590, gw. *ib.* 53–4.

**BL Add 14994:** Owen Jones a Hugh Maurice yn bennaf, blynyddoedd cynnar y 19g., gw. *ib.* 58–9.

**BL Add 31057:** dwy law anh., 16g./17g., gw. CAMBM, 1876–1881, 154.

**BL Add 31060:** Edward Davies, Llangedwyn, c. 1640, gw. *ib. l.c.*

**BL Add 31082:** Owen Jones a Hugh Maurice, blynyddoedd cynnar y 19g., gw. *ib. l.c.*

*Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Bodley, Rhydychen*

**Bodley Welsh e 6:** John Jones, Gellilyfdy, 1604, gw. F. Madan & H.H.E. Craster, *Summary Catalogue of Western Manuscripts in the Bodleian Library at Oxford*, vi (Oxford, 1924), 216.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**LIGC 659A:** llaw anh., 19g., gw. HMNLW i, 45.

**LIGC 668C:** William Jones, Llangollen, 19g., gw. *ib.* 46.

**LIGC 669D:** John Thomas (Siôn Wyn o Eifion), cynnar yn y 19g., gw. *ib.*

**LIGC 672D:** llaw anh., 18g./19g., gw. *ib.* 47.

- LIGC 1578B:** llaw anh., 17g., gw. *ib.* 133–4.  
**LIGC 3077B:** llawiau anh., 17g., gw. *ib.* 264.  
**LIGC 4710B:** Gwilym Pue, Penrhyn Creuddyn, 17g., gw. *ib.* ii, 36–7.  
**LIGC 6209E:** Edward Lhuyd, Iaco ab Dewi a David Parry, 17g./18g., gw. *ib.* 158–9.  
**LIGC 6499B:** llawiau anh., 17g., gw. *ib.* 186.  
**LIGC 6967B:** ?Rhys Jones, tua 1780, gw. *ib.* 225–6.  
**LIGC 7191B:** ?Dafydd Vaughan, yn ddiweddar yn yr 17g., gw. *ib.* 245.  
**LIGC 10250B:** llaw anh., 18g., gw. *ib.* iii, 204.  
**LIGC 11990A:** Rees Roberts, 17g., gw. *ib.* iv, 103.  
**LIGC 13069B:** Thomas ab Ieuan o Dre'r Bryn, 17g., gw. *ib.* 357–8.  
**LIGC 13167B:** Gwilym Pue, Penrhyn Creuddyn, 17g., gw. *ib.* 482–3.  
**LIGC 19222B:** llaw anh., 17g., gw. 'List of MSS NLW 18943–20000' (catalog anghyhoeddedig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

*Llawysgrifau yng nghasgliad Llanstephan yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

- Llst 30:** un o gopiŵyr Dr John Davies, Mallwyd, 17g., gw. RWM ii, 465–73.  
**Llst 41:** dwy law anh., *c.* 1610–30, gw. *ib.* 504–9.  
**Llst 54:** *amanuensis* Moses Williams, dechrau'r 18g., gw. *ib.* 545–9.  
**Llst 120:** Jaspas Griffith, *c.* 1607, gw. *ib.* 603–9.  
**Llst 133:** Samuel Williams, dechrau'r 18g., gw. *ib.* 664–94 a G.H. Hughes, *Iaco ab Dewi* (Caerdydd, 1953), 37–40.  
**Llst 136:** llaw anh., *c.* 1625, gw. *ib.* 716–18.  
**Llst 173:** llaw anh., dechrau'r 17g., gw. *ib.* 764–7.

*Llawysgrifau yng nghasgliad Peniarth yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

- Pen 78:** llawiau amrywiol: llaw e, *c.* 1580, gw. RWM i, 518–21.  
**Pen 94:** Thomas Wiliems, *c.* 1600, gw. *ib.* 578–89.  
**Pen 124:** llaw anh., wedi 1713, gw. *ib.* 754–68.  
**Pen 326:** llaw anh., 17g./18g., gw. *ib.* 1124.  
**Pen 327:** llaw anh., 17g./18g., gw. *ib.* 1124–6.

*Llawysgrif yng nghasgliad Stowe yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain*

- Stowe 959 [= BM 48]:** llaw anh., chwarter olaf yr 16g. gan mwyaf, gw. HMNLW 1110–1126.

*Llawysgrif yng nghasgliad Wynnstay yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth*

**Wy 6:** llaw anh., 17g./18g., gw. 'Schedule of the Wynnstay Manuscripts and Documents' (cyfrol anghyhoeddedig, Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth).



## *Mynegai i'r llinellau cyntaf*

	<i>Td.</i>
Am eryr braich môr a bryn.....	20
Deallwn nad â wellwell.....	13
Dyn wyf yn myned yn wŷdd.....	25
Nid êl ei gorff ar elawr.....	30
Y brud hen, wyt yn bratáu .....	38
Y gigfran syfrdan ei sŵn.....	53
Y Wyddfa noddfa nawddfawr.....	44